RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL:
4/2017
DYDDIAD CYHOEDDI:
08/02/2017

# Gwerthusiad o Dechrau'n Deg: Deilliannau Addysgol

## Gwerthusiad o Dechrau'n Deg gan ddefnyddio setiau data presennol

© Hawlfraint y Goron

Digital ISBN 978-1-4734-8537-2

**Gwerthusiad o Dechrau'n Deg: Deilliannau Addysgol**

Gwerthusiad o Dechrau'n Deg gan ddefnyddio setiau data presennol

Joseph Wilton / Llywodraeth Cymru

Rhys Davies / The Administrative Data Research Centre – Wales (ADRC-W), Prifysgol Caerdydd

Barn yr ymchwilydd yw'r farn a fynegir yn yr adroddiad hwn, nid o reidrwydd barn Llywodraeth Cymru

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Joseph Wilton

Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

Ffôn: 0300 025 2663

E-bost: joseph.wilton@wales.gsi.gov.uk

**Tabl cynnwys**

Rhestr o dablau ..... 2
Rhestr o ffigurau ..... 3
Geirfa ..... 4
1. Crynodeb ..... 5
2. Cyflwyniad ..... 8
3. Ardaloedd Dechrau'n Deg ..... 26
4. Presenoldeb ..... 33
5. Cyrhaeddiad Addysgol ..... 52
6. Anghenion Addysgol Arbennig ..... 63
7. Effaith Dechrau'n Deg ..... 77
8. Casgliad ..... 82
Atodiadau ..... 87

**Rhestr o dablau**

Tabl 3.1. Cyfrannau grwpiau demograffig ........................................................................ 28
Tabl 3.2. Dangosyddion amddifadedd ............................................................................... 29
Tabl 4.1. Lefelau cyfartalog presenoldeb ac absenoldeb. .................................................. 35
Tabl 4.2. Allbynnau'r modelau atchwel ar gyfer absenoldeb ............................................. 45
Tabl 4.3. Allbynnau Paru Sgorau Tueddiad absenoldeb cyn ehangu ................................ 48
Tabl 4.4. Allbynnau Paru Sgorau Tueddiad absenoldeb ar ôl ehangu ............................... 50
Tabl 4.5. Allbynnau Paru Sgorau Tueddiad absenoldeb cyn ehangu o gymharu ag ar ôl ehangu ............................................................................................................... 51
Tabl 5.1. Lefelau cyfartalog cyrhaeddiad Sgiliau Craidd ................................................... 54
Tabl 5.2. Allbynnau'r modelau atchwel ar gyfer cyrhaeddiad ............................................ 60
Tabl 5.3. Allbynnau Paru Sgorau Tueddiad cyrhaeddiad cyn ehangu ............................... 62
Tabl 6.1. Lefelau cyfartalog anghenion addysgol arbennig. ............................................... 66
Tabl 6.2. Yr anghenion penodol sydd wedi'u cynnwys ym mhob grŵp AAA ...................... 67
Tabl 6.3. Cyfran gyfartalog unrhyw anghenion addysgol arbennig yn ôl grŵp blwyddyn ............................................................................................................... 72
Tabl 6.4. Allbynnau'r modelau atchwel ar gyfer anghenion addysgol arbennig ................. 75
Tabl 6.5. Allbynnau'r modelau atchwel ar gyfer anghenion addysgol arbennig yn ôl grŵp blwyddyn ............................................................................................................... 76
Tabl A.1 – 4. Y gwahaniaethau mewn presenoldeb cyfartalog yn ôl nodweddion unigol ............................................................................................................... 87
Tabl C.1. Y gwahaniaethau mewn cyrhaeddiad cyfartalog yn ôl nodweddion unigol .... 93
Tabl E.1 - 4. Y gwahaniaethau mewn anghenion addysgol arbennig cyfartalog yn ôl nodweddion unigol ........................................................................................ 95

**Rhestr o ffigurau**

Ffigur 3.1. Cyfanswm nifer y plant ........ 26
Ffigur 3.2. Dosbarthiad yn ôl amddifadedd incwm ........ 31
Ffigur 3.3. Cyfran y plant sydd mewn amddifadedd incwm ........ 31
Ffigur 3.4. Cyfran y plant sy’n gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim ........ 32
Ffigur 4.1a - d. Lefelau absenoldeb cyfartalog ........ 37
Ffigur 4.2a - d. Lefelau absenoldeb cyfartalog yn ôl amddifadedd incwm ........ 41
Ffigur 5.1. Lefelau cyrhaeddiad cyfartalog ........ 56
Ffigur 5.2. Lefelau cyrhaeddiad cyfartalog yn ôl Anghenion Addysgol Arbennig ........ 57
Ffigur 5.3. Lefelau cyrhaeddiad cyfartalog yn ôl amddifadedd incwm ........ 58
Ffigur 5.4. Lefelau cyrhaeddiad cyfartalog yn ôl Prydau Ysgol am Ddim ........ 58
Ffigur 6.1a - d. Lefelau cyfartalog anghenion addysgol arbennig ........ 68
Ffigur 6.2. Lefelau cyfartalog anghenion addysgol arbennig yn y grŵp blwyddyn Derbyn ........ 72
Ffigur 6.3. Lefelau cyfartalog anghenion addysgol arbennig mewn ardaloedd Dechrau’n Deg cyn ei ehangu yn unig, yn ôl amddifadedd incwm ........ 73
Ffigur 7.1. Model Hafaliad Strwythurol (AAA) ........ 79
Ffigur B.1 - 4. Absenoldeb rhagweledig o gymharu ag absenoldeb gwirioneddol ........ 91
Ffigur D.1. Cyrhaeddiad rhagweledig o gymharu â chyrhaeddiad gwirioneddol ........ 94

**Geirfa**

| **Acronym/Allweddair** | **Diffiniad** |
|---|---|
| AAA | Anghenion Addysgol Arbennig |
| AGEHI | Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is |
| CA1 | Cyfnod Allweddol 1 |
| CS | Cyfnod Sylfaen |
| DSC | Dangosydd Sgiliau Craidd |
| DWP | Yr Adran Gwaith a Phensiynau |
| GAD | Grant Amddifadedd Disgyblion |
| LIC | Llywodraeth Cymru |
| MALIC | Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru |
| ONS | Y Swyddfa Ystadegau Gwladol |
| PYDd | Prydau Ysgol am Ddim |

# 1. Crynodeb

1.1. Nod rhaglen Llywodraeth Cymru, Dechrau'n Deg, yw gwella cyfleoedd bywyd plant ifanc sy'n byw yn rhai o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Mae pedair hawl gan deuluoedd â phlant sydd hyd at bedair oed:

- Gofal rhan-amser o ansawdd i blant dwy i dair oed, yn rhad ac am ddim
- Gwasanaeth a chymorth ymweliadau iechyd gwell
- Mynediad at gymorth rhianta
- Cymorth iaith, lleferydd a chyfathrebu

1.2. Dechreuodd y rhaglen yn 2006/07 ac fe'i hehangwyd yn 2012. Er mai'r ymrwymiad oedd darparu gwasanaethau i 36,000 o blant, mae Dechrau'n Deg bellach yn darparu gwasanaethau i ychydig dros 38,000 o blant. Mae arfarniadau blaenorol wedi amlygu rhai effeithiau cadarnhaol, ond bu'r rhain naill ai'n effeithiau gwan iawn neu farn rhieni a staff oeddent, yn hytrach na mesurau gwrthrychol. Nod y gwerthusiad hwn yn adeiladu ar y rhain a defnyddio data ysgolion er mwyn pennu a yw deilliannau plant sy'n byw mewn ardaloedd Dechrau'n Deg yn wahanol i ddeilliannau plant eraill ac a ellir dweud bod hyn o ganlyniad i'r rhaglen.

1.3. Yr her yn y dull hwn yw nad oes modd dweud, o'r data sydd ar gael, pa gymorth y mae plant unigol wedi'i gael gan Dechrau'n Deg, os o gwbl, dim ond p'un a oeddent yn byw mewn ardal Dechrau'n Deg tra'r oeddent yn yr ysgol[1]. Rhagdybir yr oeddent yn byw yn yr un ardal cyn dechrau'r ysgol. Felly, mae'n amhosibl dweud pa lefel cymorth y mae pob plentyn unigol wedi'i gael gan Dechrau'n Deg. Hefyd, oherwydd bod yr ymchwil yn defnyddio data a gesglir fel mater o drefn gan ysgolion ac adrannau eraill y llywodraeth yn unig, mae sawl ffactor posibl a allai effeithio ar y deilliannau nad ydynt wedi'u cynnwys yn y dadansoddiad hwn. Er gwaethaf y materion hyn, mae'n bosibl o hyd gweld a yw unrhyw newid mewn deilliannau addysgol yn gysylltiedig â chyflwyno Dechrau'n Deg.

[1] Er nad yw'r data hwn ar gael ar hyn o bryd, mae mynediad at ddata lefel unigol yn cael ei archwilio ar gyfer gwerthusiadau yn y dyfodol.

1.4. Cymerwyd y data a ddefnyddir yn y gwerthusiad hwn o Gronfa Ddata Genedlaethol y Disgyblion yn bennaf; data yw hwn a gesglir gan ysgolion. Cafodd y data o 2007 i 2015 ei gynnwys, sy'n golygu y bu'n bosibl cymharu deilliannau plant mewn ardaloedd Dechrau'n Deg cyn cyflwyno'r rhaglen â'r deilliannau ar ôl ei chyflwyno. Mae canlyniadau'r gwerthusiad hwn yn dangos bod ardaloedd Dechrau'n Deg yn fwy amddifad nag ardaloedd eraill, gydag ychydig dros hanner y plant hyd at dair oed yn byw ar aelwyd â rhiant sy'n derbyn budd-daliadau sy'n dibynnu ar brawf modd, o gymharu â chwarter mewn ardaloedd eraill. Mae hyn yn golygu bod y cymorth a ddarperir gan Dechrau'n Deg yn cystadlu yn erbyn effeithiau negyddol byw ar aelwyd sydd, efallai, â llai o allu i gefnogi dysgu a datblygiad y plentyn.

1.5. Mae perthynas gref rhwng amddifadedd â phresenoldeb felly mae presenoldeb plant sy'n byw mewn ardaloedd mwy difreintiedig yn is, ar gyfartaledd, na'r rhai sy'n byw mewn ardaloedd llai difreintiedig. Fodd bynnag, mae'r canlyniadau'n dangos bod presenoldeb plant sy'n byw mewn ardaloedd Dechrau'n Deg wedi gwella ar ôl cyflwyno Dechrau'n Deg. Roedd hwn yn fwy o welliant na'r hyn a welwyd mewn ardaloedd eraill sydd heb eu cynnwys yn rhaglen Dechrau'n Deg. Mae paru plant unigol mewn ardaloedd Dechrau'n Deg â phlant nad ydynt mewn ardaloedd Dechrau'n Deg ond sy'n byw ar aelwydydd amddifad tebyg yn awgrymu bod byw mewn ardal Dechrau'n Deg yn cael effaith gadarnhaol.

1.6. Mae'n anodd gallu profi effaith Dechrau'n Deg ar gyrhaeddiad addysgol, oherwydd newidiodd y cwricwlwm yn 2009 o Gyfnod Allweddol 1 (CA1) i'r Cyfnod Sylfaen (CS). Mae hyn yn golygu bod plant yn cael eu hasesu gan ddefnyddio mesur gwahanol o 2012 ymlaen. Nid yw'n bosibl cymharu canlyniadau rhwng y ddau fesur, felly cafodd y canlyniadau eu rhannu i'r cyfnod cyn ac ar ôl y CS. Oherwydd y cyfyngiad hwn, mae'n amhosibl dweud a yw Dechrau'n Deg wedi cael unrhyw effaith gadarnhaol ar ddeilliannau. Er bod cyrhaeddiad wedi bod yn gwella'n gyson mewn ardaloedd Dechrau'n Deg a hynny yn gynt nag mewn ardaloedd heb Dechrau'n Deg, ni ellir rhagdybio bod hyn oherwydd Dechrau'n Deg yn unig. Fodd bynnag, o ystyried ystod y gwasanaethau a nifer y plant sydd wedi'u cynnwys, mae tebygolrwydd da fod Dechrau'n Deg yn chwarae rhan. Mae angen data ar y lefel y mae plant a theuluoedd unigol yn ymwneud â gwasanaethau Dechrau'n Deg er mwyn dod i gasgliadau mwy pendant am ran Dechrau'n Deg.

1.7. Darganfu'r gwerthusiad hwn fod dynodiad o anghenion addysgol arbennig (AAA) yn gysylltiedig â mwy o absenoldeb a chyrhaeddiad is. Mae plant sy'n byw mewn ardaloedd Dechrau'n Deg hefyd yn fwy tebygol o fod â dynodiad o AAA. Er ei bod hi'n bosibl bod plant mewn ardaloedd amddifad yn fwy tebygol o fod ag anawsterau dysgu neu anawsterau ymddygiadol, mae'n nod gan Dechrau'n Deg hefyd i nodi'r anawsterau hyn yn gynnar. Canfuwyd bod plant mewn ardaloedd Dechrau'n Deg yn fwy tebygol o ddechrau'r ysgol ag AAA eisoes wedi'u nodi. Mae hyn yn ganfyddiad cadarnhaol, oherwydd mae'n golygu bod y plant hyn yn gallu elwa o'r cymorth y mae arnynt ei angen o oed iau.

1.8. Defnyddiodd y gwerthusiad hwn ddata a gasglwyd eisoes i geisio gweld a yw Dechrau'n Deg wedi arwain at well deilliannau addysgol. Er gwaethaf rhai cyfyngiadau, mae'r dadansoddiad yn dangos bod Dechrau'n Deg yn gysylltiedig â gwell deilliannau addysgol i blant. Mae cysylltiad rhwng byw mewn ardal Dechrau'n Deg ar ôl iddo gael ei gyflwyno â gwell presenoldeb a mwy o siawns o ganfod plant ag AAA yn gynnar sydd, gobeithio, yn golygu eu bod yn cael yr help y mae arnynt ei angen. Gall hyn yn ei dro arwain at ganlyniadau gwell yn yr asesiad ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a deilliannau tymor hir gwell[2].

[2] http://webarchive.nationalarchives.gov.uk/20160105160709/http://www.ons.gov.uk/ons/dcp171766_378097.pdf

## 2. Cyflwyniad

### Disgrifiad o'r Ddarpariaeth

2.1. Prif raglen Llywodraeth Cymru i deuluoedd â phlant hyd at bedair oed yw Dechrau'n Deg. Mae wedi'i hanelu at wella cyfleoedd bywyd plant sy'n byw mewn rhai o gymunedau mwyaf difreintiedig Cymru. Pedair darpariaeth allweddol y rhaglen yw:

- Gofal rhan-amser o ansawdd i blant dwy i dair oed, yn rhad ac am ddim
    - Mae Dechrau'n Deg yn darparu gofal plant o ansawdd, a gynigir i rieni pob plentyn dwy i dair oed cymwys am ddwy awr a hanner y dydd, bum niwrnod yr wythnos am 39 wythnos y flwyddyn. Yn ogystal, dylai fod o leiaf 15 sesiwn o ofal plant ar gael i'r teulu yn ystod gwyliau'r ysgol.
    - Dylai hyn fod yn gysylltiedig â mynediad i ysgolion i sicrhau pontio di-dor rhwng y ddau gynnig heb fylchau yn y ddarpariaeth.
- Gwasanaeth ymweliadau iechyd gwell
    - Mae'r gofyniad am un Ymwelydd Iechyd cyfwerth ag amser llawn fesul 110 o blant hyd at bedair oed yn yr ardaloedd targed yn allweddol ar gyfer cyflwyno'r rhaglen, er mwyn sicrhau bod cymorth dwys yn cael ei gyflwyno i blant Dechrau'n Deg a'u teuluoedd.
    - Prif swyddogaeth Ymwelydd Iechyd Dechrau'n Deg yw cefnogi'r teulu yn y cartref, gan asesu'r plentyn a'r teulu (o safbwynt y risg i iechyd a datblygiad y plentyn). Dylai Ymwelwyr Iechyd Dechrau'n Deg asesu teuluoedd risg canolig a risg uchel yn barhaus, a chyfeirio'n briodol.
- Cymorth rhianta
    - Rhaid cynnig cymorth rhianta o leiaf unwaith y flwyddyn i bob teulu â phlentyn sy'n gymwys ar gyfer Dechrau'n Deg a rhaid rhoi gwybod iddynt am y gwahanol wasanaethau sydd ar gael yn lleol i gefnogi eu rôl fel rhiant[3]. Dylid darparu amrywiaeth o opsiynau i rieni, yn dibynnu ar eu hanghenion unigol sydd wedi'u hasesu a'u hamgylchiadau. Gall y rhain fod mewn grwpiau neu yn unigol yn y cartref, gyda chyfuniad o gymorth anffurfiol neu raglen rianta ffurfiol sy'n seiliedig ar dystiolaeth.
    - Dylid seilio'r cynnig rhianta ar ddarparu cymorth amenedigol a chymorth yn ystod y blynyddoedd cynnar, hyd at bedair oed. Dylai'r pedair thema drawstoriadol ganlynol fod yn sylfaen i hwn:
        - Cymorth â pherthnasoedd
        - Ymyrraeth gynnar i gefnogi teuluoedd agored i niwed
        - Rhianta cadarnhaol

[3] Mae'r cymorth hwn yn cynnwys y canlynol: Rhaglenni rhianta strwythuredig, seiliedig ar dystiolaeth, mewn grwpiau; cymorth unigol; cymorth rhianta anffurfiol wedi'i strwythuro, mewn grwpiau; galw heibio am gymorth anffurfiol

        - Damcaniaethau ynghylch datblygiad plant, sy'n seiliedig ar dystiolaeth
- Cymorth iaith, lleferydd a chyfathrebu
    - Dylai pob teulu mewn ardal Dechrau'n Deg allu cael mynediad at grŵp chwarae ac iaith priodol, yn barhaus. Oddi yma, os bydd tystiolaeth o angen ychwanegol, gellir defnyddio dull mwy targedig yn seiliedig ar asesu a chyfeirio. Mewn rhai awdurdodau lleol, caiff therapyddion iaith a lleferydd eu cyflogi fel rhan o dîm craidd Dechrau'n Deg.
    - Mae negeseuon allweddol seiliedig ar dystiolaeth i gefnogi iaith, lleferydd a chyfathrebu plant wedi'u datblygu; dylai timau Dechrau'n Deg rannu'r rhain gyda phob rhiant a dylid eu gwreiddio yn holl ddarpariaethau'r rhaglen.

2.2. Lansiwyd rhaglen Dechrau'n Deg yn 2006/07 ac mae ei chwmpas wedi ehangu gydag amser. Yn 2012/13, cafodd tua 23,500 o blant gymorth gan Dechrau'n Deg. Yn rhan o ehangu'r rhaglen yn 2012 oedd ymrwymiad gan Lywodraeth Cymru i gynyddu nifer y plant sy'n derbyn Dechrau'n Deg i 36,000 erbyn 2016[4]. Yn 2012, dechreuwyd ymestyn y rhaglen i ardaloedd ychwanegol, gan barhau â hyn tan 2015. Mae'r ystadegau diweddaraf (2015/16) yn awgrymu bod ychydig dros 38,000 o blant[5] yn derbyn Dechrau'n Deg erbyn hyn, sy'n rhagori ar y targed.

2.3. Yn ogystal â'r pedair elfen graidd, mae awdurdodau lleol hefyd yn gallu bod yn hyblyg i raddau o fewn rhaglen Dechrau'n Deg, trwy gynnig cefnogaeth trwy allgymorth. Mae allgymorth yn galluogi nifer bach o deuluoedd sy'n byw'r tu allan i ardaloedd Dechrau'n Deg gael at y cymorth y mae arnynt ei angen. Trwy ddefnyddio gwybodaeth leol ac asesiad o flaenoriaeth, gall awdurdodau lleol anelu at sicrhau bod y bobl â'r angen mwyaf yn derbyn y gwasanaeth hwn.

[4] http://www.assemblywales.org/RN14-005.pdf
[5] http://gov.wales/docs/statistics/2016/160713-flying-start-summary-statistics-2015-16-en.pdf

2.4. Mae'r gwerthusiad o Dechrau'n Deg yn mynd yn ei flaen yn barhaus, ar sail dulliau cymysg, gan gynnwys arolwg ar raddfa fawr, astudiaethau achos hydredol gyda theuluoedd Dechrau'n Deg ac ymchwil ansoddol manwl gyda theuluoedd 'mewn angen uchel'[6]. Mae'r gwerthusiad o raglen Dechrau'n Deg wedi llunio Sylfaen 'Prosiect Arddangos Cysylltu Data' hefyd. Cafodd Dechrau'n Deg ei defnyddio gan yr astudiaeth fel enghraifft o'r problemau a'r buddion posibl sydd ynghlwm wrth ddefnyddio data gweinyddol at ddibenion ymchwil. Trwy ganolbwyntio'n bennaf ar fesurau iechyd, dangosodd y prosiect fod cyflwyno Dechrau'n Deg yn gysylltiedig â gwelliannau mewn amrywiaeth o ddeilliannau i'r rheiny sy'n gymwys ar gyfer darpariaethau Dechrau'n Deg, fel pwysau geni, derbyniadau i'r ysbyty a chyrhaeddiad addysgol yn 7 oed[7].

2.5. Hyd yn hyn, mae gwerthuso rhaglen Dechrau'n Deg wedi cynnwys arolygon gyda theuluoedd mewn ardaloedd Dechrau'n Deg ac yn yr ardaloedd mwyaf tebyg o ran anfantais, ond nad oeddent yn ardaloedd Dechrau'n Deg. Nod hyn oedd pennu effaith y rhaglen, gan ddefnyddio teuluoedd yn yr ardaloedd tebyg fel grŵp cymharu. Y problemau gyda dull o'r fath yw'r ffaith bod Dechrau'n Deg wedi'i chyflwyno'n wreiddiol yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, sy'n golygu'n anochel y bydd cymariaethau â phlant y tu allan i ardaloedd Dechrau'n Deg yn arwain at gymariaethau â phlant mewn ardaloedd sy'n gymharol lai difreintiedig. Mae'r map isod yn dangos yr ardaloedd a oedd yn derbyn darpariaethau Dechrau'n Deg o 2015 ymlaen. Gwelir bod mwyafrif ardaloedd Dechrau'n Deg wedi'u lleoli yng nghymoedd y de, gan adlewyrchu natur gymharol ddifreintiedig y cymunedau hyn.

[6] Gweler http://gov.wales/statistics-and-research/national-evaluation-flying-start/?lang=cy i gael trosolwg o werthusiadau Dechrau'n Deg.
[7] http://gov.wales/statistics-and-research/data-linking-demonstration-projects/?lang=cy


2.6. Yn ddiweddar, cynhaliwyd asesiad o werthusadwyedd rhaglen Dechrau'n Deg[8], a amlygodd yr heriau wrth werthuso Dechrau'n Deg. Fe wnaeth yr adroddiad hwn grynhoi'r gwerthusiadau o Dechrau'n Deg hyd yn hyn ac mae'n amlinellu rhai opsiynau ar gyfer gwerthusiadau yn y dyfodol. Un o'r argymhellion oedd defnyddio ffynonellau data presennol yn well a defnyddio dulliau ystadegol i geisio archwilio unrhyw effaith bosibl y rhaglen. Hefyd, amlinellodd nifer o faterion a heriau wrth werthuso Dechrau'n Deg, sy'n cael eu disgrifio isod.

**Nod yr adroddiad**

2.7. Mae dau brif nod i'r gwerthusiad hwn: a) datblygu dull dadansoddol o werthuso Dechrau'n Deg gan ddefnyddio setiau data presennol a b) ceisio pennu a yw byw mewn ardal Dechrau'n Deg yn gysylltiedig â deilliannau addysgol.

2.8. Mae'r dadansoddiad yn yr adroddiad hwn yn seiliedig ar ddata o Gronfa Ddata Genedlaethol y Disgyblion. Mae Cronfa Ddata Genedlaethol y Disgyblion yn cynnwys data gweinyddol ar gyfer pob plentyn ysgol yng Nghymru. Mae'n cynnwys rhywfaint o wybodaeth allweddol yn ymwneud â nodweddion plant ysgol a manylion am eu cynnydd addysgol, sef asesiadau athrawon a data presenoldeb yn bennaf. Felly, mae ffocws y dadansoddiad ar archwiliad o bresenoldeb a deilliannau addysgol cymharol plant sydd wedi'u lleoli mewn ardaloedd Dechrau'n Deg.

[8] http://gov.wales/docs/caecd/research/2016/161102-evaluability-assessment-flying-start-cy.pdf




© Crown Copyright and database right 2016. Ordnance Survey 100021874.
© Hawlfraint a hawliau cronfa ddata'r Goron 2016. Rhif Trwydded yr Arolwg Ordnans 100021874.

068.16-17

**Dechrau’n Deg a Deilliannau Addysgol**


2.9. Nod datganedig Dechrau’n Deg yw ‘*gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau plant yn y cymunedau mwyaf difreintiedig*[9]*.* Mae sawl ffurf i’r gwahaniaeth hwn, gan gynnwys effeithiau ar lefel rhieni, y teulu cyfan ac ar lefel gwasanaeth, gyda’r nod o gael effaith gadarnhaol sy’n parhau. Mae’r gwerthusiad cenedlaethol o Dechrau’n Deg[10] wedi awgrymu bod derbyn darpariaethau Dechrau’n Deg yn gysylltiedig â rhai deilliannau cadarnhaol i rieni a phlant. Roedd y rhain yn cynnwys cynnydd mewn cyfraddau imiwneiddio, datblygiad gwybyddol plant ac iechyd meddwl rhieni. Fodd bynnag, methodd y canlyniadau hyn â chyrraedd arwyddocâd ystadegol, gan olygu na ellir dweud bod y deilliannau hyn oherwydd y rhaglen. Er gwaethaf hyn, roedd y rhieni a gafodd eu cyfweld yn teimlo’n gadarnhaol iawn am y darpariaethau a gawsant a dywedont eu bod yn teimlo’n llai unig a bod yr ardaloedd lleol wedi gwella o ganlyniad i Dechrau’n Deg. Roedd cyfyngiadau i’r dull a ddefnyddiwyd yn y gwerthusiad hwn [11] ac argymhellwyd ymgymryd â gwerthusiad tymor hwy o ddeilliannau addysgol.

2.10. Mae cyfoeth o dystiolaeth sy’n awgrymu bod amddifadedd yn gysylltiedig â deilliannau addysgol. Adroddodd Estyn fod cysylltiadau cryf rhwng tlodi a deilliannau addysgol [12]. Gall ffactorau economaidd gymdeithasol, fel incwm ac addysg rhieni gael effeithiau negyddol arwyddocaol ar ddatblygiad iaith/llythrennedd plant a’u hymddygiadau cymdeithasol-economaidd yn ystod y blynyddoedd cynnar[13].

[9] http://gov.wales/statistics-and-research/national-evaluation-flying-start/?lang=cy
[10] http://gov.wales/docs/caecd/research/2014/140131-flying-start-synthesis-report-cy.pdf
[11] Roedd y rhain yn cynnwys diffyg data am sefyllfaoedd teuluoedd a oedd yn byw mewn ardaloedd Dechrau’n Deg cyn cyflwyno’r ymyrraeth a bod ardaloedd Dechrau’n Deg yn wahanol yn systematig i ardaloedd hebddo, felly mae nodi grŵp cymharu addas yn amhosibl.
[12] https://www.estyn.gov.wales/sites/default/files/documents/Difreintedd%20disgyblion%20-%20Mai%202014.pdf
[13] http://education.praguesummerschools.org/files/education/hatras_1.pdf

2.11. Mae incwm rhieni wedi'i gysylltu â datblygiad gwybyddol plant[14], ac mae tystiolaeth yn awgrymu mai'r ffactorau teuluol pwysicaf sy'n gysylltiedig â chyrhaeddiad plant yw addysg ac incwm rhieni. Fodd bynnag, gall agweddau a lles rhieni chwarae rhan fawr yn pennu deilliannau plant. Gellir lliniaru effaith negyddol incwm isel yn rhannol trwy sgiliau rhianta cadarnhaol, fel cynhesrwydd, disgyblaeth briodol ac ymddygiadau addysgol gartref [15]. Mae Ffigur 2.1 yn dangos llwybr damcaniaethol i deuluoedd allu effeithio ar ddeilliannau datblygiadol plant. Bwriedir i Dechrau'n Deg ddylanwadu ar y ddwy ran yn y canol, trwy wella gwybyddiaeth am fagu plant (h.y. agweddau a chredoau), gan roi cymorth ar gyfer lles rhieni ac adnoddau i helpu gwella amgylchedd dysgu'r cartref. Awgrymodd y gwerthusiad o effaith Dechrau'n Deg [16] bod modd gwella ymddygiadau rhianta o ganlyniad i ddarpariaethau Dechrau'n Deg, a allai arwain at ryngweithiadau mwy cadarnhaol rhwng rhieni a phlant. Yna, mewn egwyddor, gallai'r rhyngweithiadau cadarnhaol hyn arwain at enillion cadarnhaol yn natblygiad gwybyddol plant a'u presenoldeb yn yr ysgol, y dylid yna'u gweld mewn gwell deilliannau addysgol.

**Ffigur 2.1. Model damcaniaethaol yn disgrifio sut caiff llwyddiant addysgol ei drosglwyddo rhwng y cenedlaethau (L Feinstein, K Duckworth & R Sabates, 2004)**




14 http://www.cls.ioe.ac.uk/wp20122
15 http://eprints.ioe.ac.uk/5977/1/Feinstein2004amodel.pdf
16 http://gov.wales/docs/caecd/research/131205-national-evaluation-flying-start-impact-report-en.pdf

2.12. Mae Llywodraeth Cymru wedi llunio strategaeth ar gyfer defnyddio amrywiol raglenni a pholisïau'r llywodraeth i ddylanwadu ar ddatblygiad y blynyddoedd cynnar: Adeiladu Dyfodol Mwy Disglair: Cynllun Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant[17]. Dywed y cynllun hwn fod nifer o ffactorau hanfodol sy'n hybu deilliannau cadarnhaol i blant ac sy'n gallu helpu i oresgyn anfantais. Mae'r ffactorau hyn yn ymdrin â'r meysydd canlynol:

- iechyd a lles plant
- amgylchedd dysgu cryf a chadarnhaol gartref sy'n hwyluso ac sy'n ategu dysgu
- mynychu gofal plant o ansawdd uchel
- y cydberthnasau rhwng ysgolion, darparwyr, gwasanaethau cymorth a rhieni

2.13. Mae llawer o ddarpariaethau Dechrau'n Deg yn cynnwys y ffactorau hyn, sy'n awgrymu bod Dechrau'n Deg yn gallu gwneud gwahaniaeth i fywydau plant mewn ardaloedd difreintiedig. O gofio'r cyswllt cryf rhwng amddifadedd a deilliannau addysgol plant, gellid rhagdybio y gall camau sy'n helpu i oresgyn effeithiau amddifadedd ddod i'r golwg ar ffurf gwelliannau mewn deilliannau addysgol. Fodd bynnag, mae'n bosibl bod y cyswllt rhwng amddifadedd a deilliannau addysgol plant yn anuniongyrchol yn unig a bod y deilliannau'n gwella o ganlyniad i rianta mwy cadarnhaol a gwell presenoldeb yn yr ysgol.

2.14. Caiff gwella deilliannau addysgol oblygiadau pwysig i ddatblygiad yn y dyfodol a gall gael effaith yn ystod oedolaeth. Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn awgrymu mai deilliannau addysgol yw un o'r rhagfynegyddion gorau o fod mewn tlodi ac amddifadedd materol fel oedolyn[18]. Mae hyn yn bwysig ar gyfer materion fel trosglwyddo tlodi rhwng y cenedlaethau, gan fod plant sy'n cael eu magu ar aelwydydd sydd mewn tlodi yn fwy tebygol o fod mewn tlodi fel oedolion[19]. Mae tystiolaeth yn awgrymu fod deilliannau caled, fel cyrhaeddiad addysgol, a deilliannau meddalach, fel amgylchedd dysgu'r cartref a phroblemau ymddygiadol cynnar, yn gallu bod yn rhagfynegyddion pwysig llwyddiant diweddarach mewn addysg[20].

[17] http://gov.wales/docs/dcells/publications/130716-building-brighter-future-cy.pdf
[18] http://webarchive.nationalarchives.gov.uk/20160105160709/http://www.ons.gov.uk/ons/dcp171766_378097.pdf
[19] Ibid
[20] https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/373286/RR352_-_Influences_on_Students_GCSE_Attainment_and_Progress_at_Age_16.pdf

2.15. Fodd bynnag, mae tystiolaeth yn awgrymu mai cymharol fach yw effeithiau'r rhan fwyaf o ymyriadau sydd wedi'u hanelu at wella deilliannau addysgol, gyda'r ymyriadau mwyaf effeithiol yn debygol o arwain at welliant o un lefel neu radd[21] yn unig ym mhob pwnc fesul disgybl. Felly, er bod y dystiolaeth yn awgrymu bod Dechrau'n Deg yn gallu cael effaith ar gyrhaeddiad addysgol plant, mae'n debygol mai bach fydd yr effaith hon.

### Dull Dadansoddol

2.16. Y dull ar gyfer y gwerthusiad oedd defnyddio data lefel disgybl, heb fanylion adnabod, o Gronfa Ddata Genedlaethol y Disgyblion ar gyfer y cyfnod o 2004/05 i 2014/15. Amlygwyd plant yn y set ddata hon a oedd yn byw mewn ardal Dechrau'n Deg ar sail y cod post a gofnodwyd ar eu cyfer yn y Gronfa Ddata.

## Y Data

2.17. Mae'r Gronfa Ddata yn cynnwys amrywiaeth o eitemau am nodweddion unigol plant sy'n gallu helpu pennu'r amgylchiadau sydd ganddynt a allai gael effaith ar eu haddysg. Y prif nodweddion a ddefnyddir yn y gwerthusiad hwn yw rhywedd, ethnigrwydd (gwyn Prydeinig neu Arall), cymhwysedd ar gyfer prydau ysgol am ddim (PYDd) ac anghenion addysgol arbennig (AAA)[22].

2.18. Mae cymhwysedd ar gyfer PYDd yn ddangosydd amddifadedd defnyddiol oherwydd os yw rhieni plant yn derbyn y taliadau cymorth canlynol, mae'r plant yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim mewn ysgolion a gynhelir yng Nghymru:

- Cymhorthdal Incwm.
- Lwfans Ceisio Gwaith yn Seiliedig ar Incwm o dan Ran VI Deddf Mewnfudo a Lloches 1999.
- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn Seiliedig ar Incwm.
- Credyd Treth Plant, ar yr amod nad oes hawl ganddynt gael Credyd Treth Gwaith ac nad yw eu hincwm blynyddol dros £16,190.
- Elfen Warantedig Credyd Pensiwn y Wladwriaeth.
- 'Ychwanegiad' Credyd Treth Gwaith – y taliad gallai unigolyn ei gael am bedair wythnos arall ar ôl rhoi'r gorau i fod yn gymwys ar gyfer y Credyd Treth Gwaith.
- Credyd Cynhwysol.

[21] http://www.leeds.ac.uk/educol/documents/00002182.htm
[22] I gael gwybodaeth allweddol o ansawdd am y data, gweler: http://gov.wales/docs/statistics/2015/150331-academic-achievement-pupil-characteristics-2014.pdf

- Mae plant sy'n cael lwfans cyflogaeth a chymorth yn seiliedig ar incwm, y Credyd Cynhwysol, Cymhorthdal Incwm neu Lwfans Ceisio Gwaith yn Seiliedig ar Incwm iddynt eu hunain yn gymwys hefyd i gael Prydau Ysgol am Ddim.

2.19. Dylid cofnodi bod disgyblion yn gymwys yn unig os ydynt wedi gwneud cais am brydau ysgol am ddim i'r awdurdod lleol ac (1) mae'r awdurdod perthnasol wedi cadarnhau eu bod yn gymwys, neu (2) maent yn aros am gadarnhad terfynol o gymhwysedd ond mae'r ysgol wedi gweld dogfennau sy'n awgrymu hynny'n gryf. Mae hyn yn creu problemau â defnyddio cymhwysedd ar gyfer PYDd fel mesur amddifadedd, oherwydd gallai rhieni ddewis peidio â gwneud cais am PYDd, efallai nad yw'r awdurdod perthnasol wedi cadarnhau bod y disgybl yn gymwys a/neu gallai'r teulu fod yn amddifad heb iddo fod yn derbyn y taliadau cymorth uchod. Er bod tystiolaeth yn awgrymu bod cysylltiad cryf rhwng cymhwysedd ar gyfer PYDd â deilliannau addysgol, nid yw'n ddirprwy dibynadwy ar gyfer sefyllfa economaidd y plant[23]. Fodd bynnag, yn absenoldeb mesurau mwy dibynadwy, defnyddiwyd cymhwysedd ar gyfer PYDd i helpu i gymharu plant ar sail amddifadedd yr aelwyd.

2.20. Mae AAA yn nodwedd ddefnyddiol arall ar gyfer y gwerthusiad hwn, oherwydd mae'n dangos a nodwyd bod anawsterau neu anghenion dysgu ychwanegol gan y plentyn. Mae sawl ffurf bosibl i'r anawsterau hyn, gan gynnwys anawsterau dysgu, problemau ymddygiadol a/neu emosiynol, namau ar y synhwyrau a diagnosis o anhwylderau datblygiadol. Mae disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn gallu bod yn un o'r categorïau canlynol:

- Gweithredu gan yr Ysgol: Pan fydd athro dosbarth neu bwnc yn nodi bod anghenion addysgol arbennig gan ddisgybl, bydd yn darparu ymyriadau sy'n ychwanegol at y rhai a ddarperir fel rhan o gwricwlwm arferol yr ysgol, neu'n wahanol iddynt.
- Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy: Pan fydd yr athro dosbarth neu bwnc a'r Cydlynydd AAA yn cael cyngor neu gymorth gan arbenigwyr allanol, fel bod ymyriadau eraill yn ychwanegol at, neu'n wahanol i, y rhai a ddarperir i'r disgybl fel rhan o 'Weithredu gan yr Ysgol' yn gallu cael eu rhoi ar waith.
- Datganiad: Disgyblion y mae'r awdurdod lleol yn cynnal datganiad o anghenion addysgol arbennig ar eu cyfer o dan Ran IV Deddf Addysg 1996. Gallai datganiad gael ei gyhoeddi gan yr awdurdod lleol ar ôl asesiad o anghenion plentyn.

[23] http://eprints.lse.ac.uk/19385/1/Is_Free_School_Meal_Status_a_Valid_Proxy_for_Socio-Economic_Status_(in_Schools_Research).pdf

2.21. Gweithredu gan yr Ysgol yw'r math mwyaf cyffredin o gategori AAA, gydag 19.9 y cant o blant mewn ysgolion a gynhelir yn destun Gweithredu gan yr Ysgol neu Weithredu gan yr Ysgol a Mwy, a 2.7 y cant ohonynt â Datganiad o Angen[24]. Ar gyfer y gwerthusiad hwn, daethpwyd â'r tri chategori hyn ynghyd er mwyn dangos a oes unrhyw fath o AAA gan y plentyn.

2.22. Yn ychwanegol at y nodweddion unigol sydd wedi'u cynnwys yn set ddata Cronfa Ddata Genedlaethol y Disgyblion, cafodd nifer o fesurau seiliedig ar ardal eu paru â'r data. Diben hyn yw archwilio a yw'r amgylchedd lle y mae plant yn byw yn cael effaith ar wahân ac ychwanegol ar ddeilliannau addysgol plant. Mae'r mesurau hyn yn cynnwys Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC) a chyfran y plant yr ystyrir eu bod mewn amddifadedd incwm.

2.23. MALIC[25] yw'r dull swyddogol o fesur amddifadedd cymharol ar gyfer ardaloedd bychain yng Nghymru. Bwriedir iddo amlygu'r ardaloedd bychain hynny sydd â'r crynoadau uchaf o amddifadedd. Caiff pob Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is (AGEHI)[26] yng Nghymru sgôr sy'n dangos lefel ei hamddifadedd o gymharu â phob AGEHI arall yng Nghymru ac yna rhoddir pob AGEHI mewn trefn.

2.24. Mae wyth maes amddifadedd ar wahân yn rhan o MALIC: incwm, cyflogaeth, iechyd, addysg, mynediad at wasanaethau, diogelwch cymunedol, amgylchedd ffisegol a thai. Mae gan bob AGEHI sgôr ar gyfer pob un o'r meysydd hyn, sydd yna'n cael eu cyfuno i lunio sgôr cyffredinol yr ardal. Cynhyrchir pob maes gan ddefnyddio data sydd eisoes ar gael, fel y lefel diweithdra neu droseddu.

2.25. Mae nifer y plant hyd at dair oed mewn aelwydydd ag amddifadedd incwm wedi'i gyfrifo gan Gyllid a Thollau EM a'r Adran Gwaith a Phensiynau. Mae'r dangosydd yn gyfrif o unigolion unigryw (h.y. gan ddileu dyblygu), wedi'i fynegi ar ffurf canran o boblogaeth gyfan yr AGEHI. Ystyrir bod plant yn byw mewn aelwyd ag amddifadedd incwm os bydd aelod o'r aelwyd honno'n derbyn Cymhorthdal Incwm, Lwfans Ceiswyr Gwaith, Credyd Pensiwn a/neu'r Lwfans Cyflogaeth a Chymorth.

---

[24] http://gov.wales/docs/statistics/2015/150723-school-census-results-2015-cy.pdf
[25] http://wimd.wales.gov.uk/?lang=cy
[26] Mae Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is yn ardaloedd daearyddol sy'n cynnwys rhwng 400 a 1,200 o aelwydydd. Gweler http://webarchive.nationalarchives.gov.uk/20160105160709/http://www.ons.gov.uk/ons/guide-method/geography/beginner-s-guide/census/super-output-areas--soas-/index.html

**Y Gwerthusiad**

2.26. Mae dau brif opsiwn sy’n cael eu darparu gan Gronfa Ddata Genedlaethol y Disgyblion ar gyfer dadansoddi deilliannau Dechrau’n Deg. Y cyntaf yw cymharu deilliannau plant sy’n byw ym mhob ardal cyn cyflwyno Dechrau’n Deg ac wedi hynny. Er bod hyn yn cynnig dadansoddiad weddol syml, prif gyfyngiad y dull hwn yw’r ffaith nad yw’n cymharu plant sy’n byw mewn ardaloedd Dechrau’n Deg â’r rhai nad ydynt yn byw mewn ardaloedd Dechrau’n Deg yn *yr un* flwyddyn academaidd. Mae hyn yn golygu y gallai fod rhesymau heblaw am Dechrau’n Deg dros y newid, er enghraifft, gallai unrhyw newidiadau yn neilliannau plant mewn ardaloedd Dechrau’n Deg gydag amser adlewyrchu newidiadau mewn deilliannau addysgol yn gyffredinol ar draws Cymru yn unig.

2.27. Yr ail ddull yw cymharu deilliannau i blant sy’n byw mewn ardaloedd Dechrau’n Deg â deilliannau i blant o’r *un* flwyddyn academaidd sy’n byw rhywle arall. Prif gyfyngiad y dull hwn yw’r ffaith bod yn rhaid i ni ddibynnu ar gymharu deilliannau plant o *wahanol* ardaloedd. Felly, gall unrhyw wahaniaethau sylfaenol yn yr ardaloedd, fel lefelau amddifadedd y plant, danseilio i ba raddau y gallwn gysylltu gwahaniaethau mewn deilliannau â Dechrau’n Deg. I helpu i oresgyn y materion hyn, mabwysiadwyd y ddau ddull.

2.28. Dechreuodd cam cyntaf y dadansoddiad trwy gysyniadu cyflwyno rhaglen Dechrau’n Deg a nodi’r carfannau hynny o ddisgyblion sydd, o bosibl, wedi elwa o ymyriadau Dechrau’n Deg. Cymharwyd nodweddion y plant hyn â phlant nad ydynt yn byw mewn ardaloedd Dechrau’n Deg (Pennod 3). Mae’n bwysig bod unrhyw wahaniaethau yn nodweddion disgyblion yn yr ysgolion hyn yn cael eu hystyried wedyn wrth archwilio data ar ddeilliannau.

2.29. Yn dilyn disgrifiad cychwynnol o nodweddion plant sy’n byw mewn ardaloedd Dechrau’n Deg, mae’r dadansoddiad yna’n mynd ymlaen i archwilio’r data deilliannau sydd ar gael yn gysylltiedig â gweithredu Dechrau’n Deg a’i heffaith bosibl. Ystyrir data deilliannau mewn tri phrif faes, sef **presenoldeb**, **cyrhaeddiad addysgol** ac **anghenion addysgol arbennig.**

2.30. Defnyddir data **presenoldeb** i archwilio newidiadau yng nghyfranogiad plant mewn addysg gynradd. Gall newidiadau mewn presenoldeb adlewyrchu newidiadau yn agweddau ac ymddygiadau rhieni tuag at addysg yn ystod blynyddoedd cynnar addysg eu plant. Gall newidiadau mewn presenoldeb adlewyrchu gwelliannau yn iechyd a lles plant a gefnogwyd gan Dechrau'n Deg hefyd. Fodd bynnag, gall y lefelau presenoldeb a gofnodwyd fod o ganlyniad i newidiadau yn y ffordd y mae ysgolion yn cofnodi a chodio absenoldeb hefyd. Felly, defnyddir data Cronfa Ddata Genedlaethol y Disgyblion i archwilio pa gysylltiad sydd rhwng byw mewn ardal Dechrau'n Deg a phresenoldeb mewn ysgolion (os o gwbl) (**Pennod 4**).

2.31. Yn yr un modd, caiff **cyrhaeddiad addysgol** plant saith oed yn seiliedig ar ddata asesiadau athrawon ei ddadansoddi (**Pennod 5**). Caiff newidiadau mewn deilliannau addysgol eu harchwilio cyn cyflwyno Dechrau'n Deg ac ar ôl hynny er mwyn asesu unrhyw effaith bosibl gafodd y rhaglen ar gyrhaeddiad mewn ardaloedd Dechrau'n Deg.

2.32. Hefyd, mae archwiliad o lefelau anghenion addysgol arbennig (**AAA**), a sut mae hyn yn gysylltiedig â byw mewn ardal Dechrau'n Deg (**Pennod 6**). Er bod AAA yn cael ei ddefnyddio fel ffordd o esbonio gwahaniaethau unigol mewn presenoldeb a chyrhaeddiad, gall darpariaethau Dechrau'n Deg ddylanwadu hefyd ar ba mor debygol yw plentyn o gael ei ystyried ag AAA. Caiff plant sy'n byw mewn ardaloedd Dechrau'n Deg fynediad at well gwasanaeth ymweliadau iechyd, sy'n cynnwys asesiadau datblygiadol. O ganlyniad i hyn, mae'n bosibl y bydd oedi datblygiadol, sy'n gallu arwain at AAA, yn cael ei adnabod yn gynt. Yn ogystal â hyn, mae'r gofal plant rhad ac am ddim yn cynyddu'r cyfle i asesu anghenion dysgu a throsglwyddo hynny i ysgolion pan fydd y plentyn yn dair oed. Felly, bydd yr archwiliad hwn yn archwilio a yw byw mewn ardal Dechrau'n Deg yn cynyddu'r tebygolrwydd o nodi bod AAA gan blentyn.

2.33. Er mwyn ceisio dod i rai casgliadau dibynadwy am effaith byw mewn ardal Dechrau'n Deg, byddwn yn manteisio ar y dull treigl a ddefnyddiwyd o gyflwyno'r rhaglen. Cyflwynwyd y rhaglen yn gyntaf yn 2006/07 ac yna cafodd ei hehangu o 2012 ymlaen. Mae'r dull cyflwyno treigl hwn yn caniatáu am amlygu nifer o grwpiau ar wahân:

a) Y rhai nad ydynt yn gymwys ar gyfer Dechrau'n Deg
b) Y plant hynny a oedd yn byw mewn ardaloedd Dechrau'n Deg cyn ehangu'r rhaglen, ond nad oeddent yn gymwys ar gyfer unrhyw ymyrraeth oherwydd amseriad ei lansio ac oedran y plant. Byddai hyn yn cynnwys unrhyw blant a oedd yn bedair oed neu'n hŷn yn 2007 ac sy'n byw mewn ardaloedd Dechrau'n Deg cyn ei hehangu.
c) Y plant hynny a oedd yn byw mewn ardaloedd Dechrau'n Deg cyn ehangu'r rhaglen ac a allai fod wedi derbyn yr ymyrraeth. Byddai hyn yn cynnwys unrhyw blant o dan bedair oed yn 2007 ac sy'n byw mewn ardaloedd Dechrau'n Deg cyn ei hehangu.
d) Y plant hynny a oedd yn byw mewn ardaloedd Dechrau'n Deg ar ôl ehangu'r rhaglen, ond nad oeddent yn gymwys ar gyfer unrhyw ymyrraeth oherwydd amseriad ei lansio ac oedran y plant. Byddai hyn yn cynnwys unrhyw blant a oedd yn bedair oed neu'n hŷn yn 2012 ac sy'n byw mewn ardaloedd Dechrau'n Deg ar ôl ei hehangu.
e) Y plant hynny a oedd yn byw mewn ardaloedd Dechrau'n Deg ar ôl ehangu'r rhaglen ac a allai fod wedi derbyn yr ymyrraeth. Byddai hyn yn cynnwys unrhyw blant o dan bedair oed yn 2012 ac sy'n byw mewn ardaloedd Dechrau'n Deg ar ôl ei hehangu.

Ar bob adeg mewn amser, ni waeth beth yw eu potensial i fod yn gymwys, ystyrir nad yw grŵp a) yn gymwys ar gyfer Dechrau'n Deg, ystyrir bod grwpiau b) ac c) yn grwpiau Dechrau'n Deg cyn ei hehangu ac mae grwpiau d) ac e) yn ardaloedd ar ôl ei hehangu.

2.34. Ystyrir bod potensial i'r plant yn y gwerthusiad hwn fod yn gymwys ar gyfer darpariaethau Dechrau'n Deg os yw eu hoedran a'u cod post yn golygu y gallent o bosibl fod wedi derbyn dwy flynedd neu ragor o ddarpariaethau Dechrau'n Deg. Penderfynwyd ar y torbwynt hwn oherwydd bod yr elfen gofal plant yn narpariaeth Dechrau Deg ar gael i blant dwy i dair oed yn unig. Hefyd, mae'n orfodol i ymwelwyr iechyd gynnal asesiadau datblygiadol gyda phlant mewn ardaloedd Dechrau'n Deg pan fyddant yn ddwy a thair oed. Yn ogystal â hyn, mae tystiolaeth yn awgrymu bod derbyn gofal plant o ansawdd uchel o ddwy oed[27] ymlaen yn cael effeithiau cadarnhaol arwyddocaol ar ddatblygiad gwybyddol.

[27] http://eprints.ioe.ac.uk/5309/1/sylva2004EPPEfinal.pdf

**Materion a heriau**

2.35. O’r cychwyn cyntaf, mae’n bwysig cydnabod cyfyngiadau’r dadansoddiadau ystadegol a gyflwynir yn yr adroddiad hwn. Mae’r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar ddefnyddio data ysgolion er mwyn manteisio’n llawn ar ddata a gedwir eisoes. Fodd bynnag, mae’n bwysig pwysleisio mai nod Dechrau’n Deg yw arwain at newidiadau mewn amrywiaeth eang o ddeilliannau y tu hwnt i ddeiliannau addysgol ‘sylfaenol’ wedi’u diffinio’n gul, fel cyflawni’r lefel ddisgwyliedig yn saith oed. Hefyd, trwy ddefnyddio data presennol, mae’n debygol bod llawer o ffactorau a fyddai’n dylanwadu ar y deilliannau nad ydynt wedi’u cynnwys yn y data hwn, fel yr amgylchedd dysgu yn y cartref.

2.36. Yn ail, er bod plentyn o oedran ysgol yn byw mewn ardal Dechrau’n Deg, mae’n amhosibl gwybod a oedd y plentyn yn byw mewn ardal Dechrau’n Deg yn barhaus neu o gwbl hyd at bedair oed. Ar hynny, hyd yn oed os oedd plentyn yn byw mewn ardal Dechrau’n Deg cyn ysgol, ni allwn bennu faint o ymwneud yr oedd ganddo â’r rhaglen, os o gwbl. At hyn, mae nodau pob un o’r darpariaethau yn wahanol, felly mae’n debygol y byddai deilliannau plant a oedd yn ymwneud ag un gwasanaeth ond nid eraill yn wahanol i ddeilliannau plant sy’n ymwneud â gwasanaethau eraill. Byddai hyn yn gwanhau ac yn lleihau’r effaith a welwyd gan raglen Dechrau’n Deg.

2.37. Yn gysylltiedig, mae’r dadansoddiad yn ymwneud â chyfnod pan oedd rhaglen Dechrau’n Deg yn parhau i ‘fwrw gwreiddiau’; mae’n annhebygol bod y carfannau cynharaf o blant a gafodd gefnogaeth rhaglen Dechrau’n Deg wedi cael yr un lefel o gymorth â charfannau diweddarach. Mae hyn oherwydd bod yr arweiniad yn cael ei lunio’n derfynol a chyfnod o recriwtio a hyfforddi’r staff i gyflwyno darpariaethau Dechrau’n Deg.

2.38. Cyfyngiad arall i'r gwerthusiad hwn yw bod plant sy'n byw mewn ardaloedd difreintiedig yn fwy tebygol o fynychu ysgolion o ansawdd gwaeth. Mae amrywiaeth o ffactorau sy'n cyfrannu at anawsterau ysgolion mewn ardaloedd amddifad, gan gynnwys anghenion ychwanegol gan ddysgwyr, diffyg adnoddau ar gyfer gweithgareddau allgyrsiol gartref, ymddygiad aflonyddgar neu heriol yn fwy cyffredin a chyfranogiad llai parod, a ddisgrifir fel methu â chwblhau gwaith cartref a dod â llyfrau neu ddeunyddiau angenrheidiol i'r ysgol[28]. Gall hyn arwain at amgylcheddau dysgu mwy annarogan a llai effeithiol i blant ac athrawon. Er mai 14 y cant yn unig o amrywiaeth mewn deilliannau addysgol sy'n gysylltiedig ag ansawdd ysgol[29], gall effeithiau cyfunol amddifadedd ac ansawdd ysgol ostwng effeithiau cadarnhaol Dechrau'n Deg; mae mynd i'r afael â'r holl heriau hyn y tu hwnt i gwmpas Dechrau'n Deg.

2.39. Yn gysylltiedig â hyn, targedwyd ysgolion â chyfrannau uchel o blant sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim i dderbyn y Grant Amddifadedd Disgyblion (GAD)[30]. Er y bu grantiau blaenorol i ysgolion mewn ardaloedd amddifad, cyflwynwyd y GAD am y tro cyntaf yn 2012[31], sef yr un cyfnod ag ehangu Dechrau'n Deg. Nod y grant hwn yw gwella cyrhaeddiad addysgol plant difreintiedig ac mae adroddiad gwerthuso interim 2015 yn awgrymu ei fod yn cael effaith gadarnhaol ar bresenoldeb a chyrhaeddiad[32]. Felly, gall unrhyw welliannau mewn ardaloedd Dechrau'n Deg (neu mewn unrhyw ysgolion â lefelau uchel o ddisgyblion sy'n gymwys ar gyfer PYDd) berthyn yn rhannol o leiaf i dderbyn y grant hwn.

[28] http://eprints.lse.ac.uk/6321/1/Schools_in_Disadvantaged_Areas_Recognising_context_and_raising_quality.pdf
[29] https://www.jrf.org.uk/sites/default/files/jrf/migrated/files/2123.pdf
[30] Gweler http://gov.wales/topics/educationandskills/schoolshome/deprivation/pdg-and-early-years-pdg/?lang=cy
[31] Fodd bynnag, mae'r swm a roddir i ysgolion ar gyfer pob plentyn sy'n gymwys ar gyfer PYDd wedi cynyddu gydag amser.
[32] http://gov.wales/docs/caecd/research/2015/151203-evaluation-pupil-deprivation-grant-year-2-en.pdf

2.40. Yn olaf, nid yw'n hysbys pa mor aml y mae teuluoedd yn symud i ardaloedd Dechrau'n Deg, ohonynt na rhyngddynt. Mae hyn yn golygu y gall plant fod wedi bod yn gymwys ar gyfer rhan o ddarpariaeth Dechrau'n Deg yn unig[33]. Hefyd, mae elfen allgymorth y rhaglen yn caniatáu ar gyfer rhai plant nad ydynt mewn ardaloedd Dechrau'n Deg, sydd wedi cael darpariaethau Dechrau'n Deg. Ynghyd, mae hyn yn golygu y gall y grwpiau Dechrau'n Deg a'r grwpiau eraill a amlygir yn yr adroddiad hwn fod wedi cael lefelau amrywiol o ddarpariaeth, ac mae'n bosibl bod plant nad ydynt mewn ardaloedd Dechrau'n Deg mewn gwirionedd wedi cael mwy o gymorth gan y rhaglen na rhai mewn ardaloedd Dechrau'n Deg.

2.41. Yn ogystal â'r cyfyngiadau hyn, mae nifer o heriau gwerthuso o ganlyniad i'r modd y mae Dechrau'n Deg yn gweithredu, gan gynnwys:

- Mae Dechrau'n Deg yn darparu gwasanaethau i blant yn rhad ac am ddim, ond gellid prynu rhai o'r darpariaethau hyn. Er enghraifft, mae rhai lleoliadau sy'n cynnig gofal plant Dechrau'n Deg hefyd ar gael am dâl i deuluoedd nad ydynt yn gymwys ar gyfer Dechrau'n Deg. Yn ogystal â hyn, gall teuluoedd dalu am ofal plant y tu allan i ardaloedd Dechrau'n Deg sy'n cael ei ddarparu ar ffurf sy'n debyg i'r hyn a ddarperir am ddim gan Dechrau'n Deg. Yn ogystal, mae llawer o ddarpariaethau Dechrau'n Deg yn ychwanegiadau at wasanaethau cyffredinol sydd ar gael i bob plentyn, fel gwell darpariaeth ymwelwyr iechyd. Fodd bynnag, gallai mwy o bobl fanteisio ar y gwasanaethau presennol hyn mewn ardaloedd Dechrau'n Deg o ganlyniad i'r ddarpariaeth well hon ac, felly, cau'r bwlch rhwng ardaloedd Dechrau'n Deg ac ardaloedd eraill.
- Mae'r rhaglen ei hun wedi newid ers ei chyflwyno, mewn ymateb i werthusiadau ac argymhellion. Er enghraifft, bu newid mawr i agwedd Iaith, Lleferydd a Chyfathrebu'r rhaglen yn 2013/14 mewn ymateb i ganfyddiadau'r gwerthusiad[34], a ddywedodd fod lefel isel o ddarpariaeth elfen Chwarae ac Iaith Dechrau'n Deg, a nifer isel yn ymgymryd â'r ddarpariaeth hon. Gallai hyn effeithio ar y gwerthusiad, gan nad yw effaith y rhaglen wedi bod yn gyson gydag amser, sy'n lleihau'r tebygolrwydd y gall unrhyw wahaniaethau a welir fod yn gysylltiedig â chymhwysedd ar gyfer Dechrau'n Deg.

[33] Ceisiwyd lliniaru'r mater hwn trwy ddileu manylion unrhyw blentyn y mae'n hysbys iddo symud i ardal Dechrau'n Deg, neu ohoni, tra'r oedd yn yr ysgol.
[34] http://gov.wales/docs/caecd/research/131205-national-evaluation-flying-start-impact-report-en.pdf

- Ymyrraeth seiliedig ar ardal yw Dechrau'n Deg ac er y gellir ei thargedu at ardaloedd bychain (AGEHI), mae'r ardaloedd hyn yn parhau i gynnwys cryn dipyn o amrywiaeth o ran sefyllfaoedd teuluoedd unigol. Mae'n debygol y bydd aelwydydd mewn ardaloedd Dechrau'n Deg yn gymharol lai difreintiedig ac efallai bod llai o angen arnynt am gymorth nag eraill. Mae'n debygol fod yr effaith fwyaf a ddaw o ymyriadau cynnar i'w gweld pan fyddant wedi'u targedu at y rhai â'r lefelau risg uchaf yn unig. Felly, mae unrhyw werthusiad sy'n bwrw golwg ar effaith pob plentyn cymwys yn debygol o ddangos lefel bach o effaith yn unig.

2.42. Cynhaliwyd Asesiad o Werthusadwyedd Dechrau'n Deg sy'n rhoi rhesymwaith y rhaglen ac sydd hefyd wedi rhoi disgrifiad manylach o'r heriau a wynebwyd wrth geisio gwerthuso'r rhaglen[35].


[35] http://gov.wales/statistics-and-research/evaluability-assessment-flying-start/?lang=cy

# 3. Ardaloedd Dechrau'n Deg

3.1. Lansiwyd Dechrau'n Deg yn 2006/07 ac fe'i hehangwyd o 2012 ymlaen, gyda 23,500 o blant yn cael cymorth gan Dechrau'n Deg wedi hynny. Yr ardaloedd hynny a gafodd y ddarpariaeth o 2006/07 ymlaen yw'r ardaloedd cyn ehangu a'r ardaloedd hynny a gafodd y ddarpariaeth o 2012/13 ymlaen yw'r ardaloedd ar ôl ehangu. Diffinnir yr ardaloedd hyn felly ar bob pwynt amser, h.y. ystyrir bod plant sy'n byw mewn ardaloedd ar ôl ehangu yn byw yn yr ardaloedd hyn cyn ac ar ôl ehangu.

3.2. Mae Ffigur 3.1 yn dangos bod nifer y plant rhwng pedair a saith oed yn yr ysgol a allai fod wedi cael unrhyw rai o ddarpariaethau Dechrau'n Deg yn amrywio fesul blwyddyn. Gan fod Dechrau'n Deg wedi'i gyflwyno yn 2007, nid oedd unrhyw blant yn yr ysgol yn ystod blwyddyn academaidd 2007/08 wedi derbyn ymyrraeth Dechrau'n Deg o gwbl. Y grŵp cyntaf o blant a allai fod wedi derbyn unrhyw ymyrraeth Dechrau'n Deg yw'r plant yn y dosbarth derbyn (h.y. yn bedair oed ar ddechrau'r flwyddyn academaidd), sy'n byw mewn ardal cyn ehangu Dechrau'n Deg, yn 2008/09[36].

**Ffigur 3.1. Cyfanswm nifer y plant wedi'i rannu yn ôl y posibilrwydd eu bod wedi derbyn unrhyw ddarpariaeth Dechrau'n Deg (2007-15)**




[36] Noder nad yw'r ffigurau hyn yn cyfateb i nifer y plant sy'n gymwys i gael darpariaethau Dechrau'n Deg mewn unrhyw flwyddyn, oherwydd dyma nifer y plant pedair i saith oed a allai fod wedi cael cymorth Dechrau'n Deg

3.3. Yn 2014/15, roedd 13.8 y cant o blant pedair i saith oed yn byw mewn ardaloedd cyn ehangu ac roedd 5.9 y cant yn byw mewn ardaloedd ar ôl ehangu. Yn 2010/11, gallai'r holl blant a oedd yn byw mewn ardaloedd Dechrau'n Deg cyn ei ehangu fod wedi cael rhywfaint o ymyrraeth, ond ni fyddai plant oed derbyn wedi gallu cael yr ymyrraeth lawn tan 2011/12 ac ni fyddai pob plentyn oed cynradd a oedd yn byw mewn ardaloedd Dechrau'n Deg cyn ei ehangu wedi gallu cael yr ymyrraeth lawn tan 2013/14. Gan na ddechreuodd yr ardaloedd ar ôl ehangu fod yn gymwys ar gyfer Dechrau'n Deg tan 2012/13, nid oedd hi'n bosibl i unrhyw blant a oedd yn byw mewn ardaloedd ar ôl ehangu fod yn gymwys am ddwy flynedd neu ragor o ddarpariaeth Dechrau'n Deg ar gyfer y dadansoddiad hwn.

3.4. Mae demograffeg y gwahanol ardaloedd yn amlygu rhai o'r gwahaniaethau allweddol rhwng ardaloedd Dechrau'n Deg ac ardaloedd nad ydynt yn ardaloedd Dechrau'n Deg. Mae Tabl 3.1 yn dangos sut mae gan ardaloedd Dechrau'n Deg gyfran uwch o blant sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim ac sydd ag anghenion addysgol arbennig. Mae tua 41 y cant o blant mewn ardaloedd cyn ehangu yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd), sef 25 pwynt canran yn uwch na'r canran mewn ardaloedd nad ydynt yn ardaloedd Dechrau'n Deg, ond 2 bwynt canran yn unig yn uwch nag yn yr ardaloedd ar ôl ehangu, gan awgrymu bod lefel yr amddifadedd yn dra thebyg rhwng yr ardaloedd cyn ac ar ôl ehangu. Yn ogystal, mae cyfran uwch o blant mewn ardaloedd Dechrau'n Deg yn blant sydd ag anghenion addysgol arbennig (AAA), gydag oddeutu 28 y cant mewn ardaloedd cyn ehangu ac 17 y cant yn unig ag AAA mewn ardaloedd nad ydynt yn ardaloedd Dechrau'n Deg. Mae'r ardaloedd ar ôl ehangu eto'n debyg iawn i'r ardaloedd cyn ehangu, gydag oddeutu 26 y cant ag AAA.

3.5. I adnabod ymhellach y gwahaniaethau rhwng ardaloedd, gellir archwilio'r mesurau amddifadedd ar lefel ardal. Hefyd, mae'n bosibl archwilio lefel amddifadedd gwahanol ardaloedd gan ddefnyddio'r data a gesglir trwy'r Cyfrifiad a'r Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) ynghylch cyfran y plant hyd at dair oed sy'n byw mewn aelwydydd sy'n derbyn budd-daliadau sy'n dibynnu ar brawf modd, ym mhob AGEHI. Casglodd Cyfrifiad 2011 ddata ar amrywiaeth o bynciau sy'n gallu cael eu defnyddio'n ddangosyddion amddifadedd, gan gynnwys afiechydon cyfyngus, lefelau cymhwyster, gorlenwi (h.y. pan nad oes digon o ystafelloedd gwely i'r meddiannwyr[37]) a gwres canolog.

[37] http://www.ons.gov.uk/ons/rel/census/2011-census-analysis/overcrowding-and-under-occupation-in-england-and-wales/rpt-overcrowding-and-under-occupation-in-england-and-wales.html#tab-background-notes

**Tabl 3.1. Cyfrannau'r merched, plant gwyn Prydeinig, plant sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a phlant ag AAA ar gyfer ardaloedd nad ydynt yn ardaloedd Dechrau'n Deg ac ardaloedd cyn ac ar ôl ehangu (2007-15)**

| | Ardaloedd nad ydynt yn ardaloedd Dechrau'n Deg | Ardaloedd cyn ehangu | Ardaloedd ar ôl ehangu |
|---|---|---|---|
| **% y Merched** | | | |
| Derbyn | 48.7% | 48.7% | 48.4% |
| Blwyddyn 1 | 48.7% | 48.5% | 48.4% |
| Blwyddyn 2 | 48.5% | 48.4% | 48.8% |
| Cyfanswm | 48.6% | 48.5% | 48.5% |
| **% Plant Gwyn Prydeinig** | | | |
| Derbyn | 88.7% | 85.2% | 88.4% |
| Blwyddyn 1 | 90.4% | 87.2% | 89.8% |
| Blwyddyn 2 | 91.1% | 87.9% | 90.5% |
| Cyfanswm | 90.0% | 86.7% | 89.5% |
| **% sy'n Gymwys ar gyfer Prydau Ysgol am Ddim** | | | |
| Derbyn | 15.6% | 40.1% | 38.2% |
| Blwyddyn 1 | 16.0% | 41.5% | 40.0% |
| Blwyddyn 2 | 15.8% | 41.4% | 39.2% |
| Cyfanswm | 15.8% | 41.0% | 39.1% |
| **% ag Anghenion Addysgol Arbennig** | | | |
| Derbyn | 10.4% | 19.4% | 16.6% |
| Blwyddyn 1 | 16.6% | 28.4% | 26.0% |
| Blwyddyn 2 | 23.2% | 36.1% | 35.1% |
| Cyfanswm | 16.7% | 27.8% | 25.7% |

3.6. Mae Tabl 3.2 yn dangos bod canran cyfartalog y plant sy’n byw mewn amddifadedd incwm yn uwch ar gyfer ardaloedd Dechrau’n Deg, gydag oddeutu 53 y cant o blant mewn ardaloedd cyn ehangu yn byw ar aelwydydd sy’n derbyn budd-daliadau sy’n dibynnu ar brawf modd, o gymharu â 25 y cant mewn ardaloedd nad ydynt yn ardaloedd Dechrau’n Deg. Mae hyn yn helpu i ddangos bod Dechrau’n Deg wedi targedu’r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru yn effeithiol. Mae bron ddwywaith cyfran yr oedolion o oedran gweithio heb gymwysterau yn byw mewn ardaloedd Dechrau’n Deg o gymharu ag ardaloedd nad ydynt yn ardaloedd Dechrau’n Deg. Hefyd, mae plant yn fwy tebygol o fyw mewn cartref sydd wedi’i orlenwi ac yn fwy tebygol o fod ag afiechyd cyfyngus tymor hir.

**Tabl 3.2. Dangosyddion amddifadedd ar gyfer plant hyd at dair oed sy’n byw mewn ardaloedd nad ydynt yn ardaloedd Dechrau’n Deg ac mewn ardaloedd cyn ac ar ôl ehangu yng Nghymru (2007-15)**

| | Ardaloedd nad ydynt yn ardaloedd Dechrau’n Deg | Ardaloedd cyn ehangu Dechrau’n Deg | Ardaloedd ar ôl ehangu Dechrau’n Deg |
|---|---|---|---|
| % Amddifadedd Incwm | 25.0% | 53.0% | 52.4% |
| % Afiechyd Cyfyngus | 2.3% | 3.6% | 3.1% |
| % Heb Gymwysterau* | 16.8% | 31.1% | 29.2% |
| % Gorlenwi | 8.4% | 13.9% | 13.5% |
| % Heb Wres Canolog | 1.00% | 0.75% | 0.78% |


* Ar gyfer oedolion 16 i 64 oed

3.7. Caiff dosbarthiad amddifadedd incwm ei ddangos yn Ffigur 3.2. Mae’r ffigur hwn yn dangos sut mae mwyafrif y plant mewn ardaloedd nad ydynt yn ardaloedd Dechrau’n Deg yn byw mewn codau post lle mae llai na hanner yr aelwydydd yn derbyn budd-daliadau sy’n dibynnu ar brawf modd. Fodd bynnag, yn nodweddiadol, mae dros 40 y cant o aelwydydd mewn ardaloedd cyn ac ar ôl ehangu yn derbyn budd-daliadau sy’n dibynnu ar brawf modd. Felly, mae’n bosibl bod unrhyw wahaniaethau rhwng ardaloedd Dechrau’n Deg ac ardaloedd nad ydynt yn ardaloedd Dechrau’n Deg o ganlyniad i newidiadau cenedlaethol i hawliadau budd-dal a lles sy’n effeithio’n anghymesur ar ardaloedd difreintiedig.


3.8. Mae Tabl 3.2 a Ffigur 3.2 yn dangos y lefelau difreintedd ar gyfer y cyfnod o 2007 i 2015. Fodd bynnag, mae’n bosibl bod y lefelau wedi newid gydag amser ac y gallai hyn yn ei dro gael effaith ar y deilliannau mewn ardaloedd Dechrau’n Deg. Mae Ffigur 3.3 yn awgrymu bod lefelau amddifadedd yn gostwng mewn ardaloedd Dechrau’n Deg, oherwydd rhwng 2007 a 2015, mae cyfran gyfartalog y plant mewn amddifadedd incwm wedi gostwng 4 pwynt canran mewn ardaloedd cyn ehangu a 5.7 pwynt canran mewn ardaloedd ar ôl ehangu. Fodd bynnag, mae’r lefelau amddifadedd incwm mewn ardaloedd nad ydynt yn ardaloedd Dechrau’n Deg wedi parhau’n gymharol gyson, gyda gwahaniaeth o 0.1 pwynt canran yn unig dros yr un cyfnod.

3.9. Ffordd arall o amcangyfrif lefel y newid mewn amddifadedd yn y gwahanol ardaloedd yw edrych ar gyfran y plant sy’n gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim gydag amser. Mae Ffigur 3.4 yn dangos lefelau cymhwysedd ar gyfer PYDd yn y gwahanol ardaloedd dros y cyfnod rhwng 2007 a 2015. Mae’n awgrymu bod lefelau cymhwysedd ar gyfer PYDd yn gostwng yn araf mewn ardaloedd Dechrau’n Deg cyn ac ar ôl ehangu, a bod lefelau yn cynyddu mewn ardaloedd nad ydynt yn ardaloedd Dechrau’n Deg. Gallai hyn effeithio ar y dulliau eraill o fesur deilliannau sy’n gysylltiedig â lefelau amddifadedd, e.e. lefelau absenoldeb. Er bod y gwahaniaethau mewn cyfran gydag amser yn fach, mae’r cynnydd o 11.06% i 13.55% mewn ardaloedd nad ydynt yn ardaloedd Dechrau’n Deg yn cyfateb i gynnydd o oddeutu 1,000 o blant.

**Ffigur 3.2. Dosbarthiad plant nad ydynt mewn ardaloedd Dechrau'n Deg ac mewn ardaloedd cyn ac ar ôl ehangu yn ôl amddifadedd incwm (2007-15)**





**Ffigur 3.3. Cyfran y plant nad ydynt mewn ardaloedd Dechrau'n Deg ac mewn ardaloedd cyn ac ar ôl ehangu sydd mewn amddifadedd incwm**




3.10. Mae dyraniad y Grant Amddifadedd Disgyblion i ysgolion mewn gwahanol ardaloedd yn gysylltiedig â lefelau cymhwysedd ar gyfer PYDd. Mae plant mewn ardaloedd Dechrau'n Deg yn fwy tebygol o fod yn gymwys ar gyfer PYDd ac, felly, mae'r ysgolion a fynychant yn derbyn mwy o arian grant. Ar gyfartaledd, mae ysgolion a fynychir gan blant sy'n byw mewn ardaloedd Dechrau'n Deg yn derbyn dwywaith gymaint o arian grant â'r rhai nad ydynt yn byw mewn ardaloedd Dechrau'n Deg[38]. Mae ardaloedd cyn ehangu yn derbyn £137.29 fesul plentyn yn yr ysgol ar gyfartaledd, o gymharu â £66.17 mewn ardaloedd nad ydynt yn ardaloedd Dechrau'n Deg. Mae plant mewn ardaloedd ar ôl ehangu yn mynychu ysgolion sy'n derbyn £116.88 fesul plentyn, ar gyfartaledd.

[38] Mae hyn oherwydd bod gan ysgolion mewn ardaloedd Dechrau'n Deg tua dwywaith cyfran y plant sy'n gymwys ar gyfer PYDd.

**Ffigur 3.4. Cyfran y plant nad ydynt mewn ardaloedd Dechrau'n Deg ac mewn ardaloedd cyn ac ar ôl ehangu sy'n gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim (2007-15)**




3.11. Wrth i'r lefelau amddifadedd newid gydag amser, mae'n bosibl mai'r newid hwn mewn amddifadedd (neu ffactor arall sy'n achosi'r newid mewn amddifadedd) sy'n gyfrifol am unrhyw ganlyniadau sy'n awgrymu gwelliant mewn ardaloedd Dechrau'n Deg o gymharu ag ardaloedd nad ydynt yn ardaloedd Dechrau'n Deg, yn hytrach nag unrhyw effaith yr ymyrraeth. Mae'n werth nodi hefyd fod amddifadedd lefel ardal yn yr ardaloedd ar ôl ehangu wedi gwella'n gynt nag yn yr ardaloedd cyn ehangu, felly gellid disgwyl bod yr ardaloedd ar ôl ehangu yn gwella'n gynt hefyd mewn meysydd eraill (e.e. deilliannau addysgol) na'r ardaloedd cyn ehangu, os oes mwy o gysylltiad rhwng y deilliant a lefel yr amddifadedd, yn hytrach nag unrhyw effaith gan ddarpariaeth Dechrau'n Deg.

## 4. Presenoldeb

4.1. Un maes lle y gallai Rhaglen Dechrau'n Deg gael effaith bwysig i blant yw maes presenoldeb. Gallai cynnydd mewn presenoldeb adlewyrchu newidiadau yn agweddau rhieni tuag at addysg gynradd. Efallai mai mwy o werthfawrogiad o addysg a/neu barodrwydd i annog presenoldeb yn sgil cymorth rhianta yw'r rheswm dros hyn. Hefyd, mae'n bosibl bod mynychu gofal plant yn helpu teuluoedd i ddod i arfer â phresenoldeb rheolaidd mewn lleoliad addysgol. Yn ogystal, gallai gwelliannau i ddeilliannau iechyd o ganlyniad i ymyriadau drwy Raglen Dechrau'n Deg ddylanwadu'n anuniongyrchol ar lefelau presenoldeb, gyda llai o ddiwrnodau i ffwrdd yn sâl. Felly, mae'n bwysig asesu a yw cyflwyno Dechrau'n Deg wedi cael effaith ar lefelau absenoldeb.

4.2. Mae absenoldeb o'r ysgol wedi'i gysylltu ag amrywiaeth o ddeilliannau tymor hwy. Yn ôl tystiolaeth, wrth i absenoldeb plentyn gynyddu, felly hefyd y mae'r tebygolrwydd y bydd y plentyn yn methu â chyrraedd y lefelau cyrhaeddiad disgwyliedig yn nes ymlaen yn yr ysgol[39]. Yn ei dro, caiff hyn oblygiadau i'w ragolygon pan fydd yn oedolyn. Mae lefelau uchel o absenoldeb yn cynyddu'r tebygolrwydd na fydd unigolyn mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant yn 18 oed[40]. Felly, mae absenoldeb yn faes lle y gallai Dechrau'n Deg wella rhagolygon tymor hir plant sy'n ymwneud â'r rhaglen.

4.3. Rhaid gosod pob plentyn sy'n derbyn addysg yn yr ysgol yn ystod y diwrnod ysgol arferol ar y gofrestr presenoldeb. Mae hon yn cofnodi presenoldeb pob disgybl yn ystod pob sesiwn hanner diwrnod (bore a phrynhawn) yn ystod pob dydd pan fydd yr ysgol ar agor i ddisgyblion. Pan gofnodir bod disgybl yn absennol, mae'r ysgol yn cofnodi a oedd yr absenoldeb yn awdurdodedig neu yn anawdurdodedig. Mae diffiniadau absenoldebau awdurdodedig ac anawdurdodedig, fel y'u darparwyd gan Lywodraeth Cymru, fel a ganlyn[41]:

- Absenoldeb awdurdodedig - absenoldeb gyda chaniatâd athro neu gynrychiolydd awdurdodedig arall yr ysgol. Mae hyn yn cynnwys adegau pan roddwyd esboniad boddhaol ar gyfer absenoldeb (e.e. salwch, marwolaeth yn y teulu neu gadwraeth grefyddol).
- Absenoldeb anawdurdodedig - absenoldeb heb ganiatâd athro neu gynrychiolydd awdurdodedig arall yr ysgol. Mae hyn yn cynnwys pob absenoldeb heb esboniad neu heb gyfiawnhad.

---

39 Gweler https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/183445/DFE-RR171.pdf

40 Ibid

41 Gweler http://wales.gov.uk/docs/statistics/2011/111214sdr2312011en.pdf

4.4. Casglwyd data am absenoldeb ar lefel y disgybl o ysgolion cynradd a gynhelir[42] am y tro cyntaf yn 2007/08. Felly, ni ellir darparu gwybodaeth am lefelau absenoldeb ond o 2007/08 ymlaen. At hynny, mae'r ddwy flynedd ganlynol (2008 i 10) yn gyfnod trawsnewidiol mewn ysgolion yn yr ardal cyn ehangu, lle y byddai'n dra phosibl bod carfannau iau o blant wedi elwa o ymyriadau o dan raglen Dechrau'n Deg, ond na fyddai'r carfannau hŷn wedi bod yn gymwys ar gyfer y cynllun. Mae'r un effaith yn digwydd o fewn ardaloedd ar ôl ehangu, rhwng 2013 a 2015.

4.5. Mae data ar absenoldeb yn ymwneud â phlant oed ysgol gorfodol yn unig (plant pump oed a hŷn) ac felly mae'r dadansoddiad a ganlyn yn ymwneud â disgyblion ym Mlwyddyn Ysgol 1 a Blwyddyn Ysgol 2 mewn ysgolion cynradd yn unig (h.y. mae plant yn y dosbarth derbyn wedi'u hepgor o'r dadansoddiad). At ddibenion llunio cymariaethau mewn presenoldeb cyn ac ar ôl cyflwyno ac ehangu Rhaglen Dechrau'n Deg, mae'r canlyniadau wedi'u grwpio'n dri chyfnod: cyn gweithredu Dechrau'n Deg (2007 i 2009), yn ystod gweithredu pan allai'r plant yn yr ardaloedd cyn ehangu fod wedi cael darpariaeth rannol (2010 i 2012) ac ar ôl gweithredu, pan allai plant yn yr ardaloedd cyn ehangu fod wedi cael darpariaeth lawn a gallai'r plant yn yr ardaloedd ar ôl ehangu fod wedi cael darpariaeth rannol (2013 i 2015). Mae'r dadansoddiad o absenoldeb yn canolbwyntio ar bedwar mesur sydd wedi'u cymryd o gronfa ddata genedlaethol y disgyblion.

- Diwrnodau'n bresennol – yr amser pan mae disgyblion yn bresennol yn yr ysgol, wedi'i fesur yn ôl cyfran y sesiynau hanner diwrnod pan oedd disgyblion yn bresennol.
- Absenoldeb cyson - disgyblion a fu'n absennol am o leiaf 20 y cant o'r sesiynau hanner diwrnod yn ystod y flwyddyn ysgol a mesur a ddefnyddir gan LIC wrth gyflwyno data ar absenoldeb disgyblion [43].
- Absenoldeb anawdurdodedig – disgyblion sydd wedi cael o leiaf un absenoldeb anawdurdodedig yn ystod y flwyddyn ysgol.
- Diwrnodau anawdurdodedig – nifer gwirioneddol yr absenoldebau anawdurdodedig ar gyfer plant sydd wedi cael o leiaf un absenoldeb anawdurdodedig.

[42] Mae ysgol a gynhelir yn ysgol wedi'i hariannu gan yr Awdurdod Lleol, yn wahanol i ysgol annibynnol (neu ysgol nas cynhelir) y mae'r rhieni yn talu amdani fel arfer.
[43] Gweler http://new.wales.gov.uk/docs/statistics/2013/130515-absenteeism-pupil-characteristics-2011-12-en.pdf

4.6. Ysgolion sy'n penderfynu p'un ai a yw absenoldeb wedi'i awdurdodi ai peidio, a disgwylir y bydd gwahaniaethau systematig rhwng lefelau absenoldebau awdurdodedig ac anawdurdodedig ymhlith ysgolion. Felly, gall cyfanswm cyfran y diwrnodau'n bresennol fod yn ddangosydd presenoldeb mwy dibynadwy na'r naill fesur presenoldeb anawdurdodedig neu'r llall.

**Lefelau Presenoldeb**

4.7. Mae Tabl 4.1 yn dangos bod gan ardaloedd Dechrau'n Deg cyn ac ar ôl ehangu bresenoldeb cyfartalog is, lefelau uwch o absenoldeb cyson ac anawdurdodedig a nifer uwch o absenoldebau anawdurdodedig ymhlith y plant hynny ag unrhyw absenoldebau anawdurdodedig. Mae hyn yn cyd-fynd â thystiolaeth sy'n awgrymu bod plant mewn ardaloedd amddifad yn fwy tebygol o fod yn absennol o'r ysgol[44].

**Tabl 4.1. Lefelau cyfartalog presenoldeb ac absenoldeb mewn ardaloedd nad ydynt yn ardaloedd Dechrau'n Deg ac mewn ardaloedd cyn ac ar ôl ehangu.**

| | Ardal nad yw'n ardal Dechrau'n Deg | Ardal cyn ehangu | Ardal ar ôl ehangu |
|---|---|---|---|
| **Canran yn Bresennol** | 93.8% | 92.0% | 92.1% |
| **Absenoldeb Cyson** | 2.5% | 5.6% | 5.4% |
| **Unrhyw Absenoldeb Anawdurdodedig** | 29.5% | 50.7% | 46.7% |
| **Diwrnodau Anawdurdodedig** | 9.17 | 13.02 | 12.46 |

4.8. Fodd bynnag, nod y gwerthusiad hwn yw darganfod a yw Dechrau'n Deg wedi cael effaith ar ddeilliannau plant. Felly, mae angen darganfod a yw'r lefelau absenoldeb hyn yn newid gydag amser. Os yw Dechrau'n Deg yn cael effaith, byddai disgwyl y byddai lefelau presenoldeb mewn ardaloedd Dechrau'n Deg yn dechrau cydgyfeirio at y lefelau mewn ardaloedd nad ydynt yn ardaloedd Dechrau'n Deg, ar ôl gweithredu'r rhaglen.

[44] https://www.estyn.gov.wales/sites/default/files/documents/Difreintedd%20disgyblion%20-%20Mai%202014.pdf


4.9. Mae Ffigurau 4.1a i 4.1d yn dangos lefelau pob un o’r pedwar mesur absenoldeb. Y prif nodwedd gyntaf i’w nodi yw’r gwelliant mewn absenoldeb ym mhob ardal, ym mhob un o’r pedwar mesur absenoldeb. Yr ail yw ei bod hi’n ymddangos bod ardaloedd Dechrau’n Deg yn dechrau cydgyfeirio at ardaloedd nad ydynt yn ardaloedd Dechrau’n Deg. Er enghraifft, fe wnaeth lefelau absenoldeb cyson ddisgyn o 7.6 a 3.2 y cant mewn ardaloedd Dechrau’n Deg ac ardaloedd nad ydynt yn ardaloedd Dechrau’n Deg yn 2007/08, i 2.7 ac 1.1 y cant, yn y drefn honno, yn 2014/15. Er bod hyn yn cynrychioli gostyngiad o 2.8 pwynt canran yn y gwahaniaeth rhwng ardaloedd Dechrau’n Deg cyn ei ehangu ac ardaloedd nad ydynt yn ardaloedd Dechrau’n Deg, mae lefelau absenoldeb cyson ddwywaith yn uwch mewn ardaloedd cyn ehangu o hyd.

4.10. Mae lefelau absenoldeb mewn ardaloedd Dechrau’n Deg yn cydgyfeirio at ardaloedd nad ydynt yn ardaloedd Dechrau’n Deg. Mae hyn yn ategu’n betrus yr awgrym bod Dechrau’n Deg yn cael effaith ar bresenoldeb ymhlith plant oed ysgol gynradd. Fodd bynnag, pe bai hyn yn wir, gellid disgwyl y byddai’r lefelau mewn ardaloedd cyn ehangu yn gwella o gymharu ag ardaloedd ar ôl ehangu. Rhoddwyd Dechrau’n Deg ar waith bum mlynedd ynghynt yn yr ardaloedd cyn ehangu, ond mae’r lefelau absenoldeb mewn ardaloedd ar ôl ehangu yn cyfateb bron yn union i’r lefelau yn yr ardaloedd cyn ehangu. Fodd bynnag, oherwydd y cyfnod ‘bwrw gwreiddiau’, mae’n bosibl nad oedd y ddarpariaeth i’r ardaloedd cyn ehangu hyd at 2012 yn gyflawn a, hefyd, bod yr ardaloedd ar ôl ehangu yn fwy ymatebol i’r cymorth a ddarparwyd oherwydd eu sefyllfaoedd llai difreintiedig. Serch hynny, mae’r canlyniadau hyn yn awgrymu bod ardaloedd cyn ac ar ôl ehangu yn gwella o leiaf yn rhannol oherwydd rhesymau heblaw am Dechrau’n Deg.


4.11. Dylid nodi hefyd y gall effeithiau ‘nenfwd’ a ‘llawr’ fod yn effeithio ar ganran y diwrnodau’n bresennol ac absenoldeb cyson. Mae mwy o le i wella ymhlith plant sy’n byw mewn ardaloedd Dechrau’n Deg, a allai esbonio rhywfaint o’r cydgyfeirio rhwng lefelau absenoldeb. Fodd bynnag, nid yw hyn yn tynnu rhag y canfyddiad fod presenoldeb mewn ardaloedd Dechrau’n Deg wedi gwella gydag amser. Oherwydd mai bach o le oedd i wella yn gyffredinol, gellid dadlau bod y gwelliant yn fwy yn ôl cyfran mewn ardaloedd Dechrau’n Deg nag mewn ardaloedd nad ydynt yn ardaloedd Dechrau’n Deg.

4.12. Mae presenoldeb cyffredinol yn gwella gydag amser mewn ardaloedd Dechrau’n Deg ac ardaloedd nad ydynt yn ardaloedd Dechrau’n Deg, ond un o’r gwahaniaethau nodedig rhyngddynt yw bod cyfran y plant sydd ag o leiaf un absenoldeb anawdurdodedig yn cynyddu mewn ardaloedd nad ydynt yn ardaloedd Dechrau’n Deg yn unig. Mae’n debygol bod hyn yn gysylltiedig â’r newid a gyflwynwyd yn 2012 i’r ffordd y mae Awdurdodau Lleol yn gorfodi presenoldeb. Roedd y newidiadau hyn yn golygu bod gwyliau teuluol yn llai tebygol o gael eu caniatáu fel rheswm dros absenoldeb ac, felly, byddai cofnod o absenoldeb anawdurdodedig yn cael ei roi ar gyfer plant a oedd yn mynd ar wyliau teuluol. Mae’r canlyniadau hyn yn awgrymu bod plant mewn ardaloedd llai amddifad yn fwy tebygol o fynd ar wyliau teuluol, a allai esbonio’r cynnydd yng nghyfran y plant ag o leiaf un absenoldeb anawdurdodedig mewn ardaloedd nad ydynt yn ardaloedd Dechrau’n Deg.


**Ffigur 4.1a. Canran cyfartalog y diwrnodau a fynychwyd mewn ardaloedd nad ydynt yn ardaloedd Dechrau’n Deg ac ardaloedd cyn ac ar ôl ehangu Dechrau’n Deg.** **Mae labeli’r data ar gyfer ardaloedd nad ydynt yn ardaloedd Dechrau’n Deg ac ardaloedd Dechrau’n Deg cyn ei ehangu)**




**Ffigur 4.1b. Cyfran gyfartalog y plant sy'n absennol yn gyson mewn ardaloedd nad ydynt yn ardaloedd Dechrau'n Deg ac ardaloedd cyn ac ar ôl ehangu.**




**Ffigur 4.1c. Cyfran gyfartalog y plant sydd ag o leiaf un absenoldeb anawdurdodedig mewn ardaloedd nad ydynt yn ardaloedd Dechrau'n Deg ac ardaloedd cyn ac ar ôl ehangu**



**Ffigur 4.1d. Nifer cyfartalog yr absenoldebau anawdurdodedig ymhlith plant sydd ag o leiaf un absenoldeb anawdurdodedig mewn ardaloedd nad ydynt yn ardaloedd Dechrau'n Deg ac ardaloedd cyn ac ar ôl ehangu**




### Gwahaniaethau Demograffig

4.13. Nid oes fawr ddim gwahaniaeth mewn presenoldeb rhwng y rhywiau, ond mae'n ymddangos bod ethnigrwydd, cymhwysedd ar gyfer PYDd, statws AAA ac amddifadedd incwm yn cael effaith ar bresenoldeb. O'r nodweddion hyn, cymhwysedd ar gyfer PYDd sy'n dangos y gwahaniaethau mwyaf. Mewn ardaloedd nad ydynt yn ardaloedd Dechrau'n Deg, mae presenoldeb rhwng 2.7 a 3.3 y cant yn uwch ymhlith plant nad ydynt yn gymwys ar gyfer PYDd, a rhwng 1.9 a 2.1 mewn ardaloedd cyn ehangu. Mae'r gwahaniaethau rhwng y grwpiau hyn yn llai ar ôl ehangu Dechrau'n Deg yn 2012. Gweler Atodiad A am ddadansoddiadau manwl yn ôl ardal a nodwedd.


4.14. Mae'r gwahaniaethau mewn presenoldeb yn gysylltiedig ag ethnigrwydd ac AAA yn llai na'r gwahaniaethau yn achos cymhwysedd ar gyfer PYDd. Cyn gweithredu, roedd y ddau'n dangos gwahaniaeth o ychydig dros ddau bwynt canran, gyda phresenoldeb gwell gan blant gwyn Prydeinig a/neu blant nad oes ganddynt AAA. Fel y canlyniadau yn achos cymhwysedd ar gyfer PYDd, mae'r gwahaniaethau oherwydd y nodweddion hyn yn gostwng gydag amser. Mae'r gostyngiad hwn yn arbennig o amlwg mewn absenoldeb cyson, gyda'r gwahaniaethau oherwydd AAA ac ethnigrwydd yn haneru dros y cyfnod gwerthuso.

4.15. Mae'n ymddangos bod presenoldeb cyfartalog yn cynyddu'n gynt i blant sydd naill ai'n byw mewn ardaloedd amddifad neu sy'n gymwys ar gyfer PYDd, fel y mae'r gostyngiad yn y gwahaniaethau mewn presenoldeb oherwydd cymhwysedd ar gyfer PYDd ac amddifadedd incwm yn ei ddangos. Fodd bynnag, mae'r gostyngiad hwn yn fwy amlwg mewn ardaloedd Dechrau'n Deg, sy'n awgrymu rhyngweithio rhwng amddifadedd a Dechrau'n Deg, gyda'r posibilrwydd bod Dechrau'n Deg yn gwneud mwy o wahaniaeth i blant sy'n fwy amddifad.


4.16. O ran nifer y diwrnodau anawdurdodedig mewn ardaloedd nad ydynt yn ardaloedd Dechrau'n Deg, 6.3 diwrnod yw'r gwahaniaeth rhwng plant sy'n gymwys ar gyfer PYDd a'r plant nad ydynt (felly mae plant sy'n gymwys ar gyfer PYDd yn cael tua 70 y cant yn fwy o ddiwrnodau anawdurdodedig na phlant nad ydynt yn gymwys). Fodd bynnag, erbyn 2013 i 2015, yr un yw nifer y diwrnodau anawdurdodedig i'r ddau grŵp o blant. Mae patrwm tebyg i'w weld mewn ardaloedd cyn ac ar ôl ehangu hefyd.

4.17. Mae Ffigurau 4.2a i 4.2d yn dangos y lefelau presenoldeb ar gyfer plant sy'n byw mewn ardaloedd Dechrau'n Deg cyn ei ehangu yn unig, ond wedi'u rhannu yn ôl lefelau amddifadedd. Mae'r rhaniad wedi'i seilio ar y chwarteli uchaf ac isaf o blant mewn ardaloedd cyn ehangu sy'n byw mewn amddifadedd incwm (h.y. lle y bo amddifadedd yr ardal islaw 40 y cant neu uwchlaw 63 y cant). Ystyrir bod plant sy'n byw mewn ardal lle y mae llai na 40 y cant mewn amddifadedd incwm yn byw mewn ardal Dechrau'n Deg llai difreintiedig at ddibenion y dadansoddiad hwn. Ystyrir bod y plant hynny sy'n byw mewn ardaloedd lle y mae dros 63 y cant mewn amddifadedd incwm yn byw mewn ardaloedd Dechrau'n Deg mwy amddifad.


**Ffigur 4.2a. Canran cyfartalog y diwrnodau a fynychwyd mewn ardaloedd cyn ehangu yn unig, wedi'i rannu yn ôl y rhai yn y chwarteli amddifadedd incwm uchaf neu isaf.**





**Ffigur 4.2b. Cyfran gyfartalog y plant sy'n absennol yn gyson mewn ardaloedd cyn ehangu yn unig, wedi'i rhannu yn ôl y rhai yn y chwarteli amddifadedd incwm uchaf neu isaf.**



**Ffigur 4.2c. Cyfran gyfartalog y plant sydd ag o leiaf un absenoldeb anawdurdodedig mewn ardaloedd cyn ehangu yn unig, wedi'i rhannu yn ôl y rhai yn y chwarteli amddifadedd incwm uchaf neu isaf.**




**Ffigur 4.2d. Nifer cyfartalog yr absenoldebau anawdurdodedig ymhlith plant sydd ag o leiaf un absenoldeb anawdurdodedig mewn ardaloedd cyn ehangu yn unig, wedi'i rannu yn ôl y rhai yn y chwarteli amddifadedd incwm uchaf neu isaf.**




4.18. Cyn gweithredu, roedd presenoldeb cyfartalog plant sy'n byw yn yr ardaloedd llai amddifad yn 91.9 y cant ac roedd y cyfartaledd yn 90.6 y cant yn yr ardaloedd mwy amddifad; gweler Ffigur 4.2a. Ar ôl gweithredu, mae'r ddwy ardal wedi gwella ac mae'r gwahaniaeth rhwng yr ardaloedd wedi gostwng 0.5 pwynt canran, i 93.5 y cant mewn ardaloedd llai amddifad ac i 92.7 y cant mewn ardaloedd mwy amddifad.

4.19. Mae'r un duedd i'w gweld yn y tri mesur absenoldeb arall, lle y mae ardaloedd Dechrau'n Deg mwy amddifad yn gwella yn gynt na'r ardaloedd llai amddifad; gweler Ffigurau 4.2b a 4.2d. Mae hyn yn awgrymu bod y gwahaniaethau rhwng ardaloedd Dechrau'n Deg mwy a llai amddifad yn gostwng gydag amser.

4.20. Ffordd arall o archwilio effaith amddifad ar absenoldeb yw ystyried y plant hynny sy'n gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim yn unig. Oherwydd bod plant yn gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim os yw rhiant yn derbyn budd-daliadau sy'n dibynnu ar brawf modd yn unig, gellid ystyried bod y plant hyn yn fwy amddifad na'r rhai nad ydynt yn cael prydau ysgol am ddim. Mae hyn yn bwysig i'w ystyried hefyd, oherwydd mae'n bosibl bod plant sy'n gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim yn cael cymorth ychwanegol trwy'r Grant Amddifadedd Disgyblion ers 2013.

4.21. Pan fydd plant sy'n gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim yn cael eu hystyried yn unig, mae'r gwahaniaethau rhwng ardaloedd Dechrau'n Deg a'r rhai nad ydynt yn diflannu bron yn llwyr. Cyn gweithredu, roedd y presenoldeb cyfartalog mewn ardaloedd nad ydynt yn ardaloedd Dechrau'n Deg yn 90.5 y cant ac mewn ardaloedd cyn ehangu, roedd yn 90.0 y cant. Ar ôl gweithredu, yr un yw'r lefelau, sef 92.2 y cant.

4.22. Gwelir tuedd debyg ar gyfer absenoldeb cyson a nifer cyfartalog yr absenoldebau anawdurdodedig, gyda'r gwahaniaethau rhwng ardaloedd Dechrau'n Deg a'r rhai nad ydynt yn ardaloedd Dechrau'n Deg sydd i'w gweld ymhlith y rhai sy'n gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim yn unig yn llai o lawer na'r lefelau a welir yn y boblogaeth gyfan. Cyn gweithredu, mae'r gwahaniaeth o ran absenoldeb cyson rhwng ardaloedd nad ydynt yn ardaloedd Dechrau'n Deg ac ardaloedd cyn ehangu yn 2 bwynt canran, ond ar ôl gweithredu, mae'r gwahaniaeth hwn wedi gostwng i 0.8 pwynt canran. Cyn gweithredu, roedd 14.3 o absenoldebau anawdurdodedig wedi'u cofnodi ar gyfartaledd ar gyfer plant mewn ardaloedd nad ydynt yn ardaloedd Dechrau'n Deg ag o leiaf un absenoldeb anawdurdodedig, o gymharu ag 17.2 mewn ardaloedd cyn ehangu (h.y. gwahaniaeth o 2.9 diwrnod). Ar ôl gweithredu, roedd 11.9 ar gyfartaledd gan ardaloedd nad ydynt yn ardaloedd Dechrau'n Deg ac 13.4 gan ardaloedd cyn ehangu, sef gwahaniaeth o 1.5 diwrnod.

**Dadansoddiad**

4.23. Hyd yn hyn, mae'r canlyniadau'n ei gwneud hi'n glir bod gan amddifadedd effaith bwysig ar absenoldeb mewn ardaloedd Dechrau'n Deg ac ardaloedd nad ydynt yn ardaloedd Dechrau'n Deg. Fodd bynnag, nid yw'n glir beth yw cryfder cymharol effaith amddifadedd, a nodweddion eraill, wrth gynhyrchu'r canlyniadau. Er mwyn pennu beth yw'r prif resymau dros absenoldeb, mae angen defnyddio technegau ystadegol sy'n gallu ceisio gwahanu effeithiau gwahanol nodweddion ac amcangyfrif eu heffeithiau.

4.24. Y prif ddull fydd defnyddio dadansoddiad atchwel lluosog. Mae'r dechneg hon yn ceisio darganfod pa gyfran o'r gwahaniaethau rhwng plant sy'n cael ei hachosi gan bob nodwedd. Er enghraifft, a oes gan absenoldeb fwy o gysylltiad â rhywedd neu ethnigrwydd? Trwy gynnwys nodweddion lluosog, mae'n bosibl gweld effeithiau annibynnol pob un ohonynt ac, felly, gweld pa rai ohonynt sy'n cael y dylanwad mwyach ar absenoldeb. Mae'r holl nodweddion sy'n debygol o gael effaith ar absenoldeb wedi'u cynnwys. Felly, mae'r canlynol wedi'u cynnwys: holl nodweddion unigol y plant (rhywedd, ethnigrwydd, cymhwysedd ar gyfer PYDd, statws AAA), y flwyddyn pan oedd y plentyn yn yr ysgol a mesurau amddifadedd (canran yr ardal mewn amddifadedd incwm, sgôr Malc). Mae'r model terfynol a ddefnyddir yn ceisio cyfrif am y gwahaniaethau mewn presenoldeb rhwng ysgolion[45].

4.25. Gall ffurfiau allbynnau'r modelau hyn amrywio yn ôl y math o amcangyfrif y maent yn ceisio'i lunio. Mae canran y diwrnodau yn bresennol yn newidyn di-dor (h.y. gall fod o unrhyw werth rhwng 0 a 100), felly mae'r allbynnau yn ymwneud â pha newid mewn canran y byddech yn ei ddisgwyl pe bai'r nodwedd yn cael ei darganfod. Mewn absenoldeb cyson ac absenoldeb anawdurdodedig, mae'r deilliant yn ddeuaidd (h.y. ni all ond fod yn un o ddau ddeilliant posibl, ydy neu nac ydy); mae'r allbynnau yn ddangosydd ar gyfer sut byddai tebygolrwydd y deilliant yn newid pe bai'r nodwedd yn cael ei darganfod[46]. Yn olaf, mae nifer y diwrnodau anawdurdodedig yn ganlyniad i'r cyfrif (h.y. mae gan bob plentyn nifer o ddiwrnodau). Fel y deilliannau deuaidd, nid yw'r allbynnau hyn yn arwain at amcangyfrif uniongyrchol o'r diwrnodau'n bresennol, ond awgrymant newid yn nifer y diwrnodau. Cyflwynir canlyniadau'r dadansoddiad hwn yn Nhabl 4.2.

[45] Cyfeirir at hwn yn aml fel model aml-lefel, neu gymysg.
[46] Nid yw'r gwerth a ddangosir yn newid uniongyrchol yn nhebygolrwydd y deilliant

4.26. Er bod pob un o’r modelau’n dangos allbwn gwahanol, y prif bwynt y cytunir arno yw bod perthynas uniongyrchol fechan rhwng byw mewn ardal Dechrau’n Deg ac absenoldeb. Mae byw mewn ardal cyn ehangu yn gysylltiedig â lefel presenoldeb is a mwy o absenoldeb anawdurdodedig. Fodd bynnag, os caiff y plant hynny a oedd o bosibl yn gymwys ar gyfer darpariaethau Dechrau’n Deg eu cymharu â’r rhai nad oeddent yn gymwys, mae deilliannau’n gwella. Mae gan blant a allai fod yn gymwys lefel uwch o bresenoldeb cyffredinol na’r cyfartaledd cenedlaethol, mae absenoldeb cyson yn is ac mae absenoldeb anawdurdodedig tua’r un fath, ar ôl safoni ar gyfer pob nodwedd arall. Fodd bynnag, mae’r cysylltiadau rhwng Dechrau’n Deg ac absenoldeb yn ymddangos yn fach o gymharu â ffactorau eraill, fel cymhwysedd ar gyfer PYDd ac AAA.

**Tabl 4.2. Allbynnau’r modelau atchwel ar gyfer y pedwar mesur absenoldeb mewn ardaloedd nad ydynt yn ardaloedd Dechrau’n Deg ac ardaloedd cyn ac ar ôl ehangu**

| | Canran yn Bresennol | Absenoldeb Cyson | Absenoldeb Anawdurdodedig | Nifer y Diwrnodau Anawdurdodedig |
|---|---|---|---|---|
| Ddim yn gymwys cyn ehangu | -0.33% | 0.02 | 0.24 | 0.08 |
| Yn gymwys cyn ehangu | 0.09% | -0.03 | 0.01 | 0.01 |
| Ar ôl ehangu | -0.11% | 0.03 | 0.06 | 0.00 |
| Gwyn Prydeinig | 1.09% | -0.59 | -0.22 | -0.11 |
| Yn gymwys ar gyfer PYDd | -2.14% | 1.04 | 0.81 | 0.39 |
| AAA | -1.38% | 0.71 | 0.28 | 0.18 |
| Amddifadedd incwm | -1.11% | 0.67 | 0.46 | 0.16 |

4.27. O’r modelau hyn, mae’n ymddangos nad yw byw mewn ardal Dechrau’n Deg neu fod yn gymwys ar gyfer darpariaethau Dechrau’n Deg[47] yn benderfynyddion cryf ar gyfer absenoldeb, ond mae mwy o gysylltiad gan nodweddion fel bod yn gymwys ar gyfer PYDd, AAA, ethnigrwydd a byw mewn ardal o amddifadedd incwm. Er gwaethaf hyn, mae’n ymddangos yn gyffredinol bod cysylltiad negyddol rhwng byw mewn ardal Dechrau’n Deg a phresenoldeb, ond mae cysylltiad cadarnhaol gan y posibilrwydd o fod wedi derbyn ymyrraeth Dechrau’n Deg.

4.28. Yn ogystal, mae’n bwysig deall pa mor dda mae’r modelau’n cyd-fynd â’r lefelau gwirioneddol a welir yn y data. Dylai allbynnau’r modelau hyn gyfateb i’r deilliannau gwirioneddol ar gyfer yr ardaloedd hyn. Un ffordd o brofi hyn yw cymharu’r lefelau presenoldeb rhagweledig â’r lefelau gwirioneddol. Mae’r gymhariaeth hon yn awgrymu bod y modelau atchwel yn cyd-fynd yn dda â’r canlyniadau gwirioneddol ar gyfer y pedwar mesur. Y gwahaniaeth cyfartalog rhwng y rhagfynegiadau a’r sgorau gwirioneddol yw 0.25 y cant ar gyfer canran y diwrnodau’n bresennol, 0.12 y cant ar gyfer absenoldeb cyson, 1.42[48] y cant ar gyfer absenoldeb anawdurdodedig a 0.24 diwrnod ar gyfer diwrnodau anawdurdodedig. Gweler Atodiad B ar gyfer y ffigurau sy’n cymharu’r lefelau presenoldeb gwirioneddol a rhagweledig.

4.29. Mae cywirdeb y gwerthoedd rhagweledig yn awgrymu bod y modelau atchwel yn gallu disgrifio’r newidiadau mewn absenoldeb, a bod yr allbynnau a gynhyrchir yn fesurau dibynadwy o effeithiau pob nodwedd. Fodd bynnag, gyda phoblogaeth mor fawr wedi’i chynnwys yn y dadansoddiad, gall hyd yn oed model gwan gynhyrchu canlyniadau cymharol gywir.

4.30. Ffordd arall o ddeall pa mor dda mae’r model yn cyd-fynd â’r data yw profi’r berthynas rhwng y rhagfynegiadau a’r canlyniadau gwirioneddol, h.y. cymathu’r rhagfynegiadau â’r canlyniad gwirioneddol yna sgwario’r canlyniad[49]. Gall y dull hwn gael ei gymhwyso i wahanol ffurfiau’r deilliannau, fel deuaidd (ydy/nac ydy), cyfrif a pharhaus. Yr enw ar y canlyniad hwn yw ffug R wedi’i sgwario, ac mae’n rhoi brasamcan ar gyfer faint o'r gwahaniaethau rhwng plant y mae’r model yn cyfrif amdano.

[47] Nid yw byw mewn ardal Dechrau’n Deg yn golygu o reidrwydd bod plentyn wedi bod yn gymwys i gael darpariaethau Dechrau’n Deg. Os ganed y plentyn yn 2005 neu’n gynt, byddai wedi bod yn rhy hen i fod yn gymwys am ddwy flynedd neu ragor o ddarpariaethau Dechrau’n Deg.

[48] Nid yw’r model yn cyd-fynd cystal ag absenoldebau anawdurdodedig oherwydd gwnaed newidiadau i’r ffordd o awdurdodi absenoldebau yn 2012.

[49] Zheng, B. and A. Agresti. 2000.Summarizing the predictive power of a generalized linear model. *Statistics in Medicine* 19: 1771–1781.

4.31. Gall y gwerthoedd ar gyfer ffug R wedi'i sgwario fod rhwng 0 ac 1, gyda gwerthoedd yn agosach at 1 yn golygu bod mwy o amrywiant wedi'i gyfrifo amdano, h.y. gwell model. Y gwerthoedd ar gyfer pob un o'r pedwar mesur absenoldeb yw 0.092 (canran y diwrnodau'n bresennol), 0.046 (absenoldeb cyson), 0.113 (unrhyw absenoldebau anawdurdodedig) a 0.273 (nifer y diwrnodau anawdurdodedig). Nid yw'r gwerthoedd hyn yn syndod o ystyried bod y newidynnau eglurhaol wedi'u cynnwys ar sail eu hargaeledd, yn hytrach na chysylltiadau profedig â'r deilliannau. Hefyd, mae modelau atchwel â sampl mwy o faint yn fwy tebygol o fod â gwerthoedd is[50]. Fodd bynnag, er nad oes gwerth wedi'i bennu ymlaen llaw ar gyfer ffug R wedi'i sgwario, mae'r gwerthoedd isel hyn yn awgrymu bod angen dadansoddi ymhellach.

4.32. Felly, er mwyn gweld a yw'r effaith gadarnhaol a awgrymir gan y dadansoddiad atchwel yn ddibynadwy ac arwyddocaol, gellir defnyddio prawf ystadegol arall, sef paru sgorau tueddiad.

4.33. Mae'n bosibl paru plant sy'n byw mewn ardaloedd gwahanol ar sail eu nodweddion unigol, ac yna cymharu'r lefelau absenoldeb a welir yn y plant hyn sydd wedi'u paru. Er enghraifft, caiff plant gwrywaidd, gwyn Prydeinig, sy'n gymwys ar gyfer PYDd mewn ardaloedd Dechrau'n Deg a'r ardaloedd nad ydynt yn ardaloedd Dechrau'n Deg eu cymharu. Mae paru sgorau tueddiad yn defnyddio techneg sy'n amcangyfrif y tebygolrwydd y byddant ym mhob ardal ar sail eu nodweddion; yr amcangyfrif hwn yw'r sgôr tueddiad[51]. Caiff plant eu paru â'u cymydog agosaf yn yr ardal arall (h.y. cyn ehangu Dechrau'n Deg neu ardal nad yw'n ardal Dechrau'n Deg) yn ôl eu sgôr tueddiad[52]. Hefyd, mae'n bosibl mynnu union gydweddiadau ar gyfer rhai nodweddion; gosodwyd cymhwysedd ar gyfer PYDd, statws AAA a'r flwyddyn yn nodweddion a oedd yn mynnu union gydweddiadau.

[50] http://www.empgens.com/resources/ResearchDesignsR2.pdf

[51] Mae'r sgôr hon yn seiliedig ar lefelau pob nodwedd sydd i'w gweld yn yr ardal. Er enghraifft, gan fod lefelau cymhwysedd ar gyfer PYDd yn uwch mewn ardaloedd Dechrau'n Deg, gall cymhwysedd ar gyfer PYDd gael ei ddefnyddio i ragweld pa mor debygol yw pob plentyn o fod ym mhob grŵp. Fodd bynnag, nid yw rhywedd yn wahanol rhwng ardaloedd, felly ni ellir ei ddefnyddio i ragweld ym mha ardal y mae'r plentyn yn byw.

[52] Y nodweddion a ddefnyddiwyd ar gyfer paru oedd rhywedd, ethnigrwydd, cymhwysedd ar gyfer PYDd, statws AAA, dyraniad y GAD ac amddifadedd incwm. Defnyddiwyd dull effaith-triniaeth-cyfartalog-ar-y-trin, sy'n golygu mai plant mewn ardaloedd Dechrau'n Deg yn unig yr oedd angen eu paru. Bu'n bosibl paru pob plentyn â mwy nag un plentyn arall ac, wrth gymharu rhwng ardaloedd, roedd nifer y cydweddiadau'n amrywio rhwng 1 a 4198. Mae hyn yn digwydd oherwydd bod pob plentyn mewn ardal Dechrau'n Deg yn cael ei baru â'i gymydog agosaf, ni waeth a yw'r plentyn hwnnw eisoes wedi'i baru â phlentyn arall.

4.34. Mae Tabl 4.3 yn awgrymu bod gwahaniaethau'n gostwng gydag amser wrth gymharu rhwng ardaloedd Dechrau'n Deg cyn ei ehangu ac ardaloedd nad ydynt yn ardaloedd Dechrau'n Deg, ond ar bob pwynt amser mae deilliannau plant sy'n byw mewn ardaloedd Dechrau'n Deg yn waeth na'r rhai mewn ardaloedd nad ydynt yn ardaloedd Dechrau'n Deg. Mae'r gwahaniaethau hyn yn arwyddocaol ar gyfer pob mesur absenoldeb cyn yr ymyrraeth, ond yn gostwng i'r pwynt lle nad oes arwyddocâd iddynt ar ôl ehangu.

**Tabl 4.3. Deilliannau Paru Sgorau Tueddiad yn cymharu plant mewn ardaloedd cyn ehangu â phlant mewn ardaloedd nad ydynt yn ardaloedd Dechrau'n Deg ar gyfer y cyfnodau cyn (07-09), yn ystod (10-12) ac ar ôl (13-15) gweithredu**

| | Rhwng Ardaloedd Dechrau'n Deg Cyn Ei Ehangu a'r Ardaloedd Nad Ydynt yn Ardaloedd Dechrau'n Deg | | |
|---|---|---|---|
| | **Cyn Gweithredu (2007 – 09)** | **Ar ôl Gweithredu (2010 – 12)** | **Ar ôl Ehangu (2013 – 15)** |
| **Canran yn Bresennol** | -0.57%* | -0.27%* | -0.17% |
| **Absenoldeb Cyson** | 0.79%* | 0.78%* | 0.27% |
| **Unrhyw Absenoldeb Anawdurdodedig** | 12.39%* | 9.52%* | 0.87% |
| **Diwrnodau Anawdurdodedig** | 2.32* | 1.81* | 0.05 |

*mae'n dynodi arwyddocâd ystadegol hyd at lefel 0.01

4.35. Er bod deilliannau plant sy'n byw mewn ardaloedd Dechrau'n Deg yn waeth na'r rhai nad ydynt, hyd yn oed ar ôl paru plant ar sail eu nodweddion, mae'n ymddangos bod deilliannau'r plant a oedd yn gymwys i dderbyn darpariaethau Dechrau'n Deg yn fwy tebygol o fod gerllaw deilliannau plant nad ydynt mewn ardaloedd Dechrau'n Deg. Fodd bynnag, mae'n bosibl y gallai'r gwelliant hwn fod wedi digwydd oherwydd bod mwy o le gan y rhai mewn ardaloedd Dechrau'n Deg i wella, yn hytrach nag unrhyw effaith gan Dechrau'n Deg.

4.36. Er mwyn profi'r awgrym hwn, cyflawnwyd yr un broses baru ar gyfer ardaloedd ar ôl ehangu. Mae'r ardaloedd hyn hefyd yn dangos y gwelliant a welwyd gydag amser yn y ddwy ardal arall, ond byddent wedi derbyn darpariaeth Dechrau'n Deg bedair blynedd yn ddiweddarach na'r ardaloedd cyn ehangu ac, felly, ni fyddai unrhyw blant mewn ardaloedd ar ôl ehangu wedi gallu bod yn gymwys ar gyfer dwy flynedd neu ragor o ddarpariaethau Dechrau'n Deg. Felly, pe bai'r gwelliannau a welir yn yr ymarfer paru cyn ehangu yn cael eu hailadrodd yn yr ardaloedd ar ôl ehangu, yna mae'n debygol nad yw'r gwelliannau o ganlyniad i Dechrau'n Deg. Fodd bynnag, os yw'r gwelliannau'n digwydd yn ddiweddarach nag yn yr ardaloedd cyn ehangu, mae'n bosibl awgrymu bod Dechrau'n Deg wedi cael effaith.

4.37. Mae Tabl 4.4 yn dangos deilliannau paru sgorau tueddiad ar gyfer yr ardaloedd ar ôl ehangu. Mae'r gwahaniaethau rhwng yr ardaloedd ar ôl ehangu a'r ardaloedd nad ydynt yn ardaloedd Dechrau'n Deg yn debyg i'r rhai a welwyd mewn ardaloedd cyn ehangu yn ystod y cyfnod rhwng 2007 a 2012, ac mae'r lefelau absenoldeb yn is o lawer nag ymhlith plant mewn ardaloedd nad ydynt yn ardaloedd Dechrau'n Deg yn ystod y cyfnod rhwng 2010 a 2012. Fodd bynnag, mae'r bwlch yn cau'n sylweddol yn ystod y cyfnod rhwng 2013 a 2015, fel nad oes unrhyw wahaniaethau arwyddocaol[53] between rhwng plant sydd wedi'u paru mewn ardaloedd Dechrau'n Deg ar ôl ei ehangu ac ardaloedd nad ydynt yn ardaloedd Dechrau'n Deg.

4.38. Un prawf terfynol yw paru plant mewn ardaloedd cyn ehangu yn unig, dim ond os oeddent yn gymwys ar gyfer y ddarpariaeth, neu beidio. Os yw Dechrau'n Deg yn cael effaith gadarnhaol, yna dylai'r plant hynny a allai fod wedi bod yn gymwys fod â deilliannau gwell o lawer na'r rhai na fyddent wedi gallu derbyn y ddarpariaeth. Eto, cafodd y plant hyn eu paru yn ôl eu nodweddion unigol.

[53] Nid yw profi arwyddocâd ystadegol yn briodol ar gyfer y dadansoddiad atchwel, gan ei fod yn cynnwys holl boblogaeth y plant yng Nghymru. Felly, nid os ymgais i gyffredinoli ymhellach na'r rhai a ddefnyddiwyd yn y sampl. Gan fod y dadansoddiad paru yn defnyddio sampl o blant yn unig, mae profi arwyddocâd yn briodol.

**Tabl 4.4. Deilliannau Paru Sgorau Tueddiad yn cymharu plant mewn ardaloedd ar ôl ehangu â phlant mewn ardaloedd nad ydynt yn ardaloedd Dechrau'n Deg ar gyfer y cyfnodau cyn (07-09), yn ystod (10-12) ac ar ôl (13-15) gweithredu**

| | Rhwng Ardaloedd Dechrau'n Deg Ar Ôl Ei Ehangu a'r Ardaloedd Nad Ydynt yn Ardaloedd Dechrau'n Deg | | |
|---|---|---|---|
| | **Cyn Gweithredu (2007 – 09)** | **Ar ôl Gweithredu (2010 – 12)** | **Ar ôl Ehangu (2013 – 15)** |
| **Canran yn Bresennol** | -0.52%* | -0.49%* | -0.07% |
| **Absenoldeb Cyson** | 0.46% | 1.36%* | 0.36% |
| **Unrhyw Absenoldeb Anawdurdodedig** | 8.67%* | 6.93%* | 0.62% |
| **Diwrnodau Anawdurdodedig** | 2.01* | 1.04* | -0.29 |

* mae'n dynodi arwyddocâd ystadegol hyd at lefel 0.01

4.39. Mae Tabl 4.5 yn dangos bod deilliannau gwell o lawer gan blant mewn ardaloedd cyn ehangu a oedd yn gymwys i dderbyn darpariaethau Dechrau'n Deg na phlant a oedd yn byw yn yr un ardaloedd ond nad oeddent yn gymwys. Ym mhob un o'r pedwar mesur absenoldeb, roedd deilliannau plant a allai fod wedi bod yn gymwys yn fwy cadarnhaol, gyda phresenoldeb cyffredinol 1.15 pwynt canran yn uwch ar gyfartaledd.

4.40. Mae Tabl 4.5 hefyd yn dangos canlyniad cymhwyso'r un broses baru i blant sy'n byw mewn ardaloedd nad ydynt yn ardaloedd Dechrau'n Deg. Roedd y plant hyn yn yr un grwpiau blwyddyn ysgol â'r plant mewn ardaloedd Dechrau'n Deg cyn ei ehangu a allai fod yn gymwys ar gyfer y ddarpariaeth, neu beidio. Mae'r canlyniadau'n awgrymu'n gryf bod presenoldeb plant mewn ardaloedd cyn ehangu yn gwella'n gynt nag mewn ardaloedd nad ydynt yn ardaloedd Dechrau'n Deg. At hynny, mae gan blant mewn ardaloedd nad ydynt yn ardaloedd Dechrau'n Deg lefelau absenoldeb anawdurdodedig uwch o lawer ar ôl cyflwyno Dechrau'n Deg, ond mae lefelau plant mewn ardaloedd cyn ehangu yn is o lawer.

**Tabl 4.5. Deilliannau Paru Sgorau Tueddiad yn cymharu plant a allai fod yn gymwys ar gyfer darpariaeth Dechrau'n Deg â phlant mewn ardaloedd cyn ehangu na fyddent wedi gallu derbyn y ddarpariaeth, a'r gwahaniaeth mewn ardaloedd nad ydynt yn ardaloedd Dechrau'n Deg gan ddefnyddio'r un cymariaethau amser**

| | Rhwng plant a allai fod yn gymwys a phlant mewn ardaloedd cyn ehangu nad oeddent yn gymwys | Rhwng plant nad ydynt mewn ardaloedd Dechrau'n Deg sydd yn yr un grwpiau blwyddyn â'r rhai a allai fod yn gymwys neu beidio |
|---|---|---|
| **Canran yn Bresennol** | 1.15%* | 0.47%* |
| **Absenoldeb Cyson** | -1.80%* | -0.59%* |
| **Unrhyw Absenoldeb Anawdurdodedig** | -4.10%* | 4.85%* |
| **Diwrnodau Anawdurdodedig** | -1.51* | 0.61* |

* mae'n dynodi arwyddocâd ystadegol hyd at lefel 0.01

4.41. O'r dadansoddiad hwn, gellir dod i'r casgliad bod byw mewn ardal Dechrau'n Deg yn cael effaith fechan ond arwyddocaol ar absenoldeb. Er bod deilliannau plant sy'n byw mewn ardaloedd Dechrau'n Deg yn waeth na deilliannau plant sy'n byw mewn ardaloedd eraill, mae'r dadansoddiad atchwel yn awgrymu y gellir cyfrif yn helaeth am y gwahaniaeth hwn mewn presenoldeb trwy nodweddion y plant sy'n byw yn yr ardaloedd hynny, h.y. amddifadedd, AAA ac, o bosibl, newidiadau eraill sydd wedi digwydd a all ddylanwadu ar bresenoldeb (fel ailddosbarthu absenoldebau anawdurdodedig).

4.42. Fodd bynnag, pan gaiff plant a oedd yn gymwys ar gyfer darpariaethau Dechrau'n Deg eu cymharu â'r plant a oedd yn byw yn yr un ardaloedd cyn cyflwyno'r rhaglen, mae'n ymddangos bod cymhwysedd ar gyfer y ddarpariaeth yn gallu cael effaith gadarnhaol arwyddocaol ar absenoldeb. Ar gyfer pob mesur absenoldeb, roedd gan blant a oedd yn gymwys ar gyfer Dechrau'n Deg ddeilliannau mwy cadarnhaol na'r rhai a oedd yn byw mewn ardaloedd cyn ehangu ond na allent fod wedi derbyn y ddarpariaeth. Mae hyn yn cefnogi canlyniadau'r dadansoddiad atchwel a ddarganfu fod cysylltiad cadarnhaol bychan gan y posibilrwydd o fod yn gymwys ar gyfer Dechrau'n Deg. Felly, er ei bod hi'n amhosibl dweud beth fyddai wedi gallu digwydd heb Dechrau'n Deg, mae'r dadansoddiad yn yr adroddiad hwn yn awgrymu bod Dechrau'n Deg yn cael effaith gadarnhaol bosibl ar bresenoldeb.

## 5. Cyrhaeddiad Addysgol

5.1. Er bod presenoldeb yn fesur defnyddiol o ymwneud plentyn â'r ysgol ac addysg, mae cyrhaeddiad addysgol gwirioneddol plentyn yn fesur pwysig arall o'i ddeilliannau addysgol. Mae plant yn derbyn darpariaethau Dechrau'n Deg rhwng genedigaeth a phedair oed. Felly, byddai disgwyl i unrhyw effaith a gaiff y gweithgareddau hyn ar gyrhaeddiad addysgol y plentyn fod ar ei amlycaf yn union ar ôl pedair oed. Ni chaiff cyrhaeddiad addysgol plant ei asesu tan ddiwedd Blwyddyn Ysgol 2, pan fyddant yn saith oed. Dyma ddiwedd y Cyfnod Sylfaen (CS), sy'n dechrau pan fydd y plentyn yn dair oed.

5.2. Y Cyfnod Sylfaen yw rhaglen addysg Cymru ar gyfer y blynyddoedd cynnar. Caiff plant 10 awr neu fwy o addysg wedi'i hariannu gan y wladwriaeth o'r mis Medi ar ôl eu pen-blwydd yn dair oed. Pan fydd y plentyn yn bedair oed, caiff gynnig addysg amser llawn, rhad ac am ddim. Nid yw'r oriau hyn yn orfodol hyd nes bod y plentyn yn bump oed. Felly, gall plant dderbyn lefelau amrywiol o addysg rhwng tair a phump oed, ac mae'n bosibl na fydd rhai plant yn cael unrhyw addysg. Fodd bynnag, mae presenoldeb yn y ddwy flynedd gyntaf hyn yn uchel iawn, gydag 88 y cant o blant tair/pedair oed a 98 y cant o blant pedair/pump oed yn mynychu[54].

5.3. Mae'r Cyfnod Sylfaen yn gynllun cymharol newydd. Fe'i rhoddwyd ar waith fesul tri cham: Cam Peilot, sef 22 ysgol a 22 leoliad nas cynhelir a ariennir (h.y. preifat) yn 2004/05; cam Dechrau'n Gynnar, sef 22 ysgol a 22 leoliad nas cynhelir a ariennir arall yn 2006/07; a phob ysgol a lleoliad nas cynhelir a ariennir arall yn ystod y cam cyflwyno terfynol yn 2009/10. Mae hyn yn golygu bod yr asesiadau cyntaf i'w cynnal gan ddefnyddio'r Cyfnod Sylfaen wedi'u cynnal yn 2011/12. Cyn hynny, aseswyd plant gan ddefnyddio Cyfnod Allweddol 1 (CA1).

5.4. Mae cam peilot y Cyfnod Sylfaen yn broblem i'r gwerthusiad hwn oherwydd defnyddiwyd mwy o ysgolion o ardaloedd cymharol amddifad yn y sampl ar gyfer dewis lleoliadau Peilot ac roedd pob lleoliad yn y sampl o ysgolion Dechrau'n Gynnar wedi'u dewis o ardaloedd rhaglen Dechrau'n Deg.  Felly, gallai'r ysgolion hyn fod wedi cael cymorth ychwanegol a byddent wedi cwblhau asesiadau'r Cyfnod Sylfaen cyn y cam cyflwyno terfynol. At ddibenion yr adroddiad hwn, cafodd y plant hynny a oedd yn mynychu lleoliadau Peilot a Dechrau'n Gynnar eu hepgor o'r dadansoddiad.

---

[54] Cynhyrchwyd y canlyniadau trwy gymharu'r disgyblion a oedd yn bresennol ar ddiwrnod y cyfrifiad (https://statswales.gov.wales/Catalogue/Education-and-Skills/Schools-and-Teachers/Schools-Census/Pupil-Level-Annual-School-Census/Pupils/pupilspresentcensusday-by-localauthorityregion-sector) ag amcangyfrifon ONS o'r boblogaeth (http://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/populationandmigration/populationestimates/bulletins/annualmidyearpopulationestimates/2015-06-25)

5.5. Ochr yn ochr â chyflwyno'r Cyfnod Sylfaen oedd newid yn y dulliau o asesu disgyblion ar ddiwedd Blwyddyn Ysgol 2 (saith oed). Roedd y rhai a aseswyd yn flaenorol yn ôl Cwricwlwm Cenedlaethol CA1 yn cael eu graddio ar un o chwe lefel, gan gynnwys gweithio tuag at Lefel 1, Lefel 1 ac yn y blaen, hyd at Lefel 5. Dyfarnwyd y graddau hyn ar gyfer Mathemateg, Gwyddoniaeth, Saesneg a Chymraeg. Yn ymarferol, dim ond nifer bach iawn o ddisgyblion a gyflawnodd Lefel 4 neu Lefel 5 erbyn diwedd Blwyddyn Ysgol 2. Cyflawnodd mwyafrif y disgyblion Lefel 2 ym mhob un o'r meysydd pwnc hyn, sef y lefel cyrhaeddiad a ddisgwylir gan ddisgyblion Blwyddyn 2.

5.6. Ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen, caiff disgyblion eu graddio ar un o saith lefel (gan gynnwys gweithio tuag at Ddeilliant 1, Deilliant 1 ac yn y blaen, hyd at Ddeilliant 6) ar gyfer meysydd o'r enw Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol; Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu; Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd, a Datblygiad Mathemategol. Mewn ysgolion cyfrwng Saesneg, caiff disgyblion eu hasesu yn unol â maes dysgu Datblygu'r Gymraeg[55]. Y lefel ddisgwyliedig ar gyfer plant Blwyddyn Ysgol 2 yw Deilliant 5. Mae'n ofyniad statudol yn unig i ysgolion lunio ac adrodd ar asesiadau'r Cyfnod Sylfaen ym meysydd Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol; Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu, a Datblygiad Mathemategol, ond mae rhai hefyd yn adrodd ar faes Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd.

5.7. Oherwydd y newidiadau hyn, mae'n anodd cymharu'r lefelau cyrhaeddiad gydag amser. Fodd bynnag, gellir ystyried bod Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu, Datblygiad Mathemategol a Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd yn cyfateb yn fras i Gymraeg/Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth[56]. Yn ogystal â hyn, roedd CA1 a'r CS yn cynnwys 'dangosydd sgiliau craidd' (DSC), sy'n datgan p'un ai a yw plentyn yn cyrraedd y lefel ddisgwyliedig ym mhob un o'i bynciau craidd, neu'n rhagori arni. Yn CA1, roedd y DSC yn cynnwys Mathemateg, Saesneg/Cymraeg a Gwyddoniaeth. Fodd bynnag, mae'r DSC ar gyfer y CS yn cynnwys Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu; Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol, a Datblygiad Mathemategol. Felly, nid ydynt yn asesu'r un pynciau nac yn defnyddio'r un dulliau addysgu neu asesu.

[55] http://gov.wales/docs/dcells/publications/150803-fp-framework-cy.pdf

[56] Mae Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd yn cynnwys amrywiaeth o weithgareddau a meysydd na fyddent wedi'u cynnwys yn y pwnc 'Gwyddoniaeth' traddodiadol. Fodd bynnag, Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd yw'r unig bwnc yn y Cyfnod Sylfaen sy'n cynnwys yr hyn a gynhwyswyd ym mhwnc 'Gwyddoniaeth' CA1, felly dyma'r unig gymharydd posibl. Fodd bynnag, nid yw'n faes y mae angen i ysgolion adrodd i Lywodraeth Cymru arno, felly mae nifer y plant yn y set ddata â deilliant ar gyfer Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd (14,804) yn is na Datblygiad Mathemategol (135,714) a Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu (Saesneg – 105,519 a Chymraeg – 30,195).

5.8. Gyda'r holl faterion hyn mewn cof, bydd y bennod hon yn ceisio asesu effaith byw mewn ardal Dechrau'n Deg ar gyrhaeddiad addysgol yn saith oed. Disgwylir y bydd cyrhaeddiad plant sy'n byw mewn ardaloedd Dechrau'n Deg pan fyddant yn saith oed yn is na phlant mewn ardaloedd nad ydynt yn ardaloedd Dechrau'n Deg. Fodd bynnag, mae'n bosibl bod ardaloedd Dechrau'n Deg wedi gwella o gymharu ag ardaloedd nad ydynt yn ardaloedd Dechrau'n Deg ers ei weithredu, gan fod tystiolaeth yn awgrymu bod addysg a gofal plant y blynyddoedd cynnar yn gallu cael effaith ar ddeilliannau addysgol pan fydd plant yn saith oed a thu hwnt[57].

**Lefelau Cyrhaeddiad**

5.9. Mae Tabl 5.1 yn dangos y lefelau cyrhaeddiad cyffredinol yn y DSC. Fel y disgwylir, mae cyfrannau is yn cyrraedd eu lefelau disgwyliedig ym mhob pwnc mewn ardaloedd Dechrau'n Deg. Yn ogystal â hyn, mae gan ardaloedd cyn ehangu gyfrannau is nag ardaloedd ar ôl ehangu, sy'n awgrymu bod y gwahaniaethau mewn amddifadedd rhwng yr ardaloedd hyn yn gysylltiedig â chyrhaeddiad. Fodd bynnag, mae'r gyfran sy'n cyflawni'r DSC yn cynyddu ar ôl cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen ac mae'r cynnydd hwn yn sylweddol fwy mewn ardaloedd Dechrau'n Deg cyn ei ehangu.

**Tabl 5.1. Lefelau cyfartalog cyrhaeddiad yn y DSC mewn ardaloedd nad ydynt yn ardaloedd Dechrau'n Deg ac mewn ardaloedd cyn ac ar ôl ehangu.**

| | Ardal nad yw'n Ardal Dechrau'n Deg | Ardal cyn ehangu | Ardal ar ôl ehangu |
|---|---|---|---|
| **Cyfnod Allweddol 1** | 84.5% | 70.6% | 76.1% |
| **Cyfnod Sylfaen** | 86.7% | 77.4% | 78.5% |

5.10. Mae Ffigur 4.1 yn dangos y lefelau cyrhaeddiad rhwng 2007 a 2015 ar gyfer y sgiliau craidd. Mae'r ffigurau hyn yn awgrymu nad yw'r lefelau cyrhaeddiad rhwng CA1 a'r CS yn wahanol iawn, ond mae newidiadau amlwg. Mae'r prif wahaniaeth i'w nodi yn y DSC; mae cyrhaeddiad yn disgyn tua dau bwynt canran rhwng y newid o CA1 i'r CS, ond yna mae'n gwella'n gynt o gymharu â CA1[58].

[57] http://www.ifs.org.uk/docs/ee_impact.pdf
[58] Gwelwyd y patrwm hwn hefyd yn y gwerthusiad o'r Cyfnod Sylfaen. Cymerodd athrawon amser i addasu i'r cynllun marcio newydd pan oedd mwy o fanylion yn y lefelau ar gael. Fe wnaeth athrawon 'ddal i fyny' â'r strwythur graddio newydd gydag amser, gan gyfrannu at welliannau mwy cyflym mewn cyrhaeddiad. Gweler http://gov.wales/docs/caecd/research/2015/150514-foundation-phase-final-cy.pdf


5.11. Mae nifer o esboniadau posibl am y gwelliant cymharol gyflym mewn cyrhaeddiad ar ôl cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen. Un o'r rhain yw gwelliant yng ngallu athrawon i weithredu'r cwricwlwm newydd a/neu weinyddu'r asesiadau ar ôl ei gyflwyno'n wreiddiol. Felly, wrth i athrawon ddod yn fwy abl, mae canlyniadau gwell i'w gweld gan y plant. Yn ogystal â hyn, mae'n bosibl bod cyflwyno'r Rhaglenni Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol[59] yn 2012/13 yn gwella cyrhaeddiad ymhlith plant ifanc. Efallai hefyd fod cymhelliant i ysgolion ddangos gwelliant ar ôl cyflwyno'r CS a'r Rhaglenni Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol, i ddangos eu bod yn cyflwyno'r cwricwlwm ac yn cyflawni'n dda o gymharu â thargedau gosod.

5.12. Pwynt allweddol arall o Ffigur 5.1 yw bod ardaloedd Dechrau'n Deg wedi gwella'n gynt nag ardaloedd nad ydynt yn ardaloedd Dechrau'n Deg ar ôl gweithredu'r Cyfnod Sylfaen. Mae hyn yn amlygu un o brif heriau gwerthuso Dechrau'n Deg o ran ei effeithiau ar gyrhaeddiad addysgol: roedd cyflwyno Dechrau'n Deg yn yr ardaloedd cyn ehangu yn 2007/08 yn golygu y byddai'r garfan gyntaf o blant a allai fod wedi derbyn dwy flynedd neu ragor o ddarpariaethau Dechrau'n Deg wedi cael ei hasesu yn 2011/12, h.y. yr un garfan a oedd y cyntaf i gael ei hasesu gan ddefnyddio asesiadau newydd y CS. Fodd bynnag, gan fod plant ym mhob ardal wedi derbyn y CS a dim ond y rhai mewn ardaloedd Dechrau'n Deg wedi derbyn darpariaethau Dechrau'n Deg, mae'n bosibl gwahaniaethu o hyd rhwng effeithiau byw mewn ardal Dechrau'n Deg ac effeithiau'r CS[60].

[59] http://learning.gov.wales/resources/browse-all/nlnf/?skip=1&lang=cy

[60] Mae hyn yn rhagdybio bod effaith y Cyfnod Sylfaen ar gyrhaeddiad yn gyson rhwng ardaloedd Dechrau'n Deg ac ardaloedd nad ydynt yn ardaloedd Dechrau'n Deg. Mae ysgolion mewn ardaloedd Dechrau'n Deg yn fwy tebygol o fod wedi cael dyraniadau uwch o'r Grant Amddifadedd Disgyblion, a bydd angen cyfrif am hyn yn y dadansoddiad

**Ffigur 5.1. Y gyfran gyfartalog yn cyrraedd y lefel ddisgwyliedig ar gyfer Sgiliau Craidd mewn ardaloedd nad ydynt yn ardaloedd Dechrau'n Deg ac mewn ardaloedd cyn ac ar ôl ehangu.** **(Mae labeli'r data ar gyfer ardaloedd nad ydynt yn ardaloedd Dechrau'n Deg ac ardaloedd cyn ehangu. Mae'r bwlch yn dangos y newid o CA1 i'r CS)**




5.13. Fel y dywedwyd eisoes, y lefel ddisgwyliedig ar gyfer plant Blwyddyn Ysgol 2 oedd Lefel 2 yn CA1 a Deilliant 5 yn y CS. Y bwriad yn ystod cyflwyno'r CS oedd y byddai Lefel 2 yn CA1 yn gyfwerth â Deilliant 5 yn y CS. Fodd bynnag, mae'r gwerthusiad o'r CS yn awgrymu mai bach iawn o gysondeb oedd ar draws y ddwy gyfundrefn asesu sy'n golygu ei bod hi'n anodd cymharu lefelau cyflawniad yn y CS â'r rhai yn CA1[61]. Gyda hyn mewn golwg, byddai'n amhriodol cymharu cyrhaeddiad gydag amser yn y gwahanol ardaloedd. Yn hytrach, bydd y dadansoddiad yn canolbwyntio ar y gwahaniaeth rhwng ardaloedd Dechrau'n Deg a'r rhai nad ydynt yn ardaloedd Dechrau'n Deg yn ystod naill ai asesiadau CA1 neu asesiadau'r CS.

**Gwahaniaethau Demograffig**


5.14. Mae canlyniadau'n awgrymu bod cyrhaeddiad merched, plant gwyn Prydeinig, plant nad ydynt yn gymwys ar gyfer PYDd neu blant heb anghenion addysgol arbennig yn well yn gyffredinol na'u grwpiau cymharu. Hefyd, roedd cyrhaeddiad plant a oedd yn byw mewn ardaloedd Dechrau'n Deg yn waeth na'r rhai a oedd yn byw mewn ardaloedd nad ydynt yn ardaloedd Dechrau'n Deg, cyn ac ar ôl cyflwyno'r CS. Roedd plant a oedd yn byw mewn ardaloedd mwy amddifad hefyd yn fwy tebygol o fod â chyrhaeddiad is na'r rhai mewn ardaloedd llai amddifad.

[61] http://gov.wales/docs/caecd/research/2015/150514-foundation-phase-final-cy.pdf

5.15. Roedd y gwahaniaeth mwyaf rhwng plant ag AAA a phlant heb AAA; roedd plant ag AAA tua hanner mor debygol o gyflawni'r DSC â phlant heb AAA. Roedd effaith AAA yn ymddangos yn fwy fyth mewn ardaloedd Dechrau'n Deg, gyda'r lefel cyrhaeddiad cyfartalog ar ôl cyflwyno'r CS yn 92.7 y cant ymhlith plant heb AAA ac yn 48.2 y cant ymhlith plant ag AAA; mae bron hanner cymaint o blant ag AAA yn cyflawni'r DSC mewn ardaloedd Dechrau'n Deg o gymharu â phlant heb AAA. Fodd bynnag, dylid nodi bod y gwahaniaeth rhwng plant ag AAA a phlant heb AAA yn gostwng gydag amser ym mhob ardal.


5.16. Er bod y cyrhaeddiad cyfartalog ar gyfer plant heb AAA yn gymharol gyson, roedd y rhai ag AAA yn gwella, yn enwedig ers y newid i'r CS. Fodd bynnag, un peth allweddol i'w nodi yw yr oedd lefelau cyrhaeddiad plant heb AAA mewn ardaloedd nad ydynt yn ardaloedd Dechrau'n Deg ac yn yr ardaloedd cyn ei ehangu yn uchel iawn, sef bron 100 y cant ar gyfer y ddwy ardal yn 2014/15.

**Ffigur 5.2. Y gyfran gyfartalog sy'n cyrraedd y lefel ddisgwyliedig ar gyfer Sgiliau Craidd mewn ardaloedd nad ydynt yn ardaloedd Dechrau'n Deg ac mewn ardaloedd cyn ehangu, wedi'i rhannu yn ôl y rhai sydd ag Anghenion Addysgol Arbennig a'r rhai heb AAA**





5.17. Hefyd, ymddengys fod gwahaniaeth mewn effaith amddifadedd rhwng ardaloedd Dechrau'n Deg ac ardaloedd nad ydynt yn ardaloedd Dechrau'n Deg, ond ym mhob ardal, mae'r cyrhaeddiad cyfartalog (fel y'i dangosir gan gymhwysedd ar gyfer PYDd ac amddifadedd incwm ardal) yn is i blant mwy amddifad. Fel y mae Ffigur 5.3 yn dangos, er bod gwelliant mewn cyrhaeddiad ar ôl cyflwyno'r CS, mae'r gwahaniaeth rhwng yr ardaloedd mwy a llai amddifad yn cynyddu. Cyn ei gyflwyno, y gwahaniaeth rhwng ardaloedd mwy a llai amddifad Dechrau'n Deg oedd 5.6 pwynt canran a'r gwahaniaeth ar ôl ei gyflwyno oedd 8.6 pwynt canran; dyma gynnydd o fwy na 50 y cant.

**Ffigur 5.3. Y gyfran gyfartalog sy'n cyrraedd y lefel ddisgwyliedig ar gyfer Sgiliau Craidd mewn ardaloedd cyn ehangu yn unig, wedi'i rhannu yn ôl y rhai yn y chwarteli amddifadedd incwm uchaf neu isaf.**




5.18. Mae Ffigur 5.4 yn dangos cyfradd y newid mewn cyrhaeddiad ar gyfer y plant yr oeddent ac nad oeddent yn gymwys ar gyfer PYDd mewn ardaloedd Dechrau'n Deg ac ardaloedd nad ydynt yn ardaloedd Dechrau'n Deg. Mae hyn yn dangos bod y plant a oedd yn gymwys ar gyfer PYDd yn y naill ardal neu'r llall, neu nad oeddent yn gymwys ac mewn ardal Dechrau'n Deg, yn gwella ar yr un gyfradd ar ôl cyflwyno'r CS. Roedd y plant hynny nad oeddent mewn ardaloedd Dechrau'n Deg ac nad oeddent yn gymwys ar gyfer PYDd yn gwella'n arafach.

**Ffigur 5.4. Y gyfran gyfartalog sy'n bodloni'r lefel ddisgwyliedig ar gyfer Sgiliau Craidd mewn ardaloedd nad ydynt yn ardaloedd Dechrau'n Deg ac mewn ardaloedd cyn ehangu, wedi'i rhannu yn ôl y rhai sy'n gymwys ac nad ydynt yn gymwys ar gyfer Prydau Ysgol am Ddim**



5.19. Mae hyn yn awgrymu bod y plant ar aelwydydd mwy amddifad yn gwella'n gynt nag aelwydydd llai amddifad. Gallai nifer o ffactorau fod yn gyfrifol am y canlyniadau hyn, gan gynnwys Dechrau'n Deg, y Cyfnod Sylfaen neu'r Grant Amddifadedd Disgyblion, neu efallai bod y plant yn y grwpiau llai difreintiedig eisoes ar lefel uchel ac, felly, bod llai o le ganddynt i wella.

5.20. Mae hyn yn groes i'r canlyniadau a ddangosir yn Ffigur 5.3, sy'n awgrymu bod ardaloedd llai amddifad yn gwella'n gynt nag ardaloedd mwy amddifad. Fodd bynnag, mae'r ffigur hwn yn dangos y cyrhaeddiad cyfartalog naill ai cyn neu ar ôl cyflwyno'r CS dros gyfnod pedair blynedd, felly nid oes modd ei gymharu'n uniongyrchol. Gallai'r gwahaniaeth rhwng y ffigurau hyn hefyd amlygu'r effeithiau ar lefel aelwyd ac ardal. Mewn ardaloedd Dechrau'n Deg, mae'r rhai ar aelwydydd amddifad yn gwella'r un mor gyflym â'r rhai ar aelwydydd llai amddifad, ond mae'n ymddangos hefyd fod cyrhaeddiad y rhai mewn ardaloedd mwy amddifad yn is na'r rhai mewn ardaloedd llai amddifad.

**Dadansoddiad**

5.21. Oherwydd cyflwyno'r CS, gwnaed y dadansoddiad yn wahanol i'r dadansoddiad ar gyfer absenoldeb. Rhannwyd y modelau atchwel fel eu bod yn cynnwys blynyddoedd CA1 neu'r CS yn unig ac fe wnaeth y modelau gynnwys presenoldeb fel newidyn eglurhaol. Mae Tabl 5.2 yn rhoi'r allbynnau ar gyfer y gwahanol fodelau ac mae'n awgrymu mai prin yw'r cysylltiad rhwng byw mewn ardal Dechrau'n Deg a chyrhaeddiad addysgol, ar ôl ystyried lefelau amddifadedd, presenoldeb a nodweddion unigol; mae gan ffactorau fel presenoldeb ac AAA gysylltiad cryf iawn â chyrhaeddiad. Mae'r canlyniadau hyn hefyd yn awgrymu bod y cysylltiad rhwng byw mewn ardal cyn ehangu a chyrhaeddiad addysgol yn gostwng gydag amser ac yn sgil cyflwyno'r CS.

**Tabl 5.2. Allbynnau'r modelau atchwel ar gyfer cyrhaeddiad mewn sgiliau craidd mewn ardaloedd nad ydynt yn ardaloedd Dechrau'n Deg ac mewn ardaloedd cyn ac ar ôl ehangu**

| | CA1 (07-11) | CS (12-15) |
|---|---|---|
| Ardal cyn ehangu | -0.15 | -0.08 |
| Ardal ar ôl ehangu | 0.02 | 0.02 |
| Benywaidd | 0.26 | 0.29 |
| Gwyn Prydeinig | 0.00 | -0.04 |
| Cymwys ar gyfer PYDd | -0.51 | -0.52 |
| AAA | -2.81 | -2.85 |
| Amddifadedd incwm | -0.26 | -0.33 |
| Diwrnodau yn Bresennol | 4.69 | 4.52 |

5.22. Nid oes newidyn cymhwysedd ar gyfer Dechrau'n Deg wedi'i gynnwys yn y modelau hyn, oherwydd y plant cyntaf i'w hasesu o dan y CS hefyd oedd y grŵp cyntaf o blant yn yr ardaloedd cyn ehangu a allai fod wedi bod yn gymwys ar gyfer dwy flynedd neu ragor o ddarpariaethau Dechrau'n Deg. Felly, dylid rhagdybio nad oedd pawb yn yr ardaloedd cyn ehangu yn gymwys pan gawsant eu hasesu o dan CA1 a'u bod o bosibl yn gymwys pan gawsant eu hasesu o dan y CS. Felly, mae'n amhosibl gwahanu effeithiau cyflwyno'r CS rhag effeithiau Dechrau'n Deg.

5.23. Mae'n ymddangos bod y ddau fodel yn rhagfynegi'r canlyniad gwirioneddol yn gywir a'r gwahaniaeth cyfartalog rhwng y canlyniadau a ragfynegwyd a'r cyrhaeddiad gwirioneddol yw 1.34 y cant; gweler Atodiad D am gymariaethau rhwng cyrhaeddiad gwirioneddol a chyrhaeddiad wedi'i ragfynegi. Hefyd, y gwerthoedd ffug R wedi'u sgwario[62] yw 0.356 ar gyfer model CA1 a 0.339 ar gyfer model y CS, sy'n uwch o lawer na'r gwerthoedd a ddarganfuwyd ar gyfer yr un o'r mesurau absenoldeb ac, felly, gellir ystyried bod y modelau atchwel yn cydweddu â'r data yn dda.

[62] Gweler yr adran ar absenoldeb

5.24. Yn ôl y dadansoddiad atchwel, er bod mân gyswllt rhwng byw mewn ardal Dechrau’n Deg a chyrhaeddiad addysgol, mae defnyddio paru sgorau tueddiad yn caniatáu am brofi effaith bosibl byw mewn ardal Dechrau’n Deg yn fwy trylwyr. Gellir paru plant ym mhob un o’r tair ardal (ardaloedd nad ydynt yn ardaloedd Dechrau’n Deg ac ardaloedd cyn ac ar ôl ehangu Dechrau’n Deg) yn ôl eu nodweddion unigol a nodweddion ardal i bennu a oes gan blant â’r un nodweddion, ond sydd mewn ardaloedd gwahanol, ddeilliannau gwahanol.

5.25. Os yw Dechrau’n Deg yn cael effaith gadarnhaol ar gyrhaeddiad addysgol, y canlyniadau disgwyliedig fyddai cyrhaeddiad uwch mewn ardaloedd cyn ehangu, o gymharu ag ardaloedd nad ydynt yn ardaloedd Dechrau’n Deg, ar ôl gweithredu’r rhaglen. Byddai disgwyl hefyd i gyrhaeddiad fod yn is mewn ardaloedd Dechrau’n Deg cyn gweithredu.

5.26. Prin iawn o gefnogaeth i’r canlyniadau a ragdybiwyd sydd gan y canlyniadau yn Nhabl 5.3. Mae gan yr ardaloedd cyn ehangu sgorau gwaeth nag ardaloedd nad ydynt yn ardaloedd Dechrau’n Deg, ond nid yw’r gwahaniaethau yn arwyddocaol. Hefyd, mae’n ymddangos bod canlyniadau’r ardaloedd ar ôl ehangu yn dirywio o gymharu â’r ardaloedd nad ydynt yn ardaloedd Dechrau’n Deg ond, eto, nid yw’r gwahaniaethau yn arwyddocaol. Mae hyn yn awgrymu nad yw byw mewn ardal Dechrau’n Deg yn effeithio’n arwyddocaol ar gyrhaeddiad addysgol ar ei ben ei hun ac mai ffactorau eraill sy’n gyfrifol am y gwahanol lefelau cyrhaeddiad yn yr ardaloedd hyn.

5.27. Mae’r canlyniadau o’r dadansoddiad atchwel a pharu sgorau tueddiad yn awgrymu nad yw byw mewn ardal Dechrau’n Deg yn cael effaith ar gyrhaeddiad addysgol, un ai’n gadarnhaol neu’n negyddol. Fodd bynnag, fel y dywedwyd eisoes, mae’r newid o CA1 i CS yn ei gwneud hi’n anodd iawn dod i unrhyw gasgliadau am effaith Dechrau’n Deg, felly dylid ystyried y canlyniad hwn yn ofalus.

**Tabl 5.3. Deilliannau Paru Sgorau Tueddiad yn cymharu plant mewn ardaloedd Dechrau'n Deg cyn ei ehangu â'r rhai nad ydynt mewn ardaloedd Dechrau'n Deg ar gyfer y cyfnodau cyn (07-09), yn ystod (10-12) ac ar ôl (13-15) gweithredu a, hefyd, yn cymharu plant a allai fod yn gymwys ar gyfer darpariaeth Dechrau'n Deg â'r rhai mewn ardaloedd Dechrau'n Deg cyn ehangu, na fyddent wedi gallu derbyn y ddarpariaeth**

| | Rhwng ardaloedd Dechrau'n Deg cyn ei ehangu ac ardaloedd nad ydynt yn rhai Dechrau'n Deg | |
|---|---|---|
| | **CA1 (07-11)** | **CS (12-15)** |
| **Cyn ehangu vs dim Dechrau'n Deg** | -0.65% | -0.82% |
| **Ar ôl ehangu vs dim Dechrau'n Deg** | 0.72% | -0.89% |

* mae'n dynodi arwyddocâd ystadegol hyd at lefel 0.01

# 6. Anghenion Addysgol Arbennig

6.1. Dangoswyd bod anghenion addysgol arbennig (AAA) yn gysylltiedig ag absenoldeb a deilliannau addysgol gwaeth yn gyson. Yn ogystal, mae lefel uwch o AAA mewn ardaloedd Dechrau'n Deg, sy'n cyd-fynd â thystiolaeth sy'n awgrymu bod plant mewn ardaloedd amddifad yn fwy tebygol o fod ag anawsterau iaith a chyfathrebu[63]. Mae'r dadansoddiad a ddisgrifiwyd hyd yn hyn yr adroddiad hwn wedi defnyddio AAA yn fodd o esbonio gwahaniaethau rhwng deilliannau plant. Fodd bynnag, mae'n bosibl defnyddio AAA fel mesur deilliannau hefyd, h.y. beth yw effaith byw mewn ardal Dechrau'n Deg ar y tebygolrwydd o nodi bod ganddynt AAA yn yr ysgol?

6.2. Mae AAA yn cael eu nodi trwy amryw ffyrdd, fel athrawon, rhieni neu weithwyr gofal iechyd proffesiynol. Yna, caiff plant ag AAA asesiad i bennu difrifoldeb eu hanghenion. Gall hyn arwain at nifer o ddeilliannau, yn dibynnu ar lefel y cymorth y mae ei hangen arnynt. Y lefel isaf o gymorth yw Gweithredu gan yr Ysgol, yna gall hyn godi i Weithredu gan yr Ysgol a Mwy a Datganiad o Anghenion, sef y lefel cymorth mwyaf dwys[64]. Mae arweiniad clir ar sut y dylai ysgolion weithredu'r broses hon, felly mae'n gyson ar draws Cymru[65].

6.3. Mae rhywfaint o dystiolaeth sy'n awgrymu bod ymyriadau cynnar yn gallu lleihau'r tebygolrwydd o nodi bod AAA gan blant trwy wella sgiliau cymdeithasol a hyder[66]. Gall gofal plant o ansawdd uchel (fel y mae Dechrau'n Deg yn ei ddarparu) gael effeithiau cadarnhaol ar ddatblygiad gwybyddol a chymdeithasol/ymddygiadol plant[67], a allai yn ei dro leihau'r tebygolrwydd y bydd plant yn datblygu anawsterau dysgu neu ymddygiadol yn yr ysgol. Caiff yr awgrym hwn ei gefnogi trwy ddefnyddio ymyriadau'r blynyddoedd cynnar; darganfuwyd bod y rhain yn effeithiol o ran gostwng problemau ymddygiad ymhlith plant tair i bump oed[68].

---

63 https://www.rcslt.org/governments/docs/all_party_parliamentary_group_on_slcn_inquiry_report
64 Gweler Paragraff 1.18
65 http://gov.wales/docs/dcells/publications/111221senbestpraccy.pdf
66 https://www.nao.org.uk/wp-content/uploads/2004/02/268_literaturereview.pdf
67 http://dera.ioe.ac.uk/18189/97/SSU-FR-2004-01_Redacted.pdf
68 http://www.bmj.com/content/bmj/334/7595/678.full.pdf

6.4. Mae amddifadedd aelwydydd wedi'i gysylltu ag anhwylderau ymddygiadol ac ymddygiad plant hefyd[69]. Dros y 40 mlynedd diwethaf, mae problemau ymddygiad ac emosiynol wedi dod yn fwy cyffredin ymhlith plant o gefndiroedd statws economaidd gymdeithasol isel, o gymharu â phlant o gefndiroedd statws economaidd gymdeithasol uchel. Er nad oes dealltwriaeth dda o'r rhesymau dros y dargyfeirio hwn, gall effeithiau negyddol yr anhwylderau hyn fod yn hirhoedlog a pharhau i oedolaeth. Mae hyn yn golygu y gallai nodi'r plant hyn a phlant o gefndiroedd statws economaidd gymdeithasol isel a darparu cymorth ychwanegol fod yn arbennig o fuddiol wrth ostwng cyffredinolrwydd AAA.

6.5. Prif nodau Dechrau'n Deg yw nodi'n gynnar ac ymyrraeth gynnar. Fel yr awgrymwyd uchod, gall ymyrraeth gynnar helpu i ostwng y tebygolrwydd y bydd plentyn yn datblygu anawsterau cymdeithasol, ymddygiadol neu wybyddol ac, felly, ostwng ei angen am gymorth ychwanegol. Gallai nodi'r anawsterau hyn yn gynnar arwain at fwy o debygolrwydd o nodi bod gan blentyn AAA a'i fod yn cael cymorth ychwanegol yn yr ysgol.

6.6. Gan fod plant sy'n byw mewn ardaloedd Dechrau'n Deg yn cael cymorth ychwanegol i'w helpu gyda'u datblygiad ac mae eu datblygiad yn cael ei fonitro'n agosach gan ymwelwyr iechyd, mae'n bosibl i nifer cyfan y plant ag AAA yn yr ardaloedd hyn gynyddu. Mae'r canllawiau ar leferydd, iaith a chyfathrebu[70] ar gyfer gweithwyr iechyd mewn ardaloedd Dechrau'n Deg yn disgrifio sut mae angen cynllunio a chyd-drefnu'r symud i'r ysgol yn ofalus ar gyfer plant ag oedi datblygiadol posibl. Os yw'r asesiadau iechyd yn nodi bod gan blentyn oedi datblygiadol, mae'r plentyn yn debygol o ddechrau'r ysgol gyda chynllun AAA ar waith o ganlyniad[71]. Felly, gellir dehongli bod lefel uwch o AAA mewn ardaloedd Dechrau'n Deg oherwydd bod cyfran uwch o blant â phroblemau datblygiadol, neu fod mwy o siawns y bydd y rhai â phroblemau datblygiadol yn cael eu nodi'n blant sydd angen cymorth.

[69] https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/528315/The_childhood_origins_of_social_mobility.pdf
[70] http://gov.wales/docs/dsjlg/publications/cyp/150529-guidance-on-speech-en.pdf
[71] Mae hyn yn debygol o gynnwys tynnu'r plant hyn i sylw Cydlynydd Anghenion Arbennig yr ysgol ac felly bydd pob plentyn yn dechrau'r ysgol gyda chynllun AAA ar waith (yn hytrach nag aros i gael ei nodi'n ddiweddarach yn ystod ei gyfnod yn yr ysgol neu, efallai, fethu â chael ei nodi o gwbl).

6.7. Gyda hyn mewn cof, nid yw'r gwerthusiad canlynol yn rhagfynegi o gwbl pa newidiadau a fydd yn digwydd o ganlyniad i Dechrau'n Deg. Yn hytrach, bydd yn archwilio'r ffactorau sy'n dylanwadu ar nodi AAA, ac a yw plant mewn ardaloedd Dechrau'n Deg yn fwy neu'n llai tebygol o fod ag anghenion ychwanegol sydd wedi'u nodi. Mae'n bwysig pwysleisio na ddylai lefelau is o AAA gael eu hystyried yn ddeilliannau cadarnhaol; gellid ystyried bod methu â nodi plant ag anghenion ychwanegol yn llai dymunol na nifer uwch o blant ag anghenion ychwanegol (a bod hynny wedi'i nodi ar eu cyfer).

6.8. Pan ddefnyddiwyd AAA yn ffactor eglurhaol ar gyfer naill ai presenoldeb neu gyrhaeddiad, nodwyd bod gan blant rhyw fath o AAA neu ddim. Fodd bynnag, mae sawl math o AAA, rhai ohonynt yn fwy cyffredin nag eraill. Mae Tabl 6.1 yn dangos cyfran y plant ym mhob ardal â gwahanol fathau o AAA. Er mwyn hwyluso'r dadansoddiad, mae'r anghenion penodol wedi'u grwpio yn ôl eu nodweddion. Mae Tabl 6.2 yn dangos pa anghenion sydd wedi'u cynnwys ym mhob grŵp.

**Tabl 6.1. Anghenion addysgol arbennig cyfartalog mewn ardaloedd nad ydynt yn ardaloedd Dechrau'n Deg ac mewn ardaloedd Dechrau'n Deg cyn ac ar ôl ehangu.**

| | Ardal nad yw'n ardal Dechrau'n Deg | Ardal cyn ehangu | Ardal ar ôl ehangu |
|---|---|---|---|
| **Unrhyw AAA** | 18.98% | 31.65% | 29.02% |
| **Anawsterau Dysgu** | 8.58% | 14.42% | 13.71% |
| **Anawsterau Ymddygiadol, Emosiynol a/neu Gymdeithasol** | 2.48% | 4.79% | 4.26% |
| **Anawsterau Iaith, Lleferydd a/neu Gyfathrebu** | 5.34% | 9.20% | 8.20% |
| **Namau ar y Synhwyrau** | 0.66% | 0.85% | 0.68% |
| **Cyflyrau Meddygol a/neu Gorfforol** | 1.08% | 1.46% | 1.22% |
| **Anhwylderau wedi'u Diagnosio** | 0.83% | 0.91% | 0.95% |

6.9. Mae Tabl 6.1 yn dangos mai'r mathau mwyaf cyffredin o AAA yw anawsterau dysgu; anawsterau ymddygiadol, emosiynol a/neu gymdeithasol; ac anawsterau iaith, lleferydd a/neu gyfathrebu. Mae'r tabl hefyd yn dangos bod pob un o'r tri grŵp AAA hyn yn fwy cyffredin mewn ardaloedd Dechrau'n Deg. Mae'r tri grŵp arall hefyd yn dangos yr un duedd, ond mae cyfran y plant â'r anawsterau hynny yn is o lawer. O ystyried mai nifer bach o blant fyddai i'w gweld yn y grwpiau hyn, bydd gweddill y bennod hon yn eu hepgor o'r dadansoddiad. Yn hytrach, bydd y dadansoddiad yn canolbwyntio ar blant ag unrhyw fath o AAA, a'r rhai ag anawsterau dysgu; anawsterau ymddygiadol, emosiynol a/neu gymdeithasol; neu anawsterau iaith, lleferydd a/neu gyfathrebu.


**Tabl 6.2. Yr anghenion penodol sydd wedi'u cynnwys ym mhob grŵp AAA**

| | |
|---|---|
| **Anawsterau Dysgu** | Anawsterau dysgu cyffredinol, Anawsterau dysgu cymedrol, Anawsterau dysgu dwys a lluosog, Anawsterau dysgu difrifol, Anawsterau dysgu penodol, Dyscalcwlia, Dyslecsia, Dyspracsia |
| **Anawsterau Ymddygiadol, Emosiynol a/neu Gymdeithasol** | Anawsterau ymddygiadol, emosiynol a chymdeithasol, Anawsterau ymddygiadol ac emosiynol |
| **Anawsterau Iaith, Lleferydd a/neu Gyfathrebu** | Anawsterau iaith, lleferydd a chyfathrebu, |
| **Namau ar y Synhwyrau** | Nam ar y clyw, Nam amlsynnwyr, Nam ar y golwg |
| **Cyflyrau Meddygol a/neu Gorfforol** | Anawsterau meddygol, Anableddau corfforol, Anawsterau corfforol a meddygol |
| **Anhwylderau wedi'u Diagnosio** | Anhwylder Diffyg Canolbwyntio a Gorfywiogrwydd, Anhwylderau ar y Sbectrwm Awtistig |

### Lefelau AAA


6.10. Mae'r lefelau AAA wedi bod yn weddol sefydlog dros yr wyth blynedd diwethaf, gyda chynnydd o 0.08 pwynt canran yn unig mewn ardaloedd Dechrau'n Deg cyn ei ehangu, tra bu cynnydd ychydig yn uwch mewn ardaloedd nad ydynt yn ardaloedd Dechrau'n Deg, gyda chynnydd o 1.56 pwynt canran neu 8.4 y cant (gweler Ffigur 6.1a). Fodd bynnag, wrth archwilio'r gwahanol grwpiau AAA, mae patrwm gwahanol o ganlyniadau. Mae Ffigurau 6.1b i 6.1d yn dangos bod lefelau anawsterau dysgu wedi gostwng, ond mae lefelau anawsterau ymddygiadol, emosiynol a/neu gymdeithasol, ac anawsterau iaith, lleferydd a/neu gyfathrebu, wedi cynyddu. Mae'r tueddiadau ym mhob un o'r grwpiau hyn yn ymddangos yn debyg rhwng ardaloedd Dechrau'n Deg ac ardaloedd nad ydynt yn ardaloedd Dechrau'n Deg, gydag ychydig o gydgyfeirio rhwng ardaloedd ar gyfer anawsterau dysgu. Fodd bynnag, dylid nodi bod y ffordd o gofnodi a chodio AAA wedi newid yn ystod y cyfnod gwerthuso[72].

**Ffigur 6.1a. Cyfran gyfartalog y plant ag unrhyw anghenion addysgol arbennig mewn ardaloedd nad ydynt yn ardaloedd Dechrau'n Deg ac mewn ardaloedd cyn ac ar ôl ehangu.** **(Mae labeli'r data ar gyfer ardaloedd nad ydynt yn ardaloedd Dechrau'n Deg ac ardaloedd Dechrau'n Deg cyn ehangu)**





[72] Rhwng 2007 a 2015, mae codio anawsterau dysgu wedi newid felly rhoddwyd y gorau i'r categori 'anawsterau dysgu penodol' yn 2011. Yn hytrach, cafodd ei rannu yn ôl yr anghenion penodol gwirioneddol, h.y. dyslecsia, dyscalcwlia, dyspracsia ac anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd. Ar yr un pryd, cyflwynwyd categori newydd 'anawsterau dysgu cyffredinol' i ddisgrifio plentyn ag angen dysgu, lle nad oedd y difrifoldeb yn hysbys eto. Arweiniodd hyn at gwymp sydyn yn nifer y plant ag 'anawsterau dysgu cymedrol' ar ôl 2011, gyda chod 'anawsterau cyffredinol' yn cael ei roi i lawer ohonynt erbyn hyn.


**Ffigur 6.1b. Cyfran gyfartalog y plant ag anawsterau dysgu mewn ardaloedd nad ydynt yn ardaloedd Dechrau'n Deg ac mewn ardaloedd cyn ac ar ôl ehangu**




**Ffigur 6.1c. Cyfran gyfartalog y plant ag anawsterau ymddygiadol, emosiynol a/neu gymdeithasol mewn ardaloedd nad ydynt yn ardaloedd Dechrau'n Deg ac mewn ardaloedd cyn ac ar ôl ehangu**



**Ffigur 6.1d. Cyfran gyfartalog y plant ag anawsterau iaith, lleferydd a/neu gyfathrebu mewn ardaloedd nad ydynt yn ardaloedd Dechrau'n Deg ac mewn ardaloedd cyn ac ar ôl ehangu**




### Gwahaniaethau Demograffig

6.11. Ar gyfer pob math o AAA sydd wedi'i gynnwys, mae'n ymddangos bod rhywedd yn chwarae rhan bwysig wrth bennu a oes AAA gan blentyn. Mewn ardaloedd Dechrau'n Deg ac ardaloedd nad ydynt yn ardaloedd Dechrau'n Deg, mae bechgyn tua dwywaith yn fwy tebygol o fod ag AAA ac mae hynny'n codi i bron teirgwaith yn fwy tebygol yn achos anawsterau ymddygiadol, emosiynol a/neu gymdeithasol. Mae amddifadedd yn dangos effaith debyg hefyd, gyda phlant sy'n gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim dros ddwywaith yn fwy tebygol o fod â rhyw fath o AAA. Fodd bynnag mae'n ymddangos bod y gwahaniaeth rhwng y rhai sy'n gymwys ar gyfer PYDd a'r rhai nad ydynt yn llai ar gyfer ardaloedd Dechrau'n Deg ac yn fwy ar gyfer ardaloedd nad ydynt yn ardaloedd Dechrau'n Deg. Mae hyn yn awgrymu rhyngweithio rhwng amddifadedd a Dechrau'n Deg. Gweler Atodiad E am ddadansoddiadau manwl o'r gwahaniaethau yn ôl nodweddion gwahanol.

6.12. Mae effaith ethnigrwydd yn ymddangos yn gymharol fechan, ond ychydig yn uwch mewn ardaloedd Dechrau'n Deg. Mae'r gwahaniaeth hwn rhwng ardaloedd yn fwy fyth ar gyfer anawsterau dysgu, ond mae bron yn diflannu ar gyfer anawsterau ymddygiadol, emosiynol a/neu gymdeithasol. Yn achos anawsterau iaith, lleferydd a/neu gyfathrebu, nid yw'n ymddangos bod ethnigrwydd yn cael fawr o effaith, ond mae amddifadedd a rhywedd yn fwy dylanwadol.

6.13. Ffactor ychwanegol i'w ystyried yw'r flwyddyn ysgol pan nodwyd bod AAA gan y plentyn. Gallai'r asesiadau datblygiadol ychwanegol a'r gofal plant a ddarperir i blant mewn ardaloedd Dechrau'n Deg gynyddu'r tebygolrwydd o nodi AAA yn gynt yn ystod addysg y plentyn. Mae Tabl 6.3 yn dangos cyfran y plant y nodir bod ganddynt AAA ym mhob grŵp blwyddyn ysgol gydag amser. Ym mhob ardal, mae'r gyfran y nodir bod ganddynt AAA yn y dosbarth Derbyn yn cynyddu gydag amser. Fodd bynnag, er bod cyfran y plant ym Mlwyddyn Ysgol 2 y nodir bod ganddynt AAA yn parhau'n sefydlog mewn ardaloedd nad ydynt yn ardaloedd Dechrau'n Deg, mae'n gostwng yn yr ardaloedd cyn ac ar ôl ehangu.

6.14. I archwilio hyn ymhellach, mae Ffigur 6.2 yn dangos cyfran y plant ag AAA ym Mlwyddyn Ysgol 2 a nodwyd yn y grŵp blwyddyn Derbyn. Fel y gwelir, roedd y cyfrannau yn debyg iawn cyn gweithredu Dechrau'n Deg. Fodd bynnag, ar ôl ei weithredu, roedd plant ag AAA yn fwy tebygol o gael eu nodi yn y grŵp blwyddyn Derbyn os oeddent yn byw mewn ardal cyn ehangu.


6.15. Mae'r canlyniadau a ddangosir yn Nhabl 6.4 ac yn Ffigur 6.2 yn awgrymu bod cyfran y plant sy'n cael eu nodi yn y grŵp blwyddyn Derbyn yn cynyddu mewn perthynas â chyfanswm nifer y plant y nodir bod ganddynt AAA. Dyma ddarganfyddiad cadarnhaol, oherwydd gall plant gael mwy o gefnogaeth yn sgil eu nodi'n gynt. Fodd bynnag, er bod cyfanswm cyfran y plant y nodir bod ganddynt AAA mewn ardaloedd nad ydynt yn ardaloedd Dechrau'n Deg yn cynyddu, mae'r lefelau mewn ardaloedd cyn ac ar ôl ehangu wedi aros yn gyson. Mae hyn yn awgrymu bod Dechrau'n Deg yn llwyddo i nodi plant yn gynnar a rhoi'r cymorth angenrheidiol iddynt i leddfu effeithiau unrhyw anghenion a nodwyd.

6.16. Rhoddir yr un darpariaethau i bob plentyn mewn ardaloedd Dechrau'n Deg, felly gellir rhagdybio bod yr un asesiadau datblygiadol a wneir gan ymwelwyr iechyd pan fydd y plant yn ddwy a thair oed ar gael yn gyfartal iddynt. Yr asesiadau hyn sy'n gallu arwain at nodi oedi datblygiadol ac, o ganlyniad, effeithio ar ba mor debygol y bydd hi o nodi bod gan y plentyn AAA yn yr ysgol. Fodd bynnag, mae data monitro Dechrau'n Deg yn casglu cyfran y plant cymwys sy'n cwblhau asesiad ar lefel yr awdurdod lleol ac er nad oes manylder yn y data hwn ar gyfer dod i gasgliadau pendant am gyfraddau asesu unigol, roedd y gyfradd asesu ychydig yn uwch yn yr ardaloedd lle'r oedd AAA yn cael ei nodi'n amlach. Mae hyn yn awgrymu bod cyfradd asesu uwch yn gallu arwain at gyfrannau uwch o nodi AAA.

**Tabl 6.3. Cyfran gyfartalog y plant ag unrhyw anghenion addysgol arbennig mewn ardaloedd nad ydynt yn ardaloedd Dechrau'n Deg ac mewn ardaloedd cyn ac ar ôl ehangu, wedi'i rhannu yn ôl grŵp blwyddyn**

| | Ardal nad yw'n ardal Dechrau'n Deg | | | Ardal cyn ehangu | | | Ardal ar ôl ehangu | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **07-09** | **10-12** | **13-15** | **07-09** | **10-12** | **13-15** | **07-09** | **10-12** | **13-15** |
| Derbyn | 10.7 | 11.1 | 13.8 | 19.8 | 22.4 | 23.8 | 18.2 | 17.7 | 20.4 |
| Blwyddyn 1 | 18.4 | 18.4 | 19.9 | 32.1 | 32.6 | 32.3 | 30.3 | 28.7 | 29.6 |
| Blwyddyn 2 | 25.8 | 26.1 | 25.7 | 42.4 | 40.3 | 39.3 | 40.7 | 38.4 | 38.4 |

**Ffigur 6.2. Cyfran gyfartalog y plant ag unrhyw anghenion addysgol arbennig a nodwyd yn y grŵp blwyddyn Derbyn, mewn ardaloedd nad ydynt yn ardaloedd Dechrau'n Deg ac mewn ardaloedd cyn ac ar ôl ehangu.**





6.17. Fodd bynnag, mae'n bosibl hefyd bod AAA yn llai cyffredin ymhlith plant llai amddifad, y mae'r dystiolaeth yn ategu hynny, ac os nodir bod gan blant llai amddifad anghenion ychwanegol, naill ai maent yn llai difrifol (ac felly gellir ymyrryd yn llwyddiannus) neu cânt gymorth gwell (efallai oherwydd bod incwm yr aelwyd yn uwch felly mae gwasanaethau ychwanegol ar gael). Mae tystiolaeth ddiweddar yn ategu hyn, sef bod risg uwch y bydd gan blant o gefndiroedd statws economaidd gymdeithasol is fwy o symptomau ymddygiad a gorfywiogrwydd, a symptomau mwy difrifol[73].

[73] https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/528315/The_childhood_origins_of_social_mobility.pdf

6.18. Mae Ffigur 6.3 yn dangos y gymhariaeth rhwng plant sy’n byw mewn ardaloedd cyn ehangu sydd naill ai yn y chwarteli amddifadedd isaf neu uchaf ar gyfer yr ardaloedd hynny. Ar bob pwynt amser, ac ar gyfer pob grŵp AAA, roedd AAA yn llai cyffredin mewn ardaloedd llai amddifad.

**Ffigur 6.3. Cyfran gyfartalog y plant ag unrhyw anghenion addysgol arbennig mewn ardaloedd cyn ehangu yn unig, wedi’i rhannu yn ôl y rhai sydd yn y chwarteli amddifadedd incwm uchaf neu isaf.**




6.19. Ffordd arall o archwilio’r berthynas rhwng amddifadedd ac AAA yw ystyried y plant sy’n gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim yn unig. Er y disgwylir bod ardaloedd Dechrau’n Deg yn fwy amddifad nag ardaloedd nad ydynt yn ardaloedd Dechrau’n Deg, gallai cynnwys y plant hynny sy’n gymwys ar gyfer PYDd yn unig leihau effaith y gwahaniaeth hwn. Pan fydd hyn wedi’i wneud, mae’r gwahaniaethau rhwng ardaloedd Dechrau’n Deg ac ardaloedd nad ydynt yn ardaloedd Dechrau’n Deg yn parhau, ond maent yn llai. Ar gyfartaledd, mae 33.8 y cant o blant mewn ardaloedd nad ydynt yn ardaloedd Dechrau’n Deg â rhyw fath o AAA, o gymharu â 39.7 y cant mewn ardaloedd cyn ehangu. Felly, mae gwahaniaeth o 12.7 pwynt canran rhwng ardaloedd nad ydynt yn ardaloedd Dechrau’n Deg ac ardaloedd cyn ehangu, a 5.9 pwynt canran pan fydd plant sy’n gymwys ar gyfer PYDd yn unig yn cael eu cynnwys. Mae hyn yn awgrymu nad amddifadedd yr aelwyd yw’r unig ffactor sy’n cynyddu’r tebygolrwydd o fod ag AAA yn yr ysgol (ond mae’n ffactor cyfrannol).

**Dadansoddiad**

6.20. Eto, defnyddiwyd dadansoddiad atchwel i archwilio pwysigrwydd cymharol y ffactorau ychwanegol hyn, ar lefel yr unigolyn ac ar lefel ardal. Yn ogystal â'r newidynnau a ddefnyddiwyd yn y penodau blaenorol, cafodd y flwyddyn ysgol ei chynnwys fel newidyn eglurhaol.

6.21. Mae Tabl 6.4 yn dangos yr allbynnau o'r modelau atchwel. Mae'r canlyniadau hyn yn awgrymu bod Dechrau'n Deg yn cynyddu'r tebygolrwydd o nodi AAA yn ystod ysgol gynradd, gan fod nodi AAA ychydig yn fwy tebygol ar gyfer plant sy'n byw mewn ardaloedd Dechrau'n Deg. Fodd bynnag, dyma'r sefyllfa cyn ac ar ôl i blant fod yn gymwys o bosibl ar gyfer darpariaethau Dechrau'n Deg, sy'n awgrymu mai'r ardaloedd, nid y darpariaethau, sy'n cynyddu pa mor gyffredin yw AAA. Hefyd, mae'r berthynas rhwng AAA a Dechrau'n Deg yn gymharol fychan ar ôl rheoli ar gyfer amddifadedd. Mae cysylltiad cryfach rhwng rhywedd, cymhwysedd ar gyfer PYDd ac amddifadedd incwm, a nodi AAA, na byw mewn ardal Dechrau'n Deg.

6.22. Nid yw'r canlyniadau o'r dadansoddiad hwn yn glir. Er eu bod yn awgrymu bod Dechrau'n Deg yn gysylltiedig â lefel uwch o AAA, nid yw'n hysbys a yw'r gwasanaethau a ddarperir yn nodi plant ag anghenion ychwanegol neu'n ymyrryd ac efallai'n atal yr anghenion ychwanegol hyn rhag effeithio ar addysg y plentyn. Byddai'r ddau ganlyniad hyn yn gadarnhaol oherwydd po gynharaf y gall plant gael eu nodi a chael cymorth, y mwyaf effeithiol y mae'r cymorth hwnnw'n debygol o fod[74].

6.23. Fel y'u defnyddiwyd yn yr adrannau blaenorol, pennwyd gwerthoedd ffug R wedi'i sgwario i asesu pa mor dda y gall y modelau atchwel gyfrif am y canlyniadau a welwyd. Y gwerthoedd ar gyfer pob un o'r modelau yw 0.093, 0.060, 0.020 a 0.018 ar gyfer unrhyw AAA, anawsterau dysgu, anawsterau ymddygiadol, emosiynol a/neu gymdeithasol ac anawsterau iaith, lleferydd a/neu gyfathrebu, yn y drefn honno. Mae'r gwerthoedd hyn yn awgrymu nad yw'r data sydd ar gael yn gallu cyd-fynd â'r canlyniadau gwirioneddol yn gywir iawn ar gyfer pob un o'r mesurau AAA. Gallai hyn fod oherwydd bod diffyg data ar gael, ond mae'n golygu bod cryn ansicrwydd yn y canlyniadau ac nad yw llawer o'r ffactorau sy'n arwain at unrhyw AAA mewn plentyn wedi'u cynnwys yn y model hwn.

[74] http://learning.gov.wales/docs/learningwales/publications/131016-sen-code-of-practice-for-wales-cy.pdf

**Tabl 6.4. Cyfernodau allbwn y modelau atchwel ar gyfer cyfran gyfartalog y plant ag anghenion addysgol arbennig mewn ardaloedd nad ydynt yn ardaloedd Dechrau'n Deg ac mewn ardaloedd cyn ac ar ôl ehangu Dechrau'n Deg**

| | Unrhyw AAA | Anawsterau Dysgu | Anawsterau ymddygiadol, emosiynol a/neu gymdeithasol | Anawsterau iaith, lleferydd a/neu gyfathrebu |
|---|---|---|---|---|
| Ddim yn gymwys cyn ehangu | 0.15 | 0.10 | 0.16 | 0.14 |
| Yn gymwys cyn ehangu | 0.17 | 0.10 | 0.16 | 0.15 |
| Ar ôl ehangu | 0.05 | 0.05 | 0.06 | 0.05 |
| Benyw | -0.86 | -0.54 | -1.21 | -0.79 |
| Gwyn Prydeinig | 0.15 | 0.12 | 0.19 | 0.17 |
| Cymwys ar gyfer PYDd | 0.83 | 0.73 | 0.88 | 0.50 |
| Amddifadedd incwm | 0.78 | 0.64 | 0.72 | 0.75 |

6.24. Gan nad oedd y modelau hyn yn gallu darparu tystiolaeth gadarn o'r cysylltiad rhwng Dechrau'n Deg a lefelau AAA, defnyddiwyd modelau pellach. Mae'r modelau hyn yn gysylltiedig â'r awgrym blaenorol bod plant mewn ardaloedd Dechrau'n Deg yn fwy tebygol o fod wedi'u nodi'n gynt ag AAA yn ystod yr ysgol na'r plant mewn ardaloedd nad ydynt yn ardaloedd Dechrau'n Deg. Ceisiant bennu'r cysylltiad rhwng byw mewn ardal Dechrau'n Deg ac AAA wedi'u nodi ymhlith plant oed Derbyn yn unig. Mae Tabl 6.5 yn dangos mai bach iawn oedd y gwahaniaeth rhwng ardaloedd, cyn gweithredu. Fodd bynnag, ar ôl gweithredu ac ehangu, roedd plant mewn ardaloedd cyn ehangu yn fwy tebygol o fod wedi'u nodi ag AAA yn y grŵp blwyddyn Derbyn na'r rhai mewn ardaloedd nad ydynt yn ardaloedd Dechrau'n Deg ac ardaloedd ar ôl ehangu[75].

[75] Mae'r cyfernodau negyddol yn cynrychioli bod plant yn y grŵp blwyddyn Derbyn yn llai tebygol o fod wedi'u nodi ag AAA na'r rhai yn y grwpiau blwyddyn hŷn. Wrth i'r cyfernod nesáu at sero, mae'r cysylltiad negyddol rhwng bod yn y grŵp blwyddyn derbyn â bod ag AAA yn gostwng.

**Tabl 6.5. Allbynnau'r modelau atchwel ar gyfer y cysylltiad rhwng bod yn y grŵp blwyddyn Derbyn a bod ag anghenion addysgol arbennig mewn ardaloedd nad ydynt yn ardaloedd Dechrau'n Deg ac mewn ardaloedd cyn ac ar ôl ehangu**

| | Cyn gweithredu (07 - 09) | Ar ôl gweithredu (10 - 12) | Ar ôl ehangu (13 - 15) |
|---|---|---|---|
| Ardal nad yw'n ardal Dechrau'n Deg | -0.90 | -0.87 | -0.64 |
| Ardal cyn ehangu | -0.91 | -0.71 | -0.59 |
| Ardal ar ôl ehangu | -0.93 | -0.89 | -0.73 |

6.25. Mae'r bennod hon wedi ceisio archwilio effaith Dechrau'n Deg ar lefelau AAA ymhlith plant pedair i saith oed. Mae'n ymddangos bod gwahaniaethau sylweddol mewn lefelau AAA yn ôl rhywedd ac amddifadedd, gyda bechgyn a phlant mewn aelwydydd amddifad yn fwy tebygol o fod â rhyw fath o AAA. Mae'n ymddangos bod cyfeiriad effeithiau rhywedd ac amddifadedd yn gyson ar gyfer pob math o AAA, gyda'r unig amrywio yng nghryfder yr effaith. Canfyddiad arall oedd bod nodi plant ag AAA yn y grŵp blwyddyn Derbyn yn fwy tebygol ymhlith plant sy'n byw mewn ardaloedd Dechrau'n Deg na phlant sy'n byw mewn ardaloedd nad ydynt yn ardaloedd Dechrau'n Deg.

6.26. Mae'r dadansoddiad atchwel yn awgrymu bod byw mewn ardal Dechrau'n Deg yn gysylltiedig â lefelau uwch o amlygu AAA. Yn ategu hyn y mae tystiolaeth fod byw mewn ardal cyn ehangu yn cynyddu'r tebygolrwydd o nodi AAA yn y grŵp blwyddyn Derbyn, yn hytrach nag yn nes ymlaen yn yr ysgol. Mae'r canlyniadau hyn yn awgrymu bod plant sy'n byw mewn ardaloedd Dechrau'n Deg ac sydd ag AAA yn fwy tebygol o gael eu nodi'n gynnar, gan obeithio felly eu bod yn cael cymorth ychwanegol.

# 7. Effaith Dechrau'n Deg

7.1. Mae'r canlyniadau ar gyfer y tair adran flaenorol yn cyflwyno amrywiol effeithiau Dechrau'n Deg: effaith gadarnhaol uniongyrchol fechan ar absenoldeb, dim effaith ar gyrhaeddiad ac effaith gymysg ar ba mor gyffredin yw AAA. Fodd bynnag, mae'n bwysig cofio bod y ddarpariaeth ar gyfer plant sy'n byw mewn ardaloedd Dechrau'n Deg yn dod i ben pan fyddant yn dechrau'r ysgol, felly nid oedd yr holl blant sydd wedi'u cynnwys yn y dadansoddiadau hyn yn derbyn darpariaethau Dechrau'n Deg mwyach.

7.2. O'r canlyniadau a gyflwynir yn y gwerthusiad hwn, gellid awgrymu mai effaith bosibl Dechrau'n Deg yw cynyddu lefelau presenoldeb a pha mor gyffredin yw AAA yn uniongyrchol, ond gostwng yr oedran cyfartalog pan gaiff AAA eu nodi. Gall hyn yn ei dro arwain at effaith anuniongyrchol ar gyrhaeddiad addysgol, gan fod presenoldeb ac AAA yn dda am ragfynegi cyrhaeddiad. Er mwyn profi'r rhagdybiaeth hon, defnyddiwyd dadansoddi ychwanegol.

7.3. Yn ystod tair blynedd gyntaf plant yn yr ysgol, amcangyfrifwyd eu deilliannau gan ddefnyddio model hafaliad strwythurol, sy'n defnyddio dulliau atchwel i ddangos y llwybrau y mae amrywiol nodweddion yn gallu'u dilyn er mwyn dod at y deilliannau a welir. Mae hyn yn caniatáu am ddealltwriaeth o'r amrywiaeth o ffactorau a all effeithio ar ddeilliannau, yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol. Mae Ffigur 7.1 yn dangos canlyniadau'r model hafaliad strwythurol wedi'u defnyddio wrth gymharu effeithiau'r ardal ac effeithiau cymhwysedd ar gyfer Dechrau'n Deg ar ddeilliannau ar ddiwedd blwyddyn ysgol 2 y plentyn.

7.4. Yn yr un modd â'r allbynnau atchwel, mae rhai o allbynnau'r model hafaliad strwythurol yn cynrychioli newid uniongyrchol mewn canran, ond mae rhai hefyd sy'n dangos y tebygolrwydd cymharol y bydd y deilliant yn digwydd (h.y. cymarebau ods)[76]. Er enghraifft, mae'r 36.9 y cant rhwng yr ardal cyn ehangu i AAA yn dangos cynnydd o 40.5 y cant yn y tebygolrwydd o nodi bod AAA ar blentyn, tra bo'r -0.38 y cant i bresenoldeb yn dangos bod presenoldeb 0.38 y cant yn is mewn ardaloedd cyn ehangu.


[76] Caiff newidiadau uniongyrchol mewn canrannau eu cynrychioli yn y blychau oren mewn print bras; mae'r tebygolrwydd cymharol mewn glas.

7.5. Mae Ffigur 7.1 yn awgrymu bod byw mewn ardal Dechrau'n Deg yn gysylltiedig â thebygolrwydd uwch o nodi bod gan blentyn AAA yn y grŵp blwyddyn Derbyn a phresenoldeb is ym mlwyddyn ysgol 1. Fodd bynnag, mae'r posibilrwydd o fod yn gymwys ar gyfer darpariaethau Dechrau'n Deg yn gysylltiedig â chynnydd mewn presenoldeb ac mae'r cynnydd hwn yn uwch na chysylltiad negyddol byw mewn ardal Dechrau'n Deg. Felly, mae cysylltiad cadarnhaol net â phresenoldeb ar gyfer plant sy'n byw mewn ardaloedd Dechrau'n Deg ac a allai fod wedi bod yn gymwys i dderbyn dwy flynedd neu ragor o ddarpariaeth. Mae hyn yn cyd-fynd â'r canlyniadau a ddarganfuwyd ym Mhennod 4.

7.6. Mae'r gwell presenoldeb ym Mlwyddyn Ysgol 1 yna'n cyfateb i'r cynnydd mewn presenoldeb ym Mlwyddyn Ysgol 2, sydd yn ei dro yn cynyddu'r posibilrwydd o gyflawni'r DSC ar ddiwedd Blwyddyn Ysgol 2. Mae'r canlyniadau'n dangos bod cynnydd o 1 y cant mewn presenoldeb ym Mlwyddyn Ysgol 1 yn gysylltiedig â 0.56 y cant o gynnydd ym Mlwyddyn Ysgol 2, a bod cynnydd o 1 y cant mewn presenoldeb ym Mlwyddyn Ysgol 2 yn cynyddu'r tebygolrwydd o gyflawni'r dangosydd sgiliau craidd 1.1 y cant. At hyn, mae'n ymddangos bod cysylltiad cadarnhaol uniongyrchol bychan rhwng y posibilrwydd o fod yn gymwys ar gyfer Dechrau'n Deg a chyflawni'r DSC. Fodd bynnag, mae'r effaith uniongyrchol fechan hon yn cael ei negyddu bron yn llwyr yn sgil effaith negyddol byw mewn ardal Dechrau'n Deg.

7.7. Canlyniad o bwys yw'r cysylltiad rhwng nodi AAA ar gyfer y gwahanol grwpiau blwyddyn. Mae'r canlyniadau o'r dadansoddiad o AAA yn awgrymu bod nodi bod AAA ar blentyn yn y grŵp blwyddyn Derbyn yn cynyddu'r tebygolrwydd o nodi bod AAA ar blentyn yn ystod blwyddyn ysgol 1 837 y cant, o gymharu â'r plant na nodwyd bod ganddynt AAA. Mae hyn yn awgrymu mai nifer bach iawn o blant y nodwyd bod ganddynt AAA sydd yna'n cael eu nodi'n blant nad oes ganddynt AAA mwyach.

**Ffigur 7.1. Model Hafaliad Strwythurol ar gyfer plant mewn ardaloedd Dechrau'n Deg ac mewn ardaloedd nad ydynt yn ardaloedd Dechrau'n Deg, ar gyfer 2007 i 2015**




*Mae'r blychau glas (heb brint bras) yn dangos tebygolrwydd cymharol y deilliant e.e. 36.9 y cant yn fwy o bosiblrwydd o nodi AAA yn y dosbarth Derbyn ymhlith plant mewn ardaloedd cyn ehangu*
*Mae blychau oren* ***mewn print bras*** *yn dangos cyfernodau, sef newid uniongyrchol mewn canran, e.e. ystyr cyfernod o 0.9 yw bod cynnydd o un pwynt yn y mewnbwn yn arwain at newid o 0.9 pwynt canran yn yr allbwn.*

7.8. Mae’r cysylltiadau rhwng AAA, presenoldeb a chyrhaeddiad wedi’u darganfod yn gyson yn yr adroddiad hwn, ac mae byw mewn ardal Dechrau’n Deg a’r posibilrwydd o fod yn gymwys ar gyfer darpariaethau Dechrau’n Deg yn cynyddu’r posibilrwydd o nodi AAA. Er bod cyffredinolrwydd AAA yn gysylltiedig â byw mewn ardaloedd mwy difreintiedig, mae’n annhebygol bod cymhwysedd ar gyfer Dechrau’n Deg yn achosi anawsterau dysgu; yn hytrach, mae’n fwy tebygol bod darpariaethau Dechrau’n Deg yn arwain at nodi AAA yn fwy. Fodd bynnag, mae’n amhosibl dweud pa gyfran o blant fyddai’n cael eu nodi ag AAA yn absenoldeb Dechrau’n Deg. Yn yr un modd, mae’n amhosibl gwybod effaith y rhai a oedd ag anawsterau mewn ardaloedd Dechrau’n Deg, ond na chawsant eu nodi. Gellid awgrymu bod y cynnydd yn y nifer a nodir ag AAA mewn ardaloedd Dechrau’n Deg, ac a nodir yn gynt, yn arwain at ragor o gymorth i’r plant hyn, ond ni ellir profi’r rhagdybiaeth hon gyda’r data sydd ar gael ar hyn o bryd.

7.9. Er bod y cysylltiad rhwng AAA a chyrhaeddiad addysgol yn awgrymu bod plant y nodir bod ganddynt AAA yn llai tebygol o gyflawni’r lefel ddisgwyliedig ar ddiwedd Blwyddyn Ysgol 2, nid yw’n hysbys a fyddai cryfder y cysylltiad hwn wedi bod yn gryfach neu’n wannach yn absenoldeb Dechrau’n Deg. Pe bai’r rhagdybiaeth bod nodi gwell yn arwain at gymorth gwell i ddisgyblion, yna byddai disgwyl bod Dechrau’n Deg wedi gwanhau’r cysylltiad rhwng AAA a chyrhaeddiad.

7.10. Gellir profi hyn trwy gynnal modelau atchwel ar wahân ar gyfer ardaloedd nad ydynt yn ardaloedd Dechrau’n Deg ac ardaloedd cyn ehangu i weld a oes gan AAA gysylltiad gwannach neu gryfach. Mae Tabl 7.1 yn dangos canlyniadau’r dadansoddiad hwn ac mae’r canlyniadau’n dangos bod y cysylltiadau rhwng AAA a deilliannau addysgol yn wanach mewn ardaloedd cyn ehangu o gymharu ag ardaloedd nad ydynt yn ardaloedd Dechrau’n Deg. Mae hyn yn golygu bod plant sydd wedi’u nodi ag AAA mewn ardaloedd cyn ehangu yn fwy tebygol o gyflawni’r lefel ddisgwyliedig ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen na’r rhai y nodwyd bod ganddynt AAA mewn ardaloedd nad ydynt yn ardaloedd Dechrau’n Deg.

**Tabl 7.1. Allbynnau'r modelau atchwel ar gyfer y cysylltiad rhwng nodi anghenion addysgol arbennig a byw mewn ardaloedd nad ydynt yn ardaloedd Dechrau'n Deg ac mewn ardaloedd cyn ac ar ôl ehangu**

| | **Y Cyfnod Sylfaen (2012-15)** |
|---|---|
| Ardal cyn ehangu | -0.46 |
| Ardal ar ôl ehangu | -0.39 |
| AAA cyn ehangu | -2.95 |
| AAA ar ôl ehangu | -2.98 |
| AAA heb fod mewn ardal Dechrau'n Deg | -3.22 |

## 8. Casgliad

8.1. Fel rhan o'r gwerthusiad parhaus o Dechrau'n Deg, bu'r adroddiad hwn yn archwilio'r deilliannau addysgol i blant sy'n byw mewn ardaloedd Dechrau'n Deg. Y nod oedd pennu a yw'r rhaglen wedi cael unrhyw effaith ar amrywiaeth o fesurau deilliannau addysgol. Cafodd data lefel unigolyn ar gyfer plant mewn ysgolion cynradd ei ddadansoddi i weld a fu unrhyw newidiadau mewn deilliannau oherwydd bod plant wedi dod yn gymwys ar gyfer darpariaethau Dechrau'n Deg.

8.2. Cyfyngiad i'r gwerthusiad hwn yw ei fod yn ymwneud â phoblogaeth 'y mae bwriad ei thrin' yn unig. Mae hyn yn golygu bod y plant sydd wedi'u disgrifio yn yr adroddiad hwn sy'n byw mewn ardaloedd Dechrau'n Deg o bosibl yn gymwys ar gyfer darpariaethau Dechrau'n Deg, ond nid yw'n hysbys faint o'r rhaglen y gwnaethant ymwneud ag ef. Mae'r dadansoddiad yn seiliedig hefyd ar gyfres gyfyngedig iawn o nodweddion a welwyd sy'n cael eu defnyddio fel newidynnau eglurhaol. Mae'n bosibl bod llawer o nodweddion eraill nas gwelwyd heb gael eu cynnwys, felly mae'r casgliadau y gellir dod iddynt yn gyfyngedig.

**Dechrau'n Deg**

8.3. Mae Dechrau'n Deg wedi bod ar waith ers tuag 8 mlynedd ac mae wedi darparu gwasanaethau i ddegau o filoedd o blant yn ystod y cyfnod hwnnw. Mae cost y ddarpariaeth oddeutu £76 miliwn y flwyddyn, sef tua £2,100 y plentyn cymwys, y flwyddyn. Felly, mae'n bwysig ceisio penderfynu a yw'r buddsoddiad hwn yn cael unrhyw effaith arwyddocaol ar ddatblygiad a deilliannau'r plant hyn.

8.4. O 2014/15, roedd tua chwarter o'r holl blant hyd at saith oed mewn ysgolion cynradd o bosibl[77]yn gymwys ar gyfer darpariaethau Dechrau'n Deg. Caiff hyn ei ddiffinio fel byw mewn ardal Dechrau'n Deg ar ôl gweithredu'r rhaglen a bod yn ddigon ifanc i fod wedi defnyddio gwasanaethau Dechrau'n Deg, o bosibl.

8.5. Er bod y dosraniadau rhywedd ac ethnigrwydd mewn ardaloedd Dechrau'n Deg ac ardaloedd nad ydynt yn ardaloedd Dechrau'n Deg tua'r un fath, mae gan ardaloedd Dechrau'n Deg gyfran uwch o lawer o blant sy'n gymwys ar gyfer Prydau Ysgol am Ddim (PYDd) a/neu y nodir bod ganddynt Anghenion Addysgol Arbennig (AAA). Mewn ardaloedd nad ydynt yn ardaloedd Dechrau'n Deg, mae'r lefelau PYDd ac AAA yn 16 ac 17 y cant yn y drefn honno, ond mewn ardaloedd Dechrau'n Deg, mae'r lefelau hyn hyd at 40 a 26 y cant.

[77] Dywedir eu bod yn gymwys 'o bosibl' yn unig gan nad yw'n hysbys ble'r oeddent yn byw cyn mynd i'r ysgol, felly gallent fod wedi symud i ardal Dechrau'n Deg yn 4 oed ac ni fyddent felly wedi bod yn gymwys ar gyfer unrhyw rai o ddarpariaethau Dechrau'n Deg.

8.6. Mae crynodiad y difreintedd yn uwch hefyd mewn ardaloedd Dechrau'n Deg, sydd i'w ddisgwyl gan fod Dechrau'n Deg wedi'i dargedu at ardaloedd mwy difreintiedig. Darganfuwyd bod cyfran gyfartalog y plant sy'n byw mewn amddifadedd incwm yn 53 y cant mewn ardaloedd Dechrau'n Deg, o gymharu â 25 y cant mewn ardaloedd nad ydynt yn ardaloedd Dechrau'n Deg. Yn ogystal, mae cyfrannau uwch o blant sy'n byw mewn aelwydydd lle nad oes unrhyw gymwysterau gan yr un oedolyn.

8.7. Pan fydd deilliannau plant sy'n byw ar aelwydydd ag amddifadedd incwm, lle y mae'n gyffredin i oedolion feddu ar lai o gwymysterau, darganfuwyd bod amddifadedd yn gysylltiedig â deilliannau addysgol, yn fwy tebygol o fod yn waeth. Felly, o ystyried y crynoadau uwch o amddifadedd mewn ardaloedd Dechrau'n Deg, byddai disgwyl i'r deilliannau addysgol cyffredinol fod yn is yn yr ardaloedd hyn. Fodd bynnag, os yw Dechrau'n Deg wedi bod yn cael effaith ar ddeilliannau addysgol, dylai'r gwahanaethiau rhwng ardaloedd Dechrau'n Deg ac ardaloedd nad ydynt yn ardaloedd Dechrau'n Deg fod yn llai na'r hyn y byddid wedi'i ddarganfod yn absenoldeb y rhaglen.

**Absenoldeb**

8.8. Defnyddiwyd pedwar mesur ar gyfer deilliannau: canran y diwrnodau'n bresennol, absenoldeb cyson, unrhyw absenoldeb anawdurdodedig a nifer y diwrnodau absenoldeb anawdurdodedig ymhlith y rhai sydd ag o leiaf un absenoldeb anawdurdodedig. Fel y rhagfynegwyd, mae'r lefelau absenoldeb yn uwch mewn ardaloedd Dechrau'n Deg nag mewn ardaloedd nad ydynt yn ardaloedd Dechrau'n Deg. Fodd bynnag, bu gwelliant mewn presenoldeb ym mhob ardal dros yr wyth mlynedd diwethaf a chydgyfeirio rhwng y lefelau absenoldeb mewn ardaloedd Dechrau'n Deg ac ardaloedd nad ydynt yn ardaloedd Dechrau'n Deg. Er enghraifft, fe wnaeth lefelau absenoldeb ddisgyn o 7.6 a 3.2 y cant mewn ardaloedd Dechrau'n Deg ac ardaloedd nad ydynt yn ardaloedd Dechrau'n Deg, yn y drefn honno, yn 2007/08, i 2.7 ac 1.1 y cant yn 2014/15.

8.9. Ymddengys mai'r ffactorau sydd â'r cysylltiad cryfaf ag absenoldeb yw cymhwysedd ar gyfer PYDd a statws AAA, gyda phresenoldeb uwch gan y rhai nad ydynt yn gymwys ar gyfer PYDd a heb eu nodi ag AAA. Fodd bynnag mae pwysigrwydd cymharol y ffactorau hyn yn amrywio rhwng ardaloedd Dechrau'n Deg ac ardaloedd nad ydynt yn ardaloedd Dechrau'n Deg. Mae effaith amddifadedd (fel y'u nodir gan gymhwysedd ar gyfer PYDd ac amddifadedd ardal) yn gostwng yn fwy mewn ardaloedd Dechrau'n Deg o gymharu ag ardaloedd nad ydynt yn ardaloedd Dechrau'n Deg, dros y cyfnod yn y dadansoddiad.

8.10. Cafodd dadansoddiad atchwel ei gymhwyso i bob un o'r pedwar mesur absenoldeb a darganfu fod byw mewn ardal Dechrau'n Deg â chysylltiad negyddol, ond mae bod yn gymwys o bosibl ar gyfer darpariaethau Dechrau'n Deg â chysylltiad cadarnhaol. Fodd bynnag, mae'r cysylltiad cadarnhaol hwn yn fach iawn yn sgil ystyried pob ffactor arall, fel amddifadedd a statws AAA. Wrth ei brofi gan ddefnyddio technegau paru, mae'r cysylltiad cadarnhaol bychan hwn yn cyrraedd arwyddocâd ystadegol, sy'n awgrymu bod Dechrau'n Deg yn cael effaith gadarnhaol uniongyrchol bosibl ar absenoldeb.

**Cyrhaeddiad Addysgol**

8.11. Mae mesur newidiadau mewn cyrhaeddiad addysgol dros yr wyth mlynedd diwethaf wedi'i gymhleth yn sgil cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen, a wnaeth newid y ffordd o addysgu ac asesu plant pedair i saith oed. Mae hyn yn golygu bod pob plentyn o 2012 ymlaen wedi'u hasesu yn ôl deilliannau gwahanol i'r rhai a ddefnyddiwyd yn gynt yng Nghyfnod Allweddol 1. Fodd bynnag, mae'r Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 1 yn darparu mesur cyfansawdd ar gyfer plant, yn dangos a ydynt wedi cyflawni'r lefel ddisgwyliedig ym mhob un o'r prif feysydd pwnc. Y Dangosydd Sgiliau Craidd hwn sy'n cael ei ddefnyddio yn y dadansoddiad o gyrhaeddiad addysgol.

8.12. Roedd lefelau cyrhaeddiad plant sy'n byw mewn ardaloedd Dechrau'n Deg yn is na phlant mewn ardaloedd nad ydynt yn ardaloedd Dechrau'n Deg. Fodd bynnag, mae'r gwahaniaeth rhwng ardaloedd yn llai o lawer na'r gwahaniaeth rhwng plant ag AAA a phlant heb AAA. Ymddengys hefyd fod effaith amddifadedd (fel y'i hamlygir gan gymhwysedd ar gyfer PYDd ac amddifadedd ardal), rhywedd ac ethnigrwydd ar gyrhaeddiad, ond AAA gaiff yr effaith fwyaf.

8.13. Mae'r dadansoddiad atchwel a pharu yn awgrymu nad oes effaith uniongyrchol arwyddocaol gan Dechrau'n Deg ar gyrhaeddiad addysgol. Ymddengys mai prif yrwyr cyrhaeddiad yw difreintedd, AAA a phresenoldeb. Fel y byddid wedi'i ddisgwyl, roedd plant â lefelau presenoldeb uchel yn fwy tebygol o gyflawni'r lefel ddisgwyliedig yn saith oed.

### Anghenion Addysgol Arbennig

8.14. Er mai dau brif nod Dechrau'n Deg yw nodi'n gynnar ac ymyrryd yn gynnar, nid yw'n glir sut byddai hyn yn effeithio ar lefelau AAA ymhlith plant. Un posibilrwydd yw i'r ddau nod gael yr effaith i'r gwrthwyneb, sef bod nodi'n gynnar yn cynyddu lefelau AAA a bod ymyrraeth gynnar yn gostwng AAA. Os nodwyd bod gan blant mewn lleoliadau Dechrau'n Deg oedi datblygiadol cydnabyddedig, caiff yr ysgolion wybod am hyn, gan olygu bod y plant yn dechrau'r ysgol gyda'r AAA wedi'i nodi eisoes yn hytrach na'u bod yn aros i gael eu nodi gan yr ysgol. I'r gwrthwyneb, mae Dechrau'n Deg yn ceisio dod o hyd i ffyrdd o ymyrryd mewn unrhyw oedi datblygiadol cydnabyddedig ac, os bydd hyn yn llwyddiannus, ni fydd byth angen i ysgol nodi bod gan blentyn AAA.

8.15. Mae cyffredinolrwydd AAA wedi bod yn gymharol sefydlog mewn ardaloedd Dechrau'n Deg dros yr wyth mlynedd diwethaf ac mae wedi dangos ychydig o gynnydd mewn ardaloedd nad ydynt yn ardaloedd Dechrau'n Deg. Fodd bynnag, pan gaiff AAA eu dadansoddi'n grwpiau (Anawsterau Dysgu; Anawsterau Ymddygiadol, Emosiynol a Chymdeithasol, ac Anawsterau Iaith, Lleferydd a Chyfathrebu) gwelir tuedd wahanol. Ym mhob ardal, mae Anawsterau Dysgu wedi bod yn gostwng, mae Anawsterau Ymddygiadol, Emosiynol a Chymdeithasol wedi dangos mân gynnydd ac mae cynnydd mwy amlwg wedi bod mewn Anawsterau Iaith, Lleferydd a Chyfathrebu.

8.16. Yn wahanol i absenoldeb a chyrhaeddiad addysgol, mae'n ymddangos bod AAA yn dangos gwahaniaeth mawr rhwng y rhywiau. Ym mhob math o AAA a ystyriwyd, mewn ardaloedd Dechrau'n Deg ac ardaloedd nad ydynt yn ardaloedd Dechrau'n Deg ac ar bob pwynt amser, mae AAA yn fwy cyffredin ymhlith bechgyn na merched. Gall y gwahaniaeth hwn fod cymaint â thair gwaith yn uwch ymhlith bechgyn (darganfuwyd hyn ar gyfer anawsterau ymddygiadol, emosiynol a chymdeithasol mewn ardaloedd nad ydynt yn ardaloedd Dechrau'n Deg). Yn ogystal â hyn, mae cymhwysedd ar gyfer PYDd a dangosyddion eraill amddifadedd yn gysylltiedig â lefelau uwch o AAA.

8.17. Mae dadansoddiadau o'r gwahanol grwpiau blwyddyn yn awgrymu bod plant sy'n byw mewn ardaloedd Dechrau'n Deg cyn ei ehangu yn fwy tebygol o gael eu nodi pan fyddant yn y grŵp blwyddyn Derbyn, o gymharu ag ardaloedd nad ydynt yn ardaloedd Dechrau'n Deg a chyn gweithredu'r rhaglen. Mae hyn yn awgrymu bod plant mewn ardaloedd Dechrau'n Deg yn cael eu nodi'n blant ag AAA yn iau.

8.18. Mae'r dadansoddiad atchwel yn ategu i ryw raddau'r rhagdybiaeth fod nodi'n gynnar yn cynyddu AAA a bod ymyrraeth yn gostwng AAA. Mae'r canlyniadau atchwel yn awgrymu, ar gyfer lefelau AAA yn gyffredinol, fod byw mewn ardal Dechrau'n Deg a'r posibilrwydd o fod yn gymwys ar gyfer Dechrau'n Deg yn cynyddu'r tebygolrwydd o nodi AAA. Fodd bynnag, mae'r dadansoddiad hefyd yn dangos bod ysgolion yn nodi bod gan blant AAA yn iau mewn ardaloedd Dechrau'n Deg.

**Effaith Dechrau'n Deg**

8.19. Er gwaethaf y nodweddion anhysbys, mae'n bosibl dod i'r casgliad petrus fod presenoldeb plant, a oedd o bosibl yn gymwys i dderbyn o leiaf dwy flynedd o ddarpariaethau Dechrau'n Deg, yn well na'r rhai a fu'n byw yn yr un ardaloedd cyn gweithredu'r rhaglen. Mae eu presenoldeb yn gwella hefyd yn gynt na phlant sy'n byw mewn ardaloedd nad ydynt yn ardaloedd Dechrau'n Deg. Hefyd, ymddengys fod plant a oedd o bosibl yn gymwys ar gyfer darpariaethau Dechrau'n Deg, sydd ag anghenion addysgol arbennig hefyd, wedi bod yn fwy tebygol o gael eu nodi'n gynnar na phlant mewn ardaloedd eraill a chyn gweithredu Dechrau'n Deg. Yn yr un modd, mae'n ymddangos bod y gwahaniaethau mewn presenoldeb a chyrhaeddiad rhwng plant sy'n byw mewn ardaloedd Dechrau'n Deg a'r rhai mewn ardaloedd nad ydynt yn ardaloedd Dechrau'n Deg yn gostwng.

8.20. Er gwaethaf y canlyniadau cadarnhaol hyn, gall y gwahaniaethau a ddarganfuwyd gydag amser gael eu priodoli'n rhannol yn unig i Dechrau'n Deg. Mae ystod eang o newidiadau a rhaglenni wedi'u cyflwyno ers gweithredu Dechrau'n Deg, fel y Cyfnod Sylfaen a'r Grant Amddifadedd Disgyblion. Yn ogystal â hyn, mae nifer fawr o ffactorau nas gwelwyd a allai ddylanwadu ar ddeilliannau addysgol, na ellid eu cynnwys yn y dadansoddiad hwn. Felly, gyda'r data sydd ar gael yn bresennol, ni ellir ond dod i'r casgliadau petrus hyn ynghylch effaith Dechrau'n Deg, neu bob un o'r darpariaethau penodol, ar ddeilliannau addysgol plant. Bydd casgliadau mwy pendant yn mynnu data am yr unigolion sy'n derbyn Dechrau'n Deg go iawn, yn gysylltiedig â'u deilliannau addysgol; mae hyn yn cael ei ystyried adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn.

# Atodiadau

## Atodiad A: Tablau yn dangos dadansoddiadau demograffig ar gyfer presenoldeb

**Tabl A.1. Y gwahaniaethau yng nghanran cyfartalog y diwrnodau a fynychwyd mewn ardaloedd nad ydynt yn ardaloedd Dechrau'n Deg ac ardaloedd Dechrau'n Deg cyn ac ar ôl ei ehangu, wedi'u rhannu yn ôl rhywedd, ethnigrwydd, cymhwysedd ar gyfer prydau ysgol am ddim, statws angen addysgol arbennig ac amddifadedd incwm**

| | **Ardal nad yw'n ardal Dechrau'n Deg** | | | **Ardal cyn ehangu** | | | **Ardal ar ôl ehangu** | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **07-09** | **10-12** | **13-15** | **07-09** | **10-12** | **13-15** | **07-09** | **10-12** | **13-15** |
| **Rhywedd (Gwryw vs. Benyw)** | | | | | | | | | |
| Gwryw | 0.0 | 0.0 | 0.0 | -0.1 | 0.0 | 0.0 | -0.1 | -0.1 | +0.1 |
| **Ethnigrwydd (Gwyn Prydeinig vs. Arall)** | | | | | | | | | |
| Gwyn Prydeinig | +2.1 | +2.2 | +1.1 | +2.0 | +1.4 | +0.8 | +2.2 | +0.8 | +0.2 |
| **Statws PYDd (Ddim yn gymwys vs. Yn gymwys ar gyfer PYDd)** | | | | | | | | | |
| Ddim yn gymwys | +3.3 | +3.3 | +2.7 | +2.0 | +2.1 | +1.9 | +2.7 | +2.3 | +1.7 |
| **Statws AAA (Dim AAA vs. AAA wedi'i nodi)** | | | | | | | | | |
| Dim AAA | +2.1 | +2.0 | +1.6 | +1.7 | +1.5 | +1.4 | +2.5 | +1.9 | +1.3 |
| **Amddifadedd incwm (Llai na 50% vs. mwy na 50%)** | | | | | | | | | |
| Llai na 50% | +1.9 | +1.7 | +1.3 | +1.1 | +1.0 | +0.5 | +1.1 | +1.0 | +0.5 |
| Cyfartalog | 93.3 | 93.4 | 94.4 | 91.0 | 91.4 | 93.0 | 91.1 | 91.5 | 93.1 |

**Tabl A.2. Y gwahaniaethau yng nghyfran gyfartalog y plant sy'n absennol yn gyson mewn ardaloedd nad ydynt yn ardaloedd Dechrau'n Deg ac ardaloedd Dechrau'n Deg cyn ac ar ôl ei ehangu, wedi'u rhannu yn ôl rhywedd, ethnigrwydd, cymhwysedd ar gyfer prydau ysgol am ddim, statws angen addysgol arbennig ac amddifadedd incwm.**

| | Ardal nad yw'n ardal Dechrau'n Deg | | | Ardal cyn ehangu | | | Ardal ar ôl ehangu | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 07-09 | 10-12 | 13-15 | 07-09 | 10-12 | 13-15 | 07-09 | 10-12 | 13-15 |
| **Rhywedd (Gwryw vs. Benyw)** | | | | | | | | | |
| Gwryw | -0.1 | 0.0 | +0.1 | +0.8 | +0.2 | +0.2 | +1.4 | +0.3 | 0.0 |
| **Ethnigrwydd (Gwyn Prydeinig vs. Arall)** | | | | | | | | | |
| Gwyn Prydeinig | -3.5 | -4.1 | -1.6 | -4.2 | -3.2 | -1.6 | -5.6 | -1.8 | -0.9 |
| **Statws PYDd (Ddim yn gymwys vs. Yn gymwys ar gyfer PYDd)** | | | | | | | | | |
| Ddim yn gymwys | -6.8 | -6.1 | -4.2 | -6.1 | -5.0 | -3.9 | -6.6 | -5.7 | -3.3 |
| **Statws AAA (Dim AAA vs. AAA wedi'i nodi)** | | | | | | | | | |
| Dim AAA | -4.0 | -3.5 | -2.2 | -5.1 | -3.7 | -2.9 | -7.3 | -4.7 | -2.6 |
| **Amddifadedd incwm (Llai na 50% vs. mwy na 50%)** | | | | | | | | | |
| Llai na 50% | -3.4 | -2.7 | -1.3 | -2.7 | -1.9 | -0.8 | -2.3 | -2.7 | -1.2 |
| Cyfartalog | 3.3 | 3.0 | 1.7 | 7.9 | 6.6 | 3.7 | 7.6 | 6.7 | 3.5 |

**Tabl A.3. Y gwahaniaethau yng ngyfran gyfartalog y plant sydd ag o leiaf un absenoldeb anawdurdodedig mewn ardaloedd nad ydynt yn ardaloedd Dechrau'n Deg ac ardaloedd Dechrau'n Deg cyn ac ar ôl ei ehangu, wedi'u rhannu yn ôl rhywedd, ethnigrwydd, cymhwysedd ar gyfer prydau ysgol am ddim, statws angen addysgol arbennig ac amddifadedd incwm.**


| | Ardal nad yw'n ardal Dechrau'n Deg | | | Ardal cyn ehangu | | | Ardal ar ôl ehangu | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **07-09** | **10-12** | **13-15** | **07-09** | **10-12** | **13-15** | **07-09** | **10-12** | **13-15** |
| **Rhywedd (Gwryw vs. Benyw)** | | | | | | | | | |
| Gwryw | -0.4 | -0.2 | -0.3 | +1.4 | -0.2 | -0.4 | -0.1 | 0.0 | -0.7 |
| **Ethnigrwydd (Gwyn Prydeinig vs. Arall)** | | | | | | | | | |
| Gwyn Prydeinig | -13.7 | -14.7 | -13.9 | -9.1 | -5.9 | -3.8 | -10.1 | -10.6 | -8.1 |
| **Statws PYDd (Ddim yn gymwys vs. Yn gymwys ar gyfer PYDd)** | | | | | | | | | |
| Ddim yn gymwys | -21.3 | -23.4 | -19.4 | -18.5 | -18.2 | -14.8 | -18.6 | -17.8 | -15.4 |
| **Statws AAA (Dim AAA vs. AAA wedi'i nodi)** | | | | | | | | | |
| Dim AAA | -10.5 | -8.6 | -6.8 | -8.7 | -4.8 | -6.1 | -10.1 | -7.3 | -6.4 |
| **Amddifadedd incwm (Llai na 50% vs. mwy na 50%)** | | | | | | | | | |
| Llai na 50% | -14.4 | -15.0 | -14.3 | -15.4 | -16.5 | -11.0 | -17.7 | -16.1 | -16.7 |
| Cyfartalog | 27.8 | 27.7 | 33.7 | 52.1 | 51.1 | 50.3 | 48.3 | 46.5 | 47.5 |

**Tabl A.4. Y gwahaniaethau yn nifer cyfartalog yr absenoldebau anawdurdodedig ymhlith plant sydd ag o leiaf un absenoldeb anawdurdodedig mewn ardaloedd nad ydynt yn ardaloedd Dechrau'n Deg ac ardaloedd Dechrau'n Deg cyn ac ar ôl ei ehangu, wedi'u rhannu yn ôl rhywedd, ethnigrwydd, cymhwysedd ar gyfer prydau ysgol am ddim, statws angen addysgol arbennig ac amddifadedd incwm.**


| | Ardal nad yw'n ardal Dechrau'n Deg | | | Ardal cyn ehangu | | | Ardal ar ôl ehangu | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 07-09 | 10-12 | 13-15 | 07-09 | 10-12 | 13-15 | 07-09 | 10-12 | 13-15 |
| **Rhywedd (Gwryw vs. Benyw)** | | | | | | | | | |
| Gwryw | +0.09 | -0.33 | -0.35 | +0.09 | +0.24 | -0.39 | +0.52 | -0.31 | -0.32 |
| **Ethnigrwydd (Gwyn Prydeinig vs. Arall)** | | | | | | | | | |
| Gwyn Prydeinig | -2.65 | -2.74 | -2.49 | -1.20 | -1.36 | 0.00 | -0.73 | -1.35 | -1.05 |
| **Statws PYDd (Ddim yn gymwys vs. Yn gymwys ar gyfer PYDd)** | | | | | | | | | |
| Ddim yn gymwys | -6.30 | -5.96 | 0.00 | -5.76 | -5.56 | -3.40 | -5.81 | -5.57 | -2.98 |
| **Statws AAA (Dim AAA vs. AAA wedi'i nodi)** | | | | | | | | | |
| Dim AAA | -3.56 | -2.56 | -1.39 | -3.17 | -3.03 | -1.30 | -7.45 | -3.22 | -2.07 |
| **Amddifadedd incwm (Llai na 50% vs. mwy na 50%)** | | | | | | | | | |
| Llai na 50% | -3.30 | -3.04 | -2.55 | -3.91 | -2.75 | -1.16 | -3.27 | -2.55 | -2.44 |
| Cyfartalog | 9.58 | 9.23 | 9.23 | 14.34 | 13.79 | 11.78 | 14.88 | 12.63 | 11.13 |

## Atodiad B: Ffigurau sy'n dangos y presenoldeb gwirioneddol o gymharu â'r tebygolrwydd rhagweledig a ddarparwyd gan y modelau atchwel


**Ffigur B.1. Canran cyfartalog rhagweledig y diwrnodau a fynychwyd mewn ardaloedd nad ydynt yn ardaloedd Dechrau'n Deg ac ardaloedd Dechrau'n Deg cyn ei ehangu, o gymharu â'r gyfran wirioneddol**





**Ffigur B.2. Cyfran gyfartalog ragweledig y plant sy'n absennol yn gyson mewn ardaloedd nad ydynt yn ardaloedd Dechrau'n Deg ac ardaloedd Dechrau'n Deg cyn ei ehangu, o gymharu â'r gyfran wirioneddol**



**Ffigur B.3. Cyfran gyfartalog ragweledig y plant sydd ag o leiaf un absenoldeb anawdurdodedig mewn ardaloedd nad ydynt yn ardaloedd Dechrau'n Deg ac ardaloedd Dechrau'n Deg cyn ei ehangu, o gymharu â'r gyfran wirioneddol**




**Ffigur B.4. Nifer cyfartalog rhagweledig yr absenoldebau anawdurdodedig mewn plant sydd ag o leiaf un absenoldeb anawdurdodedig mewn ardaloedd nad ydynt yn ardaloedd Dechrau'n Deg ac ardaloedd Dechrau'n Deg cyn ei ehangu, o gymharu â'r gyfran wirioneddol**




## Atodiad C: Tabl yn dangos dadansoddiadau demograffig ar gyfer cyrhaeddiad

**Tabl C.1. Y gwahaniaethau yn y canran cyfartalog sy'n ennill sgiliau craidd mewn ardaloedd nad ydynt yn ardaloedd Dechrau'n Deg ac ardaloedd Dechrau'n Deg cyn ac ar ôl ei ehangu, wedi'u rhannu yn ôl rhywedd, ethnigrwydd, cymhwysedd ar gyfer prydau ysgol am ddim, statws angen addysgol arbennig ac amddifadedd incwm**

| | Ardal nad yw'n ardal Dechrau'n Deg | | Ardal cyn ehangu | | Ardal ar ôl ehangu | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | CA1 (07-11) | CS (12-15) | CA1 (07-11) | CS (12-15) | CA1 (07-11) | CS (12-15) |
| **Rhywedd (Gwryw vs. Benyw)** | | | | | | |
| Gwryw | -8.0 | -7.2 | -9.5 | -8.8 | -10.6 | -12.7 |
| **Ethnigrwydd (Gwyn Prydeinig vs. Arall)** | | | | | | |
| Gwyn Prydeinig | +3.5 | +2.5 | +0.5 | -1.9 | -1.7 | +5.1 |
| **Statws PYDd (Ddim yn gymwys vs. Yn gymwys ar gyfer PYDd)** | | | | | | |
| Ddim yn gymwys | +19.1 | +15.9 | +13.6 | +15.8 | +15.1 | +14.8 |
| **Statws AAA (Dim AAA vs. AAA wedi'i nodi)** | | | | | | |
| Dim AAA | +43.4 | +41.2 | +49.7 | +44.5 | +45.0 | +43.0 |
| **Amddifadedd incwm (Llai na 50% vs. mwy na 50%)** | | | | | | |
| Llai na 50% | +8.5 | +6.8 | +4.2 | +7.8 | +3.8 | +3.6 |
| Cyfartalog | 84.5 | 86.7 | 70.6 | 77.4 | 76.1 | 78.5 |

**Atodiad D: Ffigur yn dangos y cyrhaeddiad gwirioneddol o gymharu â'r tebygolrwydd rhagweledig a ddarparwyd gan y modelau atchwel**

**Ffigur D.1. Y gyfran gyfartalog ragweledig sy'n cyrraedd y lefel ddisgwyliedig ar gyfer Sgiliau Craidd mewn ardaloedd nad ydynt yn ardaloedd Dechrau'n Deg ac ardaloedd Dechrau'n Deg cyn ei ehangu, o gymharu â'r gyfran wirioneddol ar gyfer modelau CA1 a'r CS**



**Atodiad E: Tablau yn dangos dadansoddiadau demograffig ar gyfer anghenion addysgol arbennig**

**Tabl E.1. Y gwahaniaethau yng nghyfran gyfartalog y plant ag unrhyw anghenion addysgol arbennig mewn ardaloedd nad ydynt yn ardaloedd Dechrau'n Deg ac ardaloedd Dechrau'n Deg cyn ac ar ôl ei ehangu, wedi'u rhannu yn ôl rhywedd, ethnigrwydd, cymhwysedd ar gyfer prydau ysgol am ddim ac amddifadedd incwm**

| | Ardal nad yw'n ardal Dechrau'n Deg | | | Ardal cyn ehangu | | | Ardal ar ôl ehangu | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 07-09 | 10-12 | 13-15 | 07-09 | 10-12 | 13-15 | 07-09 | 10-12 | 13-15 |
| **Rhywedd (Gwryw vs. Benyw)** | | | | | | | | | |
| Gwryw | 11.4 | 11.7 | 13.2 | 15.3 | 16.5 | 16.9 | 15.9 | 14.5 | 16.7 |
| **Ethnigrwydd (Gwyn Prydeinig vs. Arall)** | | | | | | | | | |
| Gwyn Prydeinig | 1.0 | 1.5 | 1.2 | 3.6 | 3.5 | 3.2 | 3.5 | 5.5 | 4.7 |
| **Statws PYDd (Ddim yn gymwys vs. Yn gymwys ar gyfer PYDd)** | | | | | | | | | |
| Ddim yn gymwys | -18.4 | -17.3 | -17.6 | -14.1 | -12.8 | -15.0 | -14.9 | -14.1 | -14.6 |
| **Amddifadedd incwm (Llai na 50% vs. mwy na 50%)** | | | | | | | | | |
| Llai na 50% | -7.1 | -7.8 | -6.9 | -3.8 | -5.2 | -5.4 | -2.4 | -3.0 | -2.8 |
| Cyfartalog | 18.3 | 18.5 | 19.8 | 31.4 | 31.6 | 31.8 | 29.6 | 28.2 | 29.8 |

**Tabl E.2. Y gwahaniaethau yng nghyfran gyfartalog y plant ag anawsterau dysgu mewn ardaloedd nad ydynt yn ardaloedd Dechrau'n Deg ac ardaloedd Dechrau'n Deg cyn ac ar ôl ei ehangu, wedi'u rhannu yn ôl rhywedd, ethnigrwydd, cymhwysedd ar gyfer prydau ysgol am ddim ac amddifadedd incwm**

| | Ardal nad yw'n ardal Dechrau'n Deg | | | Ardal cyn ehangu | | | Ardal ar ôl ehangu | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 07-09 | 10-12 | 13-15 | 07-09 | 10-12 | 13-15 | 07-09 | 10-12 | 13-15 |
| **Rhywedd (Gwryw vs. Benyw)** | | | | | | | | | |
| Gwryw | +4.5 | +4.3 | +4.2 | +5.3 | +5.2 | +4.7 | +5.6 | +5.1 | +4.2 |
| **Ethnigrwydd (Gwyn Prydeinig vs. Arall)** | | | | | | | | | |
| Gwyn Prydeinig | +0.5 | +0.7 | +0.6 | +3.3 | +2.7 | +1.7 | +2.2 | +3.4 | +2.3 |
| **Statws PYDd (Ddim yn gymwys vs. Yn gymwys ar gyfer PYDd)** | | | | | | | | | |
| Ddim yn gymwys | -10.4 | -9.2 | -7.9 | -8.3 | -6.2 | -6.7 | -7.5 | -7.0 | -6.9 |
| **Amddifadedd incwm (Llai na 50% vs. mwy na 50%)** | | | | | | | | | |
| Llai na 50% | -4.6 | -4.1 | -3.1 | -2.2 | -2.3 | -2.5 | +0.1 | -0.2 | -0.9 |
| Cyfartalog | 9.4 | 8.8 | 8.3 | 16.2 | 15.0 | 13.3 | 15.9 | 13.8 | 12.6 |

**Tabl E.3. Y gwahaniaethau yng nghyfran gyfartalog y plant ag anawsterau ymddygiadol, emosiynol a/neu gymdeithasol mewn ardaloedd nad ydynt yn ardaloedd Dechrau'n Deg ac ardaloedd Dechrau'n Deg cyn ac ar ôl ei ehangu, wedi'u rhannu yn ôl rhywedd, ethnigrwydd, cymhwysedd ar gyfer prydau ysgol am ddim ac amddifadedd incwm**

| | Ardal nad yw'n ardal Dechrau'n Deg | | | Ardal cyn ehangu | | | Ardal ar ôl ehangu | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 07-09 | 10-12 | 13-15 | 07-09 | 10-12 | 13-15 | 07-09 | 10-12 | 13-15 |
| **Rhywedd (Gwryw vs. Benyw)** | | | | | | | | | |
| Gwryw | +2.5 | +2.5 | +3.0 | +4.1 | +4.3 | +4.4 | +4.3 | +3.7 | +4.6 |
| **Ethnigrwydd (Gwyn Prydeinig vs. Arall)** | | | | | | | | | |
| Gwyn Prydeinig | +0.4 | +0.4 | +0.8 | +0.4 | +0.8 | +2.0 | +1.3 | +2.1 | +1.6 |
| **Statws PYDd (Ddim yn gymwys vs. Yn gymwys ar gyfer PYDd)** | | | | | | | | | |
| Ddim yn gymwys | -3.3 | -3.3 | -3.8 | -2.5 | -3.1 | -3.6 | -3.6 | -2.7 | -2.9 |
| **Amddifadedd incwm (Llai na 50% vs. mwy na 50%)** | | | | | | | | | |
| Llai na 50% | -1.1 | -1.0 | -1.1 | -0.8 | -0.6 | -1.0 | -0.7 | -0.7 | -0.1 |
| Cyfartalog | 2.2 | 2.3 | 2.8 | 4.5 | 4.6 | 5.1 | 4.2 | 4.1 | 4.5 |

**Tabl E.4. Y gwahaniaethau yng nghyfran gyfartalog y plant ag anawsterau iaith, lleferydd a/neu gyfathrebu mewn ardaloedd nad ydynt yn ardaloedd Dechrau'n Deg ac ardaloedd Dechrau'n Deg cyn ac ar ôl ei ehangu, wedi'u rhannu yn ôl rhywedd, ethnigrwydd, cymhwysedd ar gyfer prydau ysgol am ddim ac amddifadedd incwm**

| | Ardal nad yw'n ardal Dechrau'n Deg | | | Ardal cyn ehangu | | | Ardal ar ôl ehangu | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **07-09** | **10-12** | **13-15** | **07-09** | **10-12** | **13-15** | **07-09** | **10-12** | **13-15** |
| **Rhywedd (Gwryw vs. Benyw)** | | | | | | | | | |
| Gwryw | +3.3 | +3.7 | +4.4 | +4.8 | +5.4 | +6.1 | +4.2 | +4.4 | +6.4 |
| **Ethnigrwydd (Gwyn Prydeinig vs. Arall)** | | | | | | | | | |
| Gwyn Prydeinig | -0.1 | 0.0 | -0.5 | -0.4 | -0.3 | -1.1 | +0.4 | +0.2 | -0.3 |
| **Statws PYDd (Ddim yn gymwys vs. Yn gymwys ar gyfer PYDd)** | | | | | | | | | |
| Ddim yn gymwys | -3.7 | -3.8 | -4.4 | -2.7 | -3.1 | -3.9 | -3.4 | -3.1 | -3.6 |
| **Amddifadedd incwm (Llai na 50% vs. mwy na 50%)** | | | | | | | | | |
| Llai na 50% | -1.2 | -2.3 | -2.4 | -0.9 | -1.8 | -1.7 | -1.4 | -1.7 | -1.9 |
| Cyfartalog | 4.7 | 5.1 | 6.0 | 8.1 | 9.0 | 10.0 | 7.1 | 7.6 | 9.4 |